

# Parc Cenedlaethol Newydd i Gymru

## Asesiad o'r Effaith Economaidd

## Adroddiad Terfynol

Mehefin 2025

ARUP



Delwedd: https://www.northeastwales.wales/cy/visit-north-east-wales/clwydian-range-and-dee-valley-aonb/

# Dilysu dogfennau

| Adolygiad | Dyddiad | Disgrifiad | *Paratowyd gan* | *Gwiriwyd gan* | *Cymeradwywyd gan* |
|---|---|---|---|---|---|
| Fersiwn 1 | 9 Mai 2025 | Rhifyn drafft cyntaf | *James Horne*<br>*Bea Turner* | *Jack Stevens* | *Anna Richards* |
| Fersiwn 2 | 22 Mai 2025 | Ail rifyn drafft | *Bea Turner* | *Jack Stevens*<br>*Amy Carroll* | *Anna Richards* |
| Fersiwn 3 | 6 Mehefin 2025 | Rhifyn drafft dros dro | *Bea Turner* | *Jack Stevens* | |
| Fersiwn 4 | 9 Mehefin 2025 | Rhifyn terfynol | *Bea Turner* | *Jack Stevens* | *Anna Richards* |

# Tabl cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 4 |
| 00. Cyflwyniad | 6 |
| 01. Parciau cenedlaethol yng Nghymru | 9 |
| 02. Yr ardal ymgeisiol | 15 |
| 03. Effaith bosibl y parc cenedlaethol arfaethedig | 22 |
| 04. Casgliad | 57 |
| Atodiad – Crynodeb o’r gwaith ymgysylltu | 59 |




Delwedd: https://www.northeastwales.wales/cy/visit-north-east-wales/clwydian-range-and-dee-valley-aonb/

# Crynodeb Gweithredol

**Cyflwyniad**

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bwriad i ddynodi parc cenedlaethol newydd yng Nghymru yn seiliedig ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, sy'n bodoli eisoes, ac a elwir bellach yn 'dirwedd genedlaethol'. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), fel rhan o'i raglen ddynodi ffurfiol, wedi penodi Arup i asesu'r effeithiau economaidd posibl o ddynodi parc cenedlaethol newydd.

**Parc cenedlaethol – diben a chyd-destun**

Mae parc cenedlaethol yn ardal a ddynodwyd gan lywodraeth genedlaethol i warchod yr amgylchedd naturiol yn benodol at ddibenion cadwraeth a hamdden a mwynhad y cyhoedd. Mae gan bob un awdurdod parc cenedlaethol (APC). Mae'n debyg y byddai APC yn cyflwyno'r canlynol:

- Corff penodol ag aelodau penodedig a dyletswyddau cyfreithiol penodol mewn perthynas ag ardal y parc cenedlaethol, gan gynnwys y gofyniad i gynhyrchu cynllun rheoli.
- Pwerau cynllunio llawn ar gyfer ardal y parc cenedlaethol yn cael eu rhoi i'r APC, gyda chyfrifoldeb am baratoi cynllun datblygu lleol a gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio.
- Cymorth ariannol hirdymor gan Lywodraeth Cymru, ac ardoll awdurdod lleol, gyda'r potensial i sicrhau cyllid ychwanegol o ffynonellau eraill.

**Yr ardal ymgeisiol**

Mae'r ardal ymgeisiol yn cwmpasu 1,200 cilometr sgwâr, yn bennaf yn y Gogledd-ddwyrain a rhannau o'r Canolbarth. Mae tua thraean o'r ardal eisoes wedi'i dynodi'n dirwedd genedlaethol, ac at ei gilydd mae bron i hanner yn destun rhyw fath o warchodaeth sylweddol. Mae'r ardal, a ddynodwyd ym 1985 ac a ehangwyd yn 2011, yn cwmpasu rhannau o bum awdurdod lleol: Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Powys, a rhan fechan o Wynedd.

Mae'n cynnwys Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, bryniau â golygfeydd godidog, rhodfeydd, a safleoedd hanesyddol fel Llwybr Clawdd Offa, Castell Dinas Brân, Colofn Eliseg, Castell Sycharth ac Abaty Glyn y Groes.

**Effaith bosibl**

Gellid disgwyl i barc cenedlaethol gynyddu proffil yr ardal yn sylweddol a darparu rheolaeth a chynllunio gwell o fewn ffiniau'r parc. Byddai APC yn dod â chyllid ac adnoddau yn benodol ar gyfer y parc. Mae hyn yn debygol o gynyddu nifer yr ymwelwyr a chreu cynnig gwell iddynt, gan ddod â buddion i'r ardal, ond rhoi pwysau arni hefyd. Mae creu APC yn gyfle i ymgorffori'r broses o reoli trafnidiaeth, twristiaeth a'r ffordd y caiff y tir ei ddefnyddio yn well, yn ogystal â rhoi mesurau lliniaru wedi'u targedu ar waith. Er enghraifft, gellid defnyddio offer cynllunio fel cyfarwyddiadau Erthygl 4 i fynd i'r afael â materion fel yr ymchwydd yn nifer yr ail gartrefi.

Yn benodol, mae'r asesiad hwn wedi ystyried y canlynol:

- **Twristiaeth a'r economi ymwelwyr** – Amcangyfrifir bod 3.3 miliwn o bobl yn ymweld â'r ardal ymgeisiol bob blwyddyn. Mae enghreifftiau rhyngwladol yn awgrymu y gall nifer yr ymwelwyr gynyddu yn sylweddol yn sgil dynodi parc cenedlaethol. Ystyrir bod ystod cynnydd o ryw 15% i 30% yn ffigur credadwy ar gyfer yr ardal ymgeisiol, a fyddai'n cyfateb i ffigur rhwng 500,000 ac 1 miliwn o ymwelwyr ychwanegol y flwyddyn. Byddai hyn yn cael amrywiaeth o effeithiau, ac un ohonynt fyddai gwariant ychwanegol yn yr economi ymwelwyr, ac amcangyfrifir y byddai hyn rhwng £8 miliwn a £15 miliwn y flwyddyn.



Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (Ffynhonnell: clwydianrangeanddeevalleyaonb.org)

# Crynodeb Gweithredol

**Effaith bosibl (parhad)**

- **Cyflogaeth a busnes** – Yn ogystal â thwristiaeth, mae amaethyddiaeth a'r sector adeiladu yn gyflogwyr allweddol yn yr ardal. Yn draddodiadol, mae mwyngloddio wedi bod yn sector pwysig. Mewn rhai ardaloedd mae potensial i amgylchedd cynllunio mwy cyfyngol effeithio ar ddatblygiad masnachol yn y dyfodol, ond dylai rhagor o ymwelwyr hefyd roi hwb i rai sectorau.
- **Eiddo** – Mae gan rai rhannau o'r ardal brisiau tai uchel, ac fel sy'n wir am leoliadau gwledig eraill mae lefelau isel o dai cymdeithasol. Mae heriau o ran perchnogaeth ail gartrefi yn y Gogledd a'r Canolbarth, ac mae'n bosibl y gallai dynodi parc cenedlaethol waethygu hyn. Ceir tystiolaeth gymysg ynghylch a allai dynodi arwain at gynnydd mewn prisiau tai.
- **Trafnidiaeth** – Mae dibyniaeth mawr ar geir yn yr ardal, a cheir darpariaeth gyfyngedig o drafnidiaeth gyhoeddus. Gallai dynodi gynyddu traffig, gan ddod â phroblemau sy'n gysylltiedig â hyn, fel tagfeydd, parcio ar ymylon ffyrdd, damweiniau ac effeithiau ar ansawdd yr aer. Fodd bynnag, mae potensial i APC reoli'r materion hyn drwy fabwysiadu cynllunio trafnidiaeth gynaliadwy yn ardal y parc.
- **Cymdeithasol, diwylliant ac iechyd** – Mae gan yr ardal lefelau uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae yna boblogaeth sy'n heneiddio, ac y mae lefelau is o amddifadedd a gweithgarwch economaidd. Gallai parc cenedlaethol wella ansawdd lle a gwella mynediad at dirwedd naturiol, ond y mae hefyd yn achosi risgiau wrth roi mwy o bwysau ar wasanaethau.
- **Yr amgylchedd** – Mae gan APC y potensial i ddenu cyllid ychwanegol ar gyfer mentrau adfer natur er mwyn gwella bioamrywiaeth. Gallai'r APC fabwysiadu mesurau rheoli llifogydd naturiol fel amcan yn ei gynllun rheoli.
- **Trefniadau cyllidol ac ariannu** – Byddai APC yn cael ei gyllido gan grant gan Lywodraeth Cymru ac ardoll awdurdod lleol. Er y bwriadwyd iddo fod yn niwtral o ran y gyllideb, gellid ystyried bod yr ardoll yn dal i fod yn rhywfaint o bwysau ar y cyllid lleol. Fodd bynnag, byddai'n darparu adnoddau pwrpasol ac yn trosglwyddo cyfrifoldeb dros swyddogaethau allweddol, fel cynllunio, i'r APC gan ganiatáu o bosibl ar gyfer rheolaeth fwy cydlynol, sy'n seiliedig ar le.

**Casgliad**

Mae pennu effaith economaidd dynodi parc cenedlaethol yn gymhleth, ond mae dau ffactor allweddol yn dod i'r amlwg o'n dadansoddiad. Yn gyntaf, gallai dynodi wella rheolaeth a chyllid, a allai hybu'r economi leol. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn yn erbyn costau a'r ffaith nad yw sefydlu corff llywodraethu newydd yn effeithiol iawn, a sut y byddai'n rhyngweithio ag awdurdodau sy'n bodoli eisoes.

Yn ail, er bod y data ar nifer yr ymwelwyr yn gyfyngedig, mae'n debygol y bydd dynodi yn denu rhagor o dwristiaid, gan gynyddu gwariant yn yr ardal leol a chynyddu ei phroffil. Rhaid pwyso a mesur y fantais hon yn erbyn y pwysau ychwanegol ar seilwaith, gwasanaethau a'r amgylchedd.

Er mwyn datblygu'r casgliadau hyn, mae angen gwaith pellach i fesur a chymharu unrhyw effeithiau posibl er mwyn asesu'n well y gwerth am arian o ddynodi parc cenedlaethol newydd. Gellid datblygu hyn yn fanylach wrth i'r cynnig ar gyfer dynodi ddatblygu, ac mewn ymateb i ymgyngoriadau yn y dyfodol. Os gwneir penderfyniad i fwrw ymlaen â'r dynodi, dylai canfyddiadau'r adolygiad hwn helpu i lunio blaenoriaethau unrhyw APC yn y dyfodol.



Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (Ffynhonnell: clwydianrangeanddeevalleyaonb.org)

00

# Cyflwyniad

# Cefndir a dull

## Strwythur ein comisiwn a'r adroddiad

### Cyd-destun y comisiwn

Yn ei Rhaglen Lywodraethu (2021–2026), nododd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddynodi parc cenedlaethol newydd yng Nghymru yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, sy'n bodoli eisoes. Pe bai'n cael ei sefydlu, hwn fyddai'r pedwerydd parc cenedlaethol yng Nghymru, a'r cyntaf ers 1957.

CNC yw cynghorydd statudol Llywodraeth Cymru ar dirwedd a harddwch naturiol, a'r awdurdod dynodi ar gyfer unrhyw barc cenedlaethol a thirweddau cenedlaethol newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i CNC, fel yr awdurdod dynodi, fwrw ymlaen â rhaglen ddynodi ffurfiol i asesu'r achos dros y parc cenedlaethol newydd arfaethedig.

Mae'r ardal sy'n cael ei hasesu (yr 'ardal ymgeisiol') yn fwy na'r dirwedd genedlaethol sy'n bodoli eisoes, ac mae'n cynnwys ardaloedd ychwanegol yng Ngwynedd, Wrecsam, Sir Ddinbych a Phowys. Cynhaliodd CNC ymgynghoriad ar ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2024.

Mae tîm rhaglen tirweddau dynodedig CNC wedi penodi Ove Arup & Partners Ltd ("Arup") i asesu'r effeithiau economaidd posibl o ddynodi parc cenedlaethol newydd i lywio eu rhaglen ddynodi.

### Strwythur yr adroddiad

Mae tair rhan i'r adroddiad hwn:

1. Disgrifiad o gyd-destun a swyddogaethau parc cenedlaethol, gyda phwyslais ar y mecanweithiau y mae'n eu defnyddio i arwain at newid.
2. Proffil economaidd llinell sylfaen yr ardal ymgeisiol fel ag y mae heddiw.
3. Asesiad o'r effeithiau economaidd posibl pe bai parc cenedlaethol yn cael ei ddynodi.

Mae adrannau 2 a 3 wedi'u trefnu o amgylch wyth thema:

- Twristiaeth a'r economi ymwelwyr: Pwysigrwydd y sector i economi a chyflogaeth Cymru. Effaith amcangyfrifedig y dynodi ar nifer yr ymwelwyr.
- Cyflogaeth a busnesau – amaethyddiaeth: Trosolwg o gyflogaeth yn y sector amaethyddol yn y rhanbarth ac effaith dynodi ar yr amgylchedd cynllunio.
- Cyflogaeth a busnesau – mwynau: Trosolwg o fwynau categorïau 1 a 2 sydd i'w cael yn yr ardal ymgeisiol, yn ogystal â chyflogaeth yn y diwydiant mwyngloddio. Effaith bosibl cyfyngiadau cynllunio ar ddatblygiadau mwynau yn y dyfodol.
- Eiddo lleol: Nodweddion eiddo o fewn yr ardal ymgeisiol, a phrisiau tai lleol a chymarebau fforddiadwyedd. Effaith bosibl dynodi ar brisiau tai a pherchnogaeth ail gartrefi.
- Trafnidiaeth leol: Cyd-destun trafnidiaeth leol gan gynnwys rhwydweithiau bysiau lleol a seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd allweddol. Effaith defnydd mawr o geir o fewn yr ardal ymgeisiol, a chyfleoedd ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy.
- Diwylliannol, cymdeithasol ac iechyd: Demograffeg y bobl hynny sy'n byw yn yr ardal ymgeisiol, a'r effaith, gan gynnwys y gallu i siarad Cymraeg, amddifadedd a strwythur oedran.
- Yr amgylchedd: Trosolwg o ecoleg yr ardal ymgeisiol gan gynnwys cwmpas coetiroedd a mawndiroedd. Effaith bosibl dynodi ar ddal a storio carbon, bioamrywiaeth a lliniaru llifogydd yn naturiol.
- Cyllid a threfniadaeth: Trosolwg o strwythurau cyllido presennol awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru, cyllidebau awdurdodau lleol a strwythur sefydliadol. Effaith bosibl dynodi a phwysau cyllidebol.

# Cefndir a dull

## Methodoleg

### Dull cyffredinol

Mae'r comisiwn wedi ceisio deall effeithiau economaidd dynodi parc cenedlaethol newydd. Wrth wneud hyn, mae'r astudiaeth wedi archwilio tri phrif gwestiwn:

1. Beth yw'r mecanweithiau y gallai dynodi parc cenedlaethol eu defnyddio i achosi newid?
2. Beth yw'r amodau presennol yn ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol, a sut y gallai'r rhain newid heb ymyrraeth?
3. Pa effaith allai dynodi parc cenedlaethol newydd ei chael?

Nid yw wedi ceisio mesur mewn modd systematig yr holl effeithiau sy'n gysylltiedig â dynodi parc cenedlaethol newydd, na gwneud unrhyw asesiad cyffredinol ynghylch a ydyw dynodi yn debygol o fod o fudd economaidd ai peidio. Yn hytrach, mae'n nodi'r mathau o effaith a all ddigwydd yn erbyn cyfres o feysydd thematig.

### Ystyriaethau methodolegol

Mae sawl peth i'w ystyried o ran y fethodoleg drawsbynciol wrth ateb y cwestiynau uchod.

Yn gyntaf, mae'r man cychwyn yn wahanol ar draws yr ardal ymgeisiol. Mae tua thraean o'r ardal eisoes wedi'i dynodi'n dirwedd genedlaethol, ac mae cyfrannau sylweddol yn destun dynodiadau eraill. Mae'r dadansoddiad wedi ceisio deall sut, yn gyffredinol, y mae'r gwahaniaethau hyn yn effeithio ar yr asesiad o'r effaith.

Yn ail, gallai cwmpas daearyddol a natur y dynodi posibl newid. Mae'r asesiad wedi'i seilio ar y dybiaeth felly bod awdurdod parc cenedlaethol wedi'i ddynodi ar gyfer yr ardal ymgeisiol fel y cynigir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai'r effaith fod yn wahanol pe bai penderfyniad, er enghraifft, yn cael ei wneud yn lle hynny i ddynodi statws tirwedd genedlaethol newydd dros ardal ehangach.

Yn drydydd, mae'r asesiad yn dibynnu'n bennaf ar lenyddiaeth sy'n bodoli eisoes, dadansoddiad o ffynonellau data eilaidd ac ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Nid oes unrhyw ymchwil sylfaenol fanwl na modelu economaidd wedi'i gynnal. Mae hyn yn golygu y dylid ystyried y casgliadau fel rhai sy'n dynodi natur y newid posibl, yn hytrach na cheisio mesur neu ragweld newidiadau penodol.

Yn bedwerydd, mae'r astudiaeth yn defnyddio cynifer o ffynonellau data â phosibl. O ystyried pa mor brin yw dynodi parciau cenedlaethol (nid oes parc cenedlaethol newydd wedi'i ddynodi yng Nghymru ers bron i 70 mlynedd, a dynodwyd yr un olaf yn Lloegr yn 2010), mae'r gwaith yn tynnu ar astudiaethau rhyngwladol mewn mannau i ddeall yr effeithiau posibl. Mae angen trin y rhain yn ofalus o ystyried presenoldeb ffactorau penodol i'r ardal nad ydynt o bosibl yn berthnasol i gyd-destun Cymru.

### Adolygiad llenyddiaeth

Cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth i ategu'r fethodoleg llinell sylfaen a'r fethodoleg effaith bosibl. Golygai hyn adolygu niferoedd yr ymwelwyr â pharciau cenedlaethol a'r asesiadau a wnaed eisoes o'r effeithiau economaidd.

### Ffynonellau data eilaidd

I bennu'r llinell sylfaen, defnyddiwyd cymysgedd o ffynonellau data economaidd-gymdeithasol sylfaenol ac eilaidd. Mae'r ffynonellau data eilaidd hyn yn cynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth, StatsCymru a MapDataCymru.


### Ymgysylltu

Wrth lunio'r adroddiad hwn, cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu â'r pum awdurdod lleol o fewn yr ardal ymgeisiol, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol, a Cyfoeth Naturiol Cymru.

### Ardal yr astudiaeth

Mae ardal ymgeisiol wedi'i diffinio ar gyfer y parc cenedlaethol arfaethedig, sy'n ymgorffori Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ac ardal i'r de ohoni. Yn bennaf, mae'r pwyslais wedi bod ar yr effeithiau economaidd posibl yn yr ardal ymgeisiol a'r awdurdodau cyfagos.

Oni nodir yn wahanol, mae ffigurau dangosfwrdd yr astudiaeth llinell sylfaen wedi'u cynhyrchu'n benodol ar gyfer yr ardal ymgeisiol. Pan fo data ar gael ar lefelau ardal gynnyrch ehangach haen is ac ardal gynnyrch ehangach haen ganol, maent wedi'u dyrannu'n gyfrannol yn seiliedig ar gyfran yr arwynebedd tir o fewn yr ardal ymgeisiol gan ddefnyddio dadansoddiad gofodol system gwybodaeth ddaearyddol.



Ffigur 0.1. Yr ardal ymgeisiol (Ffynhonnell: Arup)

01

# Parc cenedlaethol – cyd-destun a swyddogaethau

# Trosolwg o barciau cenedlaethol Cymru

## Parciau cenedlaethol presennol Cymru

Mae parciau cenedlaethol yn cwmpasu 20% o gyfanswm arwynebedd Cymru, mae ganddynt boblogaeth breswyl o dros 80,000 o bobl, ac maent yn werth dros hanner biliwn o bunnoedd o werth ychwanegol crynswth Cymru (1.2% o economi Cymru). Amcangyfrifir bod 12 miliwn o bobl yn ymweld â'r tri pharc cenedlaethol yng Nghymru bob blwyddyn, ac mae bron i dri chwarter o boblogaeth Cymru yn ymweld â pharc cenedlaethol bob blwyddyn[1].


Yn dilyn Deddf Mynediad i Gefn Gwlad 1949, dechreuodd Llywodraeth y DU oes newydd o gadwraeth cefn gwlad a mynediad cyhoeddus[2]. Darparodd y ddeddf y fframwaith ar gyfer creu parciau cenedlaethol, ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol (AHNE), a hawliau tramwy cyhoeddus ledled Cymru a Lloegr. Yng Nghymru, arweiniodd hyn yn uniongyrchol at ddynodi'r parciau cenedlaethol cyntaf.

Mae'r tri pharc cenedlaethol yng Nghymru yn cwmpasu arwynebedd o ryw 4,122 cilometr sgwâr.

**Parc Cenedlaethol Eryri – a ddynodwyd ym 1951.** Y parc cenedlaethol hynaf yng Nghymru, mae'n adnabyddus am yr Wyddfa, llwybrau cerdded â golygfeydd godidog, a chwareli llechi dramatig, y mae rhai ohonynt bellach yn ffurfio tirwedd llechi Gogledd-orllewin Cymru, sydd wedi'i rhestru gan UNESCO. Mae'r parc, sy'n ymestyn dros rannau o Wynedd a Chonwy, hefyd yn cynnig atyniadau antur fel y weiren wib gyflymaf yn y byd yn Zip World a rheilffordd hanesyddol Ffestiniog, y rheilffordd gul hynaf yn y byd.

**Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – a ddynodwyd ym 1952.** Yr unig barc cenedlaethol arfordirol yn y DU, mae'n mynd ar hyd llawer o arfordir Sir Benfro. Mae'n cynnwys gwarchodfeydd natur, safleoedd cynhanesyddol, ac amryw o draethau, o dref borthladd brysur Dinbych-y-pysgod i draeth ynysig Marloes. Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro, sydd bellach yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru, yn llwybr adnabyddus i gerddwyr, tra bod gweithgareddau fel arforgampau—sy'n cyfuno dringo, nofio a neidio—hefyd yn gysylltiedig â'r ardal.

**Bannau Brycheiniog – a ddynodwyd ym 1957.** Mae parc cenedlaethol ieuengaf Cymru yn ymestyn dros ganolbarth Cymru ac mae'n cynnwys bryngaerau, tyddynnod, a thomenni claddu hynafol sy'n awgrymu presenoldeb dynol ers amser maith. Mae'r dirwedd yn cynnal bywyd gwyllt amrywiol, gan gynnwys y barcud coch a blodau gwyllt prin fel y tormaen porffor. Mae'r parc hefyd yn cael ei gydnabod am ei awyr gyda'r nos, ac wedi'i ddynodi'n Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol gyntaf Cymru oherwydd ei olygfeydd clir o'r sêr.




Ffigur 1.1. Map o barciau cenedlaethol presennol Cymru (Ffynhonnell: Arup)

1. nationalparkswales.uk/__data/assets/pdf_file/0026/18674/Valuing-Wales-National-Parks-.pdf
2. https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1995/25/contents

# Trosolwg o barciau cenedlaethol Cymru

## Disgrifiad o barc cenedlaethol a'i ddyletswyddau cyfreithiol a statudol

**Trosolwg o barc cenedlaethol**

Mae parc cenedlaethol yn ardal a ddynodwyd gan lywodraeth genedlaethol i warchod yr amgylchedd naturiol yn benodol at ddibenion cadwraeth, a hamdden a mwynhad y cyhoedd. Mae'n ddarn helaeth o dirwedd, sy'n aml yn cwmpasu rhannau o wahanol awdurdodau lleol.

Mae yna ardaloedd sy'n cynnwys cynefinoedd a thirweddau o bwys cenedlaethol a gwerthfawr iawn sy'n sensitif i newid o ganlyniad i bwysau dynol neu newid yn yr hinsawdd. Yn y DU, mae parciau cenedlaethol yn 'fannau byw' ag economïau amrywiol, gyda'r rhan fwyaf o'r tir mewn perchnogaeth breifat[1].

Diben dynodi parc cenedlaethol yw gwarchod a gwella'r dirwedd naturiol er budd hamdden pobl yn benodol. Felly, bydd dynodi parc cenedlaethol yn cefnogi ac yn annog datblygiadau sy'n gwarchod yr amgylchedd naturiol ac yn gwella gallu ymwelwyr i fwynhau'r dirwedd naturiol at ddibenion hamdden.

Mae hyn yn ddefnyddiol wrth wella'r offer cynllunio a chyfreithiol mewn ardaloedd lle mae pwysau yn bodoli eisoes o ganlyniad i ymweliadau at ddibenion hamdden.

**Deddfwriaeth allweddol**

Mae dibenion statudol parciau cenedlaethol wedi'u nodi yn Neddf yr Amgylchedd 1995 (adran 61):[2]

1. Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal.
2. Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer deall a mwynhau rhinweddau arbennig y parciau gan y cyhoedd.

Pan fo gwrthdaro rhwng y ddau ddiben hwn, mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn nodi y dylai unrhyw awdurdod perthnasol "roi mwy o bwyslais ar ddiben gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal sydd wedi'i chynnwys yn y parc cenedlaethol"[3].

Dyma ddyletswyddau cyfreithiol awdurdod y parc cenedlaethol:

- Paratoi, cyhoeddi, ac ymgynghori ar gynllun rheoli ar gyfer ardal y parc cenedlaethol.
- Ceisio gwarchod yr amgylchedd naturiol a gwella gallu ymwelwyr i fwynhau a deall ei rinweddau arbennig.
- Paratoi, cyhoeddi, ac ymgynghori ar y cynllun datblygu lleol.
- Ymgymryd â'r swyddogaeth cynllunio rheoli datblygu lleol.



Parc Cenedlaethol Eryri (Ffynhonnell: storymaps.arcgis.com)

1. https://www.nationalparks.uk/what-is-a-national-park/
2. Deddf yr Amgylchedd 1995
3. https://www.gov.uk/government/publications/landscapes-review-national-parks-and-aonbs-government-response/landscapes-review-national-parks-and-aonbs-government-response

# Awdurdodau parciau cenedlaethol

## Rôl a chyfrifoldebau

### Trosolwg

Mae gan bob parc cenedlaethol yng Nghymru ei awdurdod parc cenedlaethol (APC) ei hun. Mae'r APC yn gorff corfforaethol ac yn weithrediaeth annibynnol o fewn y fframwaith llywodraeth leol. Rhaid i awdurdodau parciau cenedlaethol lunio cynllun rheoli sy'n amlinellu amcanion a pholisïau strategol ar gyfer rheoli'r parc. Mae gan yr awdurdodau hyn ddyletswydd i geisio hybu ffyniant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn eu hardal, ond rhaid iddynt wneud hynny heb wario llawer o arian ychwanegol.

Yr APC yw'r awdurdod cynllunio lleol statudol ar gyfer tir o fewn eu ffiniau, sy'n gyfrifol am bob agwedd ar gynllunio, gan gynnwys rheoli datblygu, gan feddu ar eu cynlluniau datblygu lleol eu hunain, sy'n fframio eu polisïau cynllunio.

### Cyfrifoldebau

Mae cyfrifoldebau penodol awdurdodau parciau cenedlaethol yn cynnwys y canlynol:

- Penderfynu ar weledigaeth hirdymor ar gyfer y parc cenedlaethol, wedi'i chynnwys yn y cynllun rheoli sy'n ddogfen allweddol.
- Gwarchod yr amgylchedd naturiol ac adeiledig mewn partneriaeth ag asiantaethau fel CNC ac awdurdodau lleol.
- Cefnogi cymunedau lleol, gwarchod treftadaeth a diogelu traddodiadau diwylliannol.
- Hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad, gan gynnwys drwy reoli canolfannau ymwelwyr, hawliau tramwy cyhoeddus ac adnoddau dysgu.
- Cynhyrchu cynllun datblygu lleol ac asesu ceisiadau cynllunio gydag ardal y parc cenedlaethol.

### Penodi aelodau APC

Cytunwyd ar y protocol canlynol rhwng yr awdurdodau parciau cenedlaethol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Llywodraeth Cymru ynghylch penodi cynghorwyr[1].

O dan Atodlen 2 o Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995, mae awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru yn awdurdodau ag un diben, gyda thraean o'u haelodau wedi'i benodi gan Lywodraeth Cymru, a dwy ran o dair yn gynghorwyr wedi'u henwebu gan awdurdodau lleol cyfansoddol ardal y parc cenedlaethol[1].

Mae adrannau 15 ac 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 hefyd yn eu gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol benodi cynghorwyr sir i adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod lleol dan sylw.

Disgwylir i aelodau'r APC gynrychioli buddiannau'r parc yn hytrach na'u prif awdurdod. Mae Tabl 1.1 yn dangos y cyfansoddiad o ran aelodau'r tri pharc cenedlaethol yng Nghymru ar hyn o bryd.

### Cyllid a strwythur

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod lefel gymeradwy yr APC o wariant refeniw net ar gyfer y flwyddyn, ac yn ariannu 75% o'r swm hwn drwy Grant y Parciau Cenedlaethol. Codir y 25% sy'n weddill drwy ardoll ar yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Mae'r ardoll hon yn rhan o'r setliad cyllideb blynyddol cyffredinol ac mae'n cael ei hadlewyrchu yn y cyllid y mae pob awdurdod lleol yn ei gael, sy'n golygu y dylai gael effaith ariannol niwtral. Gellir cynhyrchu incwm ychwanegol hefyd drwy geisiadau am gyllid grant atodol, gwerthu asedau, gweithgareddau masnachu, ffioedd a llog o offerynnau ariannol.

Mae gan bob APC ei dîm ymroddedig ei hun. Er enghraifft, mae APC Eryri yn cyflogi 100 aelod o staff wedi'u dosbarthu ar draws 12 adran, i ymdrin â swyddogaethau megis cyllid, adnoddau dynol, gwasanaethau eiddo, polisi cynllunio, rheoli datblygu, a threftadaeth ddiwylliannol.

Tabl 1.1. Y cyfansoddiad o ran aelodau presennol yr APC (Ffynhonnell: Arup)

| Y cyfansoddiad o ran aelodau | Bannau Brycheiniog | Arfordir Penfro | Eryri |
|---|---|---|---|
| Nifer a benodwyd o **awdurdodau lleol cyfansoddol** | 12 | 12 | 12 |
| Nifer a benodwyd gan **Lywodraeth Cymru** | 6 | 6 | 6 |
| **Cyfanswm yr aelodau** | **18** | **18** | **18** |

1. Download.aspx

# Awdurdodau parciau cenedlaethol

## Cynllun rheoli a dogfennau corfforaethol eraill

**Rôl y cynllun rheoli**

Cynllun rheoli'r parc cenedlaethol yw'r ddogfen gorfforaethol bwysicaf ar gyfer pob parc cenedlaethol. Dyma'r prif gyfrwng ar gyfer sicrhau bod darpariaethau statudol Deddf yr Amgylchedd 1995 yn cael eu bodloni, gan gynnwys y dyletswyddau a osodir ar bob corff cyhoeddus o dan adran 62(2)[1].

Mae'r cynllun rheoli yn nodi cynigion ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy, mynediad a hamdden, cymunedau, bywyd gwyllt a threftadaeth, yn aml gydag enghreifftiau astudiaethau achos o brosiectau yn eu hardal. Mae'n gynllun ar gyfer ardal ddaearyddol y parc ac nid ar gyfer unrhyw un awdurdod yn benodol.

**Gofynion cyfreithiol**

Mae'n ofynnol i bob awdurdod parc cenedlaethol lunio a chyhoeddi cynllun rheoli (adran 66(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995), gan amlinellu'r weledigaeth, yr amcanion, a rhinweddau arbennig yr ardal y bwriedir ei gwarchod a'i gwella.

Rhaid i APC newydd gynhyrchu cynllun rheoli parc cenedlaethol o fewn tair blynedd o gael ei sefydlu. Mae dyletswydd statudol i adolygu cynllun rheoli'r parc cenedlaethol "fesul cyfnodau nad ydynt yn hwy na phum mlynedd" (adran 66 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995). Yn ddelfrydol, gwneir hyn ar y cyd â'r cynllun datblygu lleol. Mae agwedd cynllunio defnydd tir ar gynllun rheoli'r parc cenedlaethol yn cael ei roi ar waith drwy'r cynllun datblygu lleol statudol ar gyfer pob parc cenedlaethol.

**Cynnwys y cynllun rheoli**

Dylai cynlluniau rheoli gynnwys y canlynol:

- Disgrifiad o rôl cynllun rheoli'r parc cenedlaethol a dibenion y parc cenedlaethol, a'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd sy'n pennu prif bwyslais y cynllun.
- Nodi rhinweddau arbennig y parc cenedlaethol.
- Disgrifiad o'r problemau sy'n wynebu'r parc cenedlaethol, a'r tueddiadau cysylltiedig.
- Nodi uchelgais y parc cenedlaethol – gweledigaeth ac amcanion.
- Nodi'r dulliau o gyflawni'r uchelgais – polisïau a chynllun gweithredu.

**Dogfennau corfforaethol eraill**

Mae'n ofynnol i awdurdodau parciau cenedlaethol gynhyrchu amrywiaeth o ddogfennau corfforaethol eraill, gan gynnwys adroddiadau ariannol, cynllun corfforaethol ac adnoddau blynyddol, datganiad llesiant, dogfennau cynllunio, ac adroddiadau ar y Gymraeg a chydraddoldeb.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn helpu i arwain gweithgarwch awdurdodau parciau cenedlaethol ac yn adrodd ar gynnydd i randdeiliaid perthnasol.

**Safonau'r Gymraeg**

Mae'n ofynnol i awdurdodau parciau cenedlaethol gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Y ddau egwyddor allweddol yn hyn o beth yw na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dylai pobl sy'n byw yng Nghymru allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny.

Mae'r APC yn cael hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg, sy'n egluro sut y disgwylir i'r awdurdod ddarparu gwasanaethau o'r fath yn y Gymraeg, ystyried y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau, a darparu rhagor o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y parc cenedlaethol.



Parc Cenedlaethol Eryri (Ffynhonnell: www.visitsnowdonia.info/cy)

1. Cynlluniau-rheoli-ar-gyfer-Parciau-Cenedlaethol-canllawiau.pdf

# Awdurdodau parciau cenedlaethol

## Rôl yr awdurdod cynllunio

### Trosolwg

Mae gan barciau cenedlaethol statws tebyg i dirweddau cenedlaethol o ran gwarchod y dirwedd. Fodd bynnag, mae awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn gyfrifol am bob agwedd ar gynllunio ymlaen llaw, a rheoli datblygu o fewn y parc cenedlaethol. Mae hyn yn wahaniaeth sylweddol i dirweddau cenedlaethol, lle mae gan yr awdurdodau cynllunio lleol cyfansoddol gyfrifoldeb am gynllunio, ond gallant ymgynghori ag awdurdodau tirweddau cenedlaethol megis Cyd-bwyllgor Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod cynllunio o fewn y parc cenedlaethol yn gweithredu'n gydgyffyrddol â thirwedd y parc cenedlaethol, tra'i fod, mewn tirweddau cenedlaethol, yn gweithredu ar ffiniau gweinyddol presennol sy'n croestorri'r dirwedd statudol i raddau amrywiol[1].

### Blaengynllunio

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn darparu canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae hyn yn nodi, er enghraifft, na ddylai datblygiadau mawr ddigwydd mewn parc cenedlaethol na thirweddau cenedlaethol ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.


Ar gyfer pob parc cenedlaethol, rhaid paratoi cynllun datblygu lleol (CDLl) sy'n darparu'r fframwaith polisi ar gyfer datblygu a defnyddio tir o fewn y parc cenedlaethol. Mae'r cynllun yn cynnwys testun a mapiau, ac ynghyd â pholisi cynllunio cenedlaethol bydd yn llywio penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

Er enghraifft, mae Cynllun Datblygu Lleol Eryri ar gyfer 2016–2031 (y llun ar y dde) yn amlinellu polisïau yn y meysydd canlynol:

- Seilwaith cymdeithasol a ffisegol
- Gwarchod, gwella a rheoli'r amgylchedd naturiol
- Datblygu cyflogaeth a hyfforddiant
- Twristiaeth a hamdden
- Gwarchod a gwella'r amgylchedd diwylliannol a hanesyddol

### Rheoli datblygu

Yn dilyn dynodi, byddai'r APC yn gyfrifol yn gyffredinol am benderfynu ar bob cais cynllunio o fewn ardal y parc cenedlaethol, er y gall y cyfrifoldeb hwn amrywio, yn dibynnu ar y model a ddewisir ar ei gyfer. O fewn yr ardal ymgeisiol, yn ystod y pum mlynedd diwethaf bu cyfanswm o ryw 2,000 o geisiadau cynllunio. O'r cyfanswm hwn, mân geisiadau cynllunio oedd y mwyafrif helaeth, sy'n debyg i gyfanswm Parc Cenedlaethol Eryri, lle cafwyd rhwng 400 a 500 o geisiadau cynllunio y flwyddyn, ar gyfartaledd, sy'n cyfateb i ryw 2,000–2,500 dros bum mlynedd (mân geisiadau cynllunio yn bennaf hefyd)[2].




CDLl Eryri (Ffynhonnell: eryri.llyw.cymru)

1. darparu-gwasanaethau-cynllunio-mewn-tirweddau-dynodedig.pdf
2. Adolygiad Arup o'r gwasanaethau cynllunio yng nghyd-destun parc cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru

# 02 Yr ardal ymgeisiol

# Trosolwg o'r ardal ymgeisiol


## Lleoliad daearyddol y parc cenedlaethol arfaethedig

Mae'r parc cenedlaethol newydd wedi'i gynnig yng Nghymru, gan ymgorffori Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, sy'n bodoli eisoes. Os caiff ei ddynodi, hwn fydd y parc cenedlaethol newydd cyntaf yng Nghymru ers bron i 70 mlynedd.

Mae Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, tirwedd genedlaethol fwyaf a mwyaf newydd Cymru, yn ymestyn dros 390 cilometr sgwâr. Mae'n cynnwys Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, bryniau â golygfeydd godidog, rhodfeydd, a safleoedd hanesyddol fel Llwybr Clawdd Offa, Castell Dinas Brân, Colofn Eliseg, Castell Sycharth ac Abaty Glyn y Groes.

Mae'r ardal, a ddynodwyd ym 1985 ac a ehangwyd yn 2011, yn cwmpasu rhannau o bum awdurdod lleol: Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Powys, a rhan fechan o Wynedd.

Mae'r ardal ymgeisiol yn cwmpasu 1,200 cilometr sgwâr, sy'n debyg o ran maint i Fanceinion Fwyaf. Mae hyn dair gwaith maint presennol Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, sy'n ymgorffori rhannau o'r pum awdurdod lleol.




Ffigur 2.1. Yr ardal ymgeisiol (Ffynhonnell: Arup)

# Trosolwg o'r ardal ymgeisiol

## Rhinweddau arbennig o fewn yr 'ardal chwilio'

Mae rôl statudol parciau cenedlaethol yn cyfeirio at hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau 'rhinweddau arbennig'. Mae'r rhain yn diffinio beth sy'n gwneud parc cenedlaethol yn unigryw ac yn egluro pam ei fod mor werthfawr i'r genedl. Maent yn helpu i hyrwyddo'r parc cenedlaethol ac yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu polisïau.

Cynhaliodd CNC gyfres o weithdai i ymgysylltu â staff awdurdodau lleol, ynghyd â rhanddeiliaid strategol ac arbenigwyr, i bennu rhestr o rinweddau arbennig arfaethedig ar gyfer y parc cenedlaethol newydd. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod[1]:

**1. Man ysbrydoledig sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant meddyliol, corfforol ac ysbrydol**

Mae'r ardal hon yn adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac amgylcheddol Cymru. Wedi'i llunio gan fywyd gwledig, barddoniaeth ac adrodd chwedlau, mae'n parhau i fod yn gadarnle i'r Gymraeg. Mae ei dirweddau amrywiol yn cynnal bywyd gwyllt a hamdden awyr agored. Mae cysylltiadau hanesyddol â Lerpwl a Birmingham, yn enwedig yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a thraddodiad o gymunedau gwasgaredig a threftadaeth lenyddol, yn golygu ei fod yn dirnod diwylliannol a naturiol.

**2. Lle sy'n cynnwys cymunedau cydlynol a phatrymau anheddu nodedig**

Diffinnir yr ardal gan ymdeimlad cryf o gymuned a lle, wedi'i llunio gan ddiwylliannau nodedig y dyffrynnoedd ac aneddiadau clos. Mynegir hunaniaeth Gymreig drwy iaith, amaethyddiaeth a bywyd bob dydd, tra bod dylanwadau'r ffin yn cyfoethogi'r traddodiadau lleol. Mae egni cymunedol, dulliau cyfathrebu lleol, a chanolfannau ar gyfer y celfyddydau a gweithgareddau awyr agored yn meithrin gwytnwch a bywiogrwydd diwylliannol.

**3. Stori am ryngweithio pobl â'r dirwedd dros filoedd o flynyddoedd**

Mae'r ardal yn doreithiog o ran hanes, gyda thomenni claddu hynafol, tirweddau'r Oes Efydd, olion ffermio canoloesol, a nodweddion nodedig fel bryngaerau, cylchoedd cerrig, a chestyll. Mae hefyd yn cynnwys safleoedd sy'n gysylltiedig â'r Ail Ryfel Byd a'r Rhyfel Oer, elfennau Treftadaeth y Byd, ac mae defaid cynefin yn parhau i drigo yno.

**4. Cartref i rywogaethau a chynefinoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol ac yn lleol**

Mae'r ardal yn gartref i gynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig, ac yn arddangos arweinyddiaeth fyd-eang o ran adfer mawndiroedd. Mae'n cynnal rhywogaethau rhestr goch yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur, ac mae rhywogaethau megis afancod a gweilch wedi'u hailgyflwyno i'r ardal mewn ffordd reoledig. Mae'r dirwedd hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer atebion ar sail natur i oresgyn heriau amgylcheddol.

**5. Tirwedd nodedig, gyflenwol a chyferbyniol**

Mae'r ardal yn cynnig golygfeydd panoramig ac amrywiaeth eang o nodweddion tirwedd, gan gynnwys twyni, clegyrau, rhaeadrau, afonydd ac ogofâu. Mae gorwelion di-dor, dyffrynnoedd â golygfeydd godidog, a blaenddyfroedd, yn ogystal â choetiroedd a phrysgwydd, i gyd wedi'u rhestru yng nghatalog y safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA).

**6. Tirwedd sy'n darparu buddion y tu hwnt i'w ffiniau**

Mae'r ardal yn cynnal bioamrywiaeth doreithiog, yn elwa ar aer a dŵr glân, ac yn chwarae rôl hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau ecosystem hanfodol. Mae'r rhain yn cynnwys storio carbon organig, lleihau milltiroedd bwyd, cynnig mannau gwyrdd i gymunedau trefol, a helpu i reoleiddio llif a dosbarthiad dŵr.



Gwalch Glaslyn (Ffynhonnell: Visit Mid Wales – Canolbarth Cymru)



Dyfrgi (Ffynhonnell: Cyngor Bro Morgannwg)


1. Adnabod rhinweddau arbennig ardal chwilio parc cenedlaethol newydd posibl yn y Gogledd-ddwyrain

# Trosolwg o’r ardal ymgeisiol

## Ardaloedd gwarchodedig o fewn ffiniau arfaethedig y parc

Mae ffiniau’r parc cenedlaethol yn cwmpasu sawl ardal warchodedig sy’n bodoli eisoes. Ar hyn o bryd, mae bron i hanner (49%) y tir o fewn yr ardal ymgeisiol eisoes o dan warchodaeth sylweddol. Mae’r ardaloedd gwarchodedig hyn yn cynnwys y canlynol:

| Ardal warchodedig | Disgrifiad |
|---|---|
| **Tirweddau cenedlaethol (AHNE gynt)** | Wedi’u gwarchod yn gyfreithiol oherwydd eu tirweddau, eu bywyd gwyllt, eu daeareg a’u daearyddiaeth eithriadol. Mae ganddynt yr un gwerth golygfaol â pharc cenedlaethol ac maent yn cael eu gwarchod yn gadarn o ran cynllunio. |
| **Safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA)** | Mae safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn ardaloedd o ddiddordeb gwyddonol gwarchodedig yn y DU oherwydd eu bywyd gwyllt, eu planhigion neu eu daeareg, o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae CNC yn eu nodi ac mae’n rhaid ymgynghori â hwy cyn datblygu yn yr ardal gyfagos. |
| **Gwarchodfa natur genedlaethol (GNG)** | Mae gwarchodfeydd natur cenedlaethol yn gwarchod ac yn cynorthwyo astudiaethau o fywyd gwyllt, cynefinoedd a daeareg pwysig. Yng Nghymru, mae pob GNG yn SoDdGA, gyda llawer hefyd wedi’u gwarchod fel ardaloedd cadwraeth arbennig, ardaloedd gwarchodaeth arbennig, neu safleoedd Ramsar, sy’n rhoi diogelwch cyfreithiol ychwanegol iddynt. Cyfoeth Naturiol Cymru sy’n dewis ac yn dynodi GNG. |
| **Ardal gwarchodaeth arbennig (AGA)** | Ardal sydd wedi’i dynodi i warchod adar gwyllt sydd wedi’u rhestru fel rhai prin a bregus gan y Gyfarwyddeb Adar. Mae ardaloedd gwarchodaeth arbennig hefyd yn cynnwys safleoedd yng Nghymru a ddefnyddir gan adar mudol fel mannau aros. |
| **Ardal cadwraeth arbennig (ACA)** | Ardal a ddewiswyd i wneud cyfraniad sylweddol at warchod y cynefinoedd a rhywogaethau bywyd gwyllt sy’n byw yno, sef y rheini a enwir yng Nghyfarwyddeb Cynefinoedd y CE. Mae safleoedd AGA ac ACA yng Nghymru ar dir hefyd yn safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, sy’n golygu bod ganddynt warchodaeth cyfreithiol a chanllawiau ar gyfer eu rheoli. |
| **Parc gwledig** | Ardal a ddynodwyd i bobl ymweld â hi a mwynhau hamdden mewn amgylchedd gwledig. Fel arfer mae parciau gwledig yn agos at ardaloedd adeiledig neu’n gyfagos iddynt. Dynodwyd y mwyafrif o’r rhain yn y 1970au, o dan Ddeddf Cefn Gwlad 1968. Caiff y mwyafrif eu rheoli gan awdurdodau lleol er y gall sefydliadau eraill ac unigolion preifat eu rhedeg hefyd. |




Ffigur 2.2. Ardaloedd gwarchodedig yn y parc cenedlaethol (Ffynhonnell: Arup)

# Trosolwg o'r ardal ymgeisiol


## Asedau hanesyddol a diwylliannol o fewn ffiniau arfaethedig y parc

Mae'r ardal ymgeisiol yn cynnwys toreth o asedau hanesyddol a diwylliannol. Yn seiliedig ar ddata o MapDataCymru[1], mae'r ardal yn cynnwys:

- **21** eiddo rhestredig **gradd I**
- **1,229** eiddo rhestredig **gradd II**
- **91** eiddo rhestredig **gradd III**
- **21** o barciau a gerddi hanesyddol
- **198** o henebion cofrestredig
- **1** Safle Treftadaeth y Byd **UNESCO**

Mae 1,341 o eiddo rhestredig o fewn yr ardal ymgeisiol, sy'n cael eu rheoli o dan y canllawiau atodol *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*[2].

Mae parciau a gerddi hanesyddol yn hollbwysig i hunaniaeth Cymru, gan adlewyrchu ei hanes diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd wrth gyfoethogi'r dirwedd. Mae sawl un o fewn ffiniau'r ardal ymgeisiol, sy'n cynnwys Castell y Waun, Tŷ Euarth, Gelli-aur, Neuadd Trevor, Castell Sycharth, a Neuadd Bodfach. Mae Castell Conwy, rhan o Gestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd sy'n Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, wedi'i leoli ychydig y tu allan i'r ardal ymgeisiol. Rhoddir gwarchodaeth cyfreithiol i safleoedd archaeolegol o bwys cenedlaethol drwy eu hychwanegu at 'gofrestr' o henebion. Mae rhai o'r rhain o fewn yr ardal ymgeisiol yn cynnwys crugiau a chylch daear Creigiau Eglwyseg, anheddiad gwledig amddifad Bryn Gwyn, Hospitiwm Llanwddyn a Moel y Gaer. Mae Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn Safle Treftadaeth y Byd UNESCO a adeiladwyd rhwng 1793 a 1808, ac yn ymestyn 11 milltir ar draws afon Dyfrdwy.




Ffigur 2.3. Asedau hanesyddol a diwylliannol (Ffynhonnell: Arup)

1. Adeiladau rhestredig | MapDataCymru
2. https://cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Change%20to%20Listed%20Buildings%20in%20Wales%2024303%20CY.pdf

# Twristiaeth a'r economi ymwelwyr

## Dalgylch

Mae Arup wedi mapio dalgylchoedd gyrru eang ar gyfer yr ardal ymgeisiol arfaethedig gan ddefnyddio PODARIS. Modelwyd dalgylchoedd amser gyrru fesul cyfnodau o 30, 60, a 120 munud o ffiniau'r parc. Arosodwyd mapiau dalgylchoedd ar gyfer poblogaethau preswyl (Cyfrifiad 2021) dros yr ardal amser teithio i gynhyrchu amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y tri dalgylch amser gyrru.

I gynhyrchu'r dalgylchoedd hyn, nodwyd prif atyniadau'r parc cenedlaethol newydd arfaethedig (gweler Tabl 2.1) a chrëwyd maes gofodol trwy uno'r atyniadau hyn â'i gilydd. Amcangyfrifwyd amseroedd teithio mewn car cyfartalog ar gyfer y mathau o ffyrdd (e.e. dosbarth A neu B) i'r ardal hon gan ddefnyddio PODARIS. Cynhyrchwyd tri dalgylch: lleol (30 munud o yrru), rhanbarthol (un awr o yrru), a chenedlaethol (dwy awr o yrru).


Dadansoddiad dangosol yw hwn nad yw'n adlewyrchu amodau traffig lleol nac amodau traffig byw, felly mae'n debygol y bydd y dalgylchoedd yn goramcangyfrif maint poblogaeth y dalgylch ac yn amrywio yn ôl yr amser o'r dydd a'r tymor.

Mae'r ardal ymgeisiol yn fawr, ac mae 24 miliwn o bobl yn byw o fewn taith ddwy awr mewn car. I gymharu, amcangyfrifir bod 20 miliwn o bobl yn byw o fewn taith un awr i Ardal y Copaon, a bod mwy na 50 miliwn o bobl yn byw o fewn taith bedair awr[1]. Defnyddir y gymhariaeth hon oherwydd bod Ardal y Copaon yn cynrychioli parc cenedlaethol sefydledig a hygyrch y mae ei batrymau ymwelwyr a'i agosrwydd at ganolfannau poblogaeth mawr yn cynnig meincnod ystyrlon.

Trwy gymharu poblogaethau'r dalgylchoedd amser gyrru, ein nod yw ceisio deall pa mor fawr yw'r galw gan ymwelwyr ar gyfer y parc cenedlaethol arfaethedig. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y lefel hon o hygyrchedd yn bodoli eisoes o dan y dynodiad tirwedd genedlaethol presennol. Er y gallai statws parc cenedlaethol gynyddu proffil yr ardal, mae'n annhebygol y bydd y dalgylch ffisegol a'r sylfaen ymwelwyr bosibl yn ehangu'n sylweddol y tu hwnt i'r paramedrau presennol.

Tabl 2.1. Amcangyfrif o'r boblogaeth ac ymwelwyr blynyddol fesul amser gyrru (Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, PODARIS)

| Amser gyrru | Amcangyfrif o'r boblogaeth |
|---|---|
| 0–30 munud | 1,086,297 |
| 31–60 munud | 6,593,343 |
| 61–120 munud | 16,692,418 |
| Cyfanswm | 24,372,058 |




Ffigur 2.4. Parthau amser gyrru (Ffynhonnell: PODARIS ac Arup)

1. Ffeithiau a ffigurau Canolfan y Cyfryngau: Parc Cenedlaethol Ardal y Copaon
2. Cymru fel cyrchfan dwristaidd fyd-eang

# Sbardunau ar gyfer dynodi parc cenedlaethol

## Trosolwg o'r prif sbardunau ar gyfer dynodi

Fel rhan o'i waith i asesu'r achos dros barc cenedlaethol newydd, cynhaliodd CNC ymarfer ymgysylltu cychwynnol rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2023. Yn dilyn y dynodi hwn, crynhodd yr adroddiad ymgysylltu y prif sbardunau ar gyfer y dynodi fel a ganlyn[1].

**1. Gosod fframwaith ar gyfer gwarchod a gwella ein tirweddau gorau**

Mae parc cenedlaethol yn rheoli'r ardal trwy APC pwrpasol. Gan fod y parc arfaethedig yn cwmpasu sawl awdurdod lleol, mae angen trefniadau llywodraethu addas ar gyfer cynrychiolaeth genedlaethol a lleol.

**2. Gwarchod a gwella bywyd gwyllt a bioamrywiaeth**

Byddai parc cenedlaethol newydd yn helpu i warchod a gwella bywyd gwyllt a chynefinoedd toreithiog yr ardal, o rywogaethau gardd fel y dylluan frech a'r mochyn daear i fflora a ffawna prin.

Byddai'n cynnig mwy o warchodaeth rhag pwysau fel magu adar hela, ac yn chwarae rhan yn yr ymdrechion i fynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth ehangach.

**3. Diogelu a gwarchod y dirwedd**

Gwarchod ardaloedd gwledig a'r ffordd o fyw wledig, a sicrhau bod cefn gwlad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

**4. Gwarchod rhag datblygiadau amhriodol**

Byddai datblygiadau tai newydd cyfyngedig yn cael eu hadeiladu, a byddai'r ardal yn cael ei gwarchod rhag cael ei diwydiannu gan ddatblygiadau ffermydd gwynt.

**5. Hwb economaidd i'r ardal**

Denu buddsoddiad lleol. Byddai parc cenedlaethol newydd yn dod â mwy o ymwelwyr a mwy o fuddsoddiad i'r ardal. Byddai hyn hefyd yn helpu i ddatblygu seilwaith yn y trefi hyn, yn cynhyrchu mwy o fusnesau a swyddi lleol, ac yn fuddiol i'r rheini sy'n bodoli eisoes.

**6. Arallgyfeirio gweithgareddau ffermio**

Mae angen helpu i gynnal busnesau fferm hyfyw drwy ddatblygu economi leol fwy amrywiol a gwydn. Byddai dynodi'r ardal yn barc cenedlaethol yn creu cyfleoedd newydd drwy weithgareddau hamdden ac awyr agored, gan hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy ar yr un pryd.

**7. Dod â chydnabyddiaeth i'r ardal**

Byddai statws parc cenedlaethol yn cynyddu proffil yr ardal ac yn rhoi mwy o reswm i bobl stopio, a pheidio â theithio'n uniongyrchol i Barc Cenedlaethol Eryri.

**8. Cynyddu adnoddau**

Gallai parc cenedlaethol helpu i sicrhau cyllid ac adnoddau mwy sefydlog ar gyfer rheoli'r ardal, tra hefyd yn cryfhau'r gallu i orfodi rheoliadau.

**9. Gwarchod diwylliant a threftadaeth**

Gwarchod a diogelu pensaernïaeth leol ac adeiladau hanesyddol. Diogelu'r Gymraeg.



Ffermio defaid (Ffynhonnell: Welsh Food & Drink)

1. Cynnig%20Parc%20Cenedlaethol%20Newydd%20Cymru%20%20Adroddiad%20Cyfnod%20Ymgysylltu%202023%20%20Cyfoeth%20Naturiol%20Cymru.pdf

03

# Effaith bosibl y parc cenedlaethol arfaethedig

# Cyflwyniad

## Effaith economaidd parciau cenedlaethol

Parc cenedlaethol yw'r dynodiad blaenllaw a gydnabyddir ledled y byd ar gyfer lleoedd o'r pwys cenedlaethol mwyaf o ran treftadaeth naturiol neu ddiwylliannol. O ganlyniad, mae parciau cenedlaethol yn frand cydnabyddedig sy'n gallu denu ymwybyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol sylweddol i ardal. Gall hyn arwain at fwy o ymwelwyr, mwy o wariant lleol a mwy o fewnfuddsoddi.

Mae adroddiad yn 2024 gan National Parks England yn amcangyfrif bod parciau cenedlaethol y DU yn denu tua 90 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, gan gyfrannu tua £6 biliwn i'r economi genedlaethol[1]. Mae adroddiadau STEAM (Scarborough Tourism Economic Activity Monitor) 2023, a ddarperir gan awdurdodau'r parciau cenedlaethol priodol, yn defnyddio methodoleg gydnabyddedig ar gyfer asesu effaith twristiaeth ar yr economi. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos bod y tri pharc cenedlaethol yng Nghymru wedi cael 11.9 miliwn o ymwelwyr gyda'i gilydd, gan gynhyrchu gwerth economaidd o ryw £2 biliwn, a chynnal tua 12,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) (gweler Tabl 3.1).

Mae'r enillion ar fuddsoddiad mewn parciau cenedlaethol wedi hen ymsefydlu. Canfu adroddiad gan National Parks England fod pob £1 o gyllid gan y llywodraeth, a ddarperir i awdurdodau parciau cenedlaethol yn cynhyrchu £5.70 mewn buddion iechyd y cyhoedd[2]. Yn yr un modd, amcangyfrifwyd yn adroddiad Scottish Environment LINK (2024) fod dau barc cenedlaethol presennol yr Alban yn cynhyrchu dros £700 miliwn ar gyfer yr economi bob blwyddyn, sy'n cynrychioli elw o ryw 30 gwaith y buddsoddiad a wnaed gan Lywodraeth yr Alban[3]. Er na ellir priodoli'r holl effaith hon yn uniongyrchol i statws parc cenedlaethol, mae astudiaethau rhyngwladol, gan gynnwys rhai o'r Unol Daleithiau a'r Ffindir, wedi dangos y gall buddsoddi mewn parciau cenedlaethol ddarparu enillion economaidd o hyd at 10:1. Gyda'i gilydd, mae dau barc cenedlaethol yr Alban hefyd yn cynnal tua 250 o swyddi yn uniongyrchol, gan gwmpasu amrywiaeth eang o rolau; ac mae llawer ohonynt yn gofyn am gymwysterau proffesiynol, sgiliau ymarferol a phrofiad arbenigol.

Y tu hwnt i iechyd, mae buddion parciau cenedlaethol i'r amgylchedd hefyd yn sylweddol. Er enghraifft, mae mawndiroedd iach yn chwarae rhan hanfodol mewn dal carbon, gan amsugno carbon deuocsid trwy ffotosynthesis, a thrwy storio tua 3.2 biliwn tunnell o garbon yn y DU yn unig[4]. Fodd bynnag, mae tua 80% o fawndiroedd y DU wedi'u diraddio oherwydd gweithgarwch dynol. Gall parciau cenedlaethol chwarae rhan allweddol yn adfer yr ecosystemau hanfodol hyn, sydd hefyd yn dod â buddion sylweddol i'r economi. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gallai adfer mawndiroedd dirywiedig y DU yn llawn arwain at arbedion o £19 biliwn trwy leihau allyriadau carbon[4].

Mae'r astudiaeth hon wedi amcangyfrif mai £599 miliwn yw'r gwerth ychwanegol crynswth (GVA) cyfredol ar gyfer yr ardal ymgeisiol, sy'n cynrychioli tua 0.8% o gyfanswm GVA Cymru. Mae GVA yn adlewyrchu'r cyfraniad economaidd a gynhyrchir gan unigolion mewn cyflogaeth sy'n byw yn yr ardal ymgeisiol.


Tabl 3.1. Trosolwg cyfraniad economaidd parciau cenedlaethol Cymru yn 2023 (STEAM 2023)

| Parc cenedlaethol | Cyfanswm yr ymwelwyr | Effaith economaidd | Cyflogaeth uniongyrchol (FTE) |
|---|---|---|---|
| Bannau Brycheiniog | 3.99 miliwn | £412 miliwn | 3,318 |
| Arfordir Penfro | 3.06 miliwn | £787 miliwn | 8,755 |
| Eryri | 4.89 miliwn | £822 miliwn | 7,569 |
| **Cyfanswm** | **11.94 miliwn** | **£2.02 biliwn** | **11,942** |

1. Gwerth Parciau Cenedlaethol Lloegr – Cumulus Consultants Ltd
2. Our Value. Our Potential. – National Parks England
3. Adroddiad newydd yn nodi buddion economaidd-gymdeithasol parciau cenedlaethol ar gyfer yr Alban – Scotlink
4. https://www.ceh.ac.uk/sites/default/files/Peatland%20factsheet.pdf

# Cyflwyniad

## Crynodeb o fecanweithiau'r effeithiau




Ffigur 3.1. Crynodeb o fecanweithiau'r effeithiau (Ffynhonnell: Arup)

# Twristiaeth a'r economi ymwelwyr

## Amodau llinell sylfaen

Mae twristiaeth a'r economi ymwelwyr yn sectorau pwysig i economi Cymru. Yn 2023, amcangyfrifwyd bod 11.8% o'r holl gyflogaeth yng Nghymru yn gysylltiedig â thwristiaeth, gyda 77% o'r gyflogaeth hon yn y sector lletygarwch neu fwyd a diod[1]. Canfu Llywodraeth Cymru fod y diwydiant bwyd a diod wedi tyfu 10% yn 2023, a bod gan fusnesau yn y sector gyfanswm trosiant o £24.6 biliwn yn 2023[2]. Roedd y gadwyn gyflenwi bwyd a diod yn cyflogi 228,500 o bobl yng Nghymru yn 2023, sy'n cyfateb i 17% o gyfanswm gweithlu Cymru[2].


Mae is-sectorau pwysig eraill yn ymwneud â gwasanaethau llety a gweithgareddau hamdden. Mae cyflogaeth yn y sector llety ar gyfer yr ardal ymgeisiol yn 0.8% o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 0.5%, sy'n adlewyrchu'r nifer uwch o weithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Mae'r sector twristiaeth yn y Gogledd a'r Canolbarth yn rhan hanfodol o economi'r rhanbarth, gan ddenu ymwelwyr gyda'i dirweddau godidog, ei hanes cyfoethog a'i dreftadaeth ddiwylliannol. Mae'r prif atyniadau yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, trefi arfordirol Llandudno a Chonwy, a nifer o gestyll a safleoedd treftadaeth.

Mae twristiaeth yn ffynhonnell bwysig o gyflogaeth yn y Gogledd-ddwyrain a'r Canolbarth, yn enwedig mewn sectorau megis lletygarwch, hamdden awyr agored, cadwraeth treftadaeth a thrafnidiaeth. Mae'r rhanbarth yn cynnwys sawl atyniad nodedig, fel Castell Rhuddlan, Castell Dinbych a Muriau'r Dref, Capel y Rug, Eglwys Llangar, ac Abaty Glyn y Groes. Yn ogystal, gall ymwelwyr archwilio'r dreftadaeth ddiwydiannol ym Mharc Gwledig a Phyllau Plwm y Mwynglawdd yn Wrecsam, a Thraphont Ddŵr Pontcysyllte, sy'n Safle Treftadaeth y Byd. Mae canolfan ymwelwyr newydd wedi'i chymeradwyo ym Mharc Gwledig Moel Famau.

Mae twf y cyfryngau cymdeithasol yn ystod y degawd diwethaf wedi cynyddu proffil mannau prydferth lleol ymhlith cynulleidfa fyd-eang yn sylweddol. Mae 75% wedi'u hysbrydoli i deithio i gyrchfan benodol oherwydd y cyfryngau cymdeithasol, ac mae hanner (48%) wedi'u cymell yn bennaf gan yr ystyriaeth a fydd y gyrchfan yn edrych yn fendigedig mewn ffotograffau neu fideos[3]. Fodd bynnag, gall tueddiadau 'feirol' y cyfryngau cymdeithasol achosi adegau brig uchel iawn o ran ymweliadau twristiaid. Gall hyn fod yn arbennig o heriol i'r atyniad a'r seilwaith ategol ei reoli, gan waethygu'r effeithiau negyddol ar ymwelwyr, h.y. sbwriel a thagfeydd.

Er bod data ymwelwyr ar gyfer yr ardal ymgeisiol yn gyfyngedig, amcangyfrifwyd mewn astudiaeth yn 2018 gan NEF Consulting nifer yr ymwelwyr ar gyfer y chwe phrif atyniad o fewn Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Canfu'r astudiaeth fod y safleoedd allweddol hyn (a uwcholeuir mewn pinc yn Ffigur 3.2) wedi denu tua 1.1 miliwn o ymwelwyr, gan gynhyrchu bron i £32 miliwn mewn gwariant gan ymwelwyr yn 2018[4].

Rhoddodd yr astudiaeth fewnwelediad hefyd i broffil yr ymwelwyr a'r gweithgareddau allweddol a gynhaliwyd yn yr ardal. Canfu fod mwyafrif yr ymwelwyr yn cerdded a heicio, gyda llawer yn ymweld â Safle Treftadaeth y Byd yn benodol. Un o'r prif gymhellion dros ymweld oedd gweld harddwch golygfeydd yr ardal, ynghyd â'i thirwedd naturiol, a mwynhau ei hawyr iach. Ymwelwyr undydd oedd y mwyafrif o'r ymwelwyr, ond denodd Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr Pontcysyllte gyfran uwch o ymwelwyr dros nos, a llawer ohonynt yn teithio o'r tu allan i ardaloedd yr awdurdodau lleol cyfagos.




Ffigur 3.2. Prif atyniadau yn y parc cenedlaethol newydd arfaethedig (Ffynhonnell: Arup)

1. Proffil Economi Ymwelwyr Cymru: 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU
2. Diwydiant bwyd a diod Cymru yn tyfu 10% | LLYW.CYMRU
3. Chart: Social Media has the Greatest Influence on Travel Destination Choices | Statista
4. AONB-Visitor-Appraisal-Report-April-2019-FINAL-with-logo.pdf

# Twristiaeth a'r economi ymwelwyr

## Amodau llinell sylfaen

Mae pennu llinell sylfaen o niferoedd ymwelwyr presennol yn gam allweddol wrth ddeall effeithiau posibl dynodi ar yr economi. Nid oes unrhyw ffynhonnell ddata unigol, dderbyniol ar gael, felly archwiliwyd dau fethodoleg.

Mae'r fethodoleg gyntaf yn defnyddio'r offeryn gwerthuso hamdden awyr agored (ORVal), rhaglen ar y we a ddatblygwyd gan y Sefydliad Tir, Amgylchedd, Economeg a Pholisi (LEEP) ym Mhrifysgol Caerwysg, gyda chyllid Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA). Mae ORVal yn amcangyfrif nifer yr ymweliadau â mannau gwyrdd sy'n bodoli eisoes, a mannau gwyrdd posibl yng Nghymru a Lloegr, gan ddefnyddio model econometreg yn seiliedig ar ddata o arolwg blynyddol Monitor Ymgysylltu â'r Amgylchedd Naturiol (MENE), gyda'r data diweddaraf o 2018[1].

Ar gyfer yr astudiaeth hon, casglwyd amcangyfrifon ORVal o ymwelwyr ar gyfer ardaloedd cynnyrch ehangach haen ganol o fewn yr ardal ymgeisiol, a gwnaed addasiadau ar gyfer yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen ganol sydd yn rhannol y tu mewn i'r ffin. Amcangyfrifir bod hyn wedi arwain at 3.3 miliwn o ymweliadau yn 2018 – ffigur sy'n gyson, ar y cyfan, â nifer yr ymwelwyr â'r parciau cenedlaethol sy'n bodoli eisoes yng Nghymru, sy'n amrywio o 3.1 miliwn i 4.9 miliwn (gweler Tabl 3.2). Dylid dehongli'r amcangyfrif hwn yn ofalus oherwydd cyfyngiadau cynhenid data a gasglwyd o arolygon. Nid yw'r model yn gallu gwahaniaethu rhwng safleoedd hanesyddol neu archaeolegol o fwy o ddiddordeb a llai o ddiddordeb ychwaith. Nid yw'n gallu gwahaniaethu rhwng safleoedd â nodweddion unigryw megis arwyddocâd diwylliannol neu gyfleusterau i ymwelwyr.

Mae'r ail ddull yn seiliedig ar amcangyfrifon ymwelwyr ag atyniadau allweddol. Yn ôl astudiaeth ymwelwyr 2018 NEF Consulting, cafodd chwe atyniad mawr yn Nhirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy tua 1.1 miliwn o ymwelwyr yn 2018.

Ar gyfer rhan ddeheuol y parc cenedlaethol arfaethedig, adolygwyd ystadegau Croeso Cymru, ond dim ond ar gyfer Llyn Efyrnwy yr oedd data ar gael. Amcangyfrifodd ystadegau Croeso Cymru ar gyfer 2018 fod 200,000 o ymwelwyr ychwanegol wedi ymweld â Llyn Efyrnwy, atyniad allweddol o fewn yr ardal ymgeisiol, ond y tu allan i'r dirwedd genedlaethol bresennol.

O ystyried yr 1.1 miliwn o bobl sy'n ymweld ag atyniadau o fewn Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, amcangyfrifir bod cyfanswm o 1.3 miliwn o bobl wedi ymweld yn 2018. Er bod hyn yn debygol o danamcangyfrif cyfanswm nifer yr ymwelwyr, gan mai dim ond atyniadau allweddol y mae'n eu cyfrif, mae'n dal i fod yn ddefnyddiol.

Er mwyn adlewyrchu nifer presennol yr ymwelwyr, addaswyd amcangyfrifon 2018 gan ddefnyddio tueddiadau ymwelwyr o'r tri pharc cenedlaethol sy'n bodoli eisoes yng Nghymru rhwng 2018 a 2023, sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar ei chyfer ar gyfer atyniadau twristaidd y DU. Dros y cyfnod hwn, roedd newidiadau yn nifer yr ymwelwyr yn amrywio o ostyngiad o 9% i gynnydd o 8%, gyda chyfartaledd o dwf cymedrol o 0.4% (gweler Tabl 3.3). Fodd bynnag, gan fod yr amserlen hon yn cynnwys effeithiau pandemig COVID-19 a'r cyfnod adfer dilynol, dylid dehongli'r tueddiadau hyn yn ofalus.

Tabl 3.2. Nifer amcangyfrifedig o ymwelwyr â'r ardal ymgeisiol yn 2019 a 2023 (Ffynhonnell: NEF Consulting, Croeso Cymru, Prifysgol Caerwysg ac Arup)

| Amcangyfrif llinell sylfaen o ymwelwyr â'r ardal ymgeisiol | Nifer yr ymwelwyr blynyddol | Blwyddyn | Statws |
|---|---|---|---|
| Offeryn ORVal fersiwn 2 gan Brifysgol Caerwysg | 3.3 miliwn | 2018 | Amcangyfrif canolog, yn seiliedig ar fodelu econometrig o ddata arolwg |
| NEF Consulting a Croeso Cymru | 1.3 miliwn | 2018 | Tanamcangyfrif, ymweliadau ag atyniadau allweddol yn unig a gofnodir |

Tabl 3.3. Cyfanswm nifer yr ymwelwyr â pharciau cenedlaethol Cymru 2018 a 2023 (Ffynhonnell: adroddiadau STEAM 2023)

| Parc cenedlaethol | 2018 | 2023 | Newid % 2018-2023 |
|---|---|---|---|
| Bannau Brycheiniog | 4.4 miliwn | 4.0 miliwn | -9% |
| Arfordir Penfro | 3.0 miliwn | 3.0 miliwn | +3% |
| Parc Cenedlaethol Eryri | 4.5 miliwn | 4.9 miliwn | +8% |
| Cyfartaledd parciau cenedlaethol Cymru | | | +0.4% |

1. ORVal | Y Sefydliad Tir, Amgylchedd, Economeg a Pholisi (LEEP) | Prifysgol Caerwysg

# Twristiaeth a'r economi ymwelwyr

## Effaith bosibl

Mae parciau cenedlaethol ymhlith y brandiau mwyaf pwerus a dibynadwy ar gyfer tirweddau naturiol ledled y byd[1]. Mae'r statws hwn yn cyfleu ansawdd, gwarchodaeth, a phrofiadau unigryw, gan wneud yr ardaloedd hyn yn adnabyddadwy ar unwaith ac yn ddymunol i ymwelwyr, buddsoddwyr, a phartneriaid cadwraeth. Fodd bynnag, mae tystiolaeth benodol ar yr effaith y mae dynodi parc cenedlaethol yn ei chael ar nifer yr ymwelwyr yn gyfyngedig iawn.

Yn y DU, y parc cenedlaethol a ddynodwyd yn fwyaf diweddar yw Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol (2010). Archwiliodd adroddiad a gynhyrchwyd gan Tourism South East batrymau ymwelwyr trwy arolygon manwl o drigolion ac ymwelwyr[2]. Dros y cyfnod 2003–2004 i 2011–2012, dangosodd y canfyddiadau gynnydd o 18.2% yn nifer y dyddiau ymweld, er nad oes tystiolaeth ar gael ynghylch sut y gallai'r dynodi fod wedi cyfrannu at hyn, na sut y parhaodd y duedd twf yn y blynyddoedd dilynol.

Yn rhyngwladol, canfuwyd dadansoddiad bod newidiadau wedi bod yn nifer yr ymwelwyr yn dilyn dynodiadau parciau cenedlaethol yn Sweden a'r Unol Daleithiau. Yn Sweden, yn sgil dynodi Parc Cenedlaethol Fulufjället yn 2002, cynyddodd nifer yr ymwelwyr bron i 40%, yn ôl data cyfrif twristiaid ar y safle[4]. Yn yr Unol Daleithiau, mae pedwar parc cenedlaethol wedi'u dynodi ers 2018[3]. Mae dadansoddiad o ddata ymwelwyr ar gyfer y parciau hyn yn dangos cynnydd yn amrywio o 15% i 58% yn dilyn y dynodi. Dylid trin yr enghreifftiau rhyngwladol hyn yn ofalus, yn enwedig parciau cenedlaethol yr Unol Daleithiau, gan fod y parciau a ddynodwyd yn ddiweddar yn llawer llai o ran maint ac wedi'u dynodi ychydig cyn neu yn ystod pandemig COVID-19. Er enghraifft, mae Parc Cenedlaethol Twyni Indiana, a welodd y cynnydd mwyaf, yn barc 61 cilometr sgwâr ger ardal fetropolitan Chicago, nad oedd ganddo statws dynodiad blaenorol.

Serch hynny, mae'r dystiolaeth yn awgrymu amrywiaeth o ran cynnydd, rhwng tua 15% a 60%, gyda chyfartaledd o ryw 30%. Rhaid bod yn ofalus wrth gymharu'r rhain â'r ardal ymgeisiol. Mae'r ardal ymgeisiol eisoes wedi'i dynodi'n rhannol fel tirwedd genedlaethol ac mae'n denu nifer cymharol fawr o ymwelwyr heddiw. Felly, ystyrir ei bod yn annhebygol y byddai dynodi parc cenedlaethol yn arwain at gynnydd ym mhen uchaf yr ystod o enghreifftiau a adolygwyd.

Pe cymhwysid y cynnydd cyfartalog o 30%, byddai nifer yr ymwelwyr yn codi i ryw 4.3 miliwn. Pe cymhwysid y cynnydd isaf o 15%, byddai cyfanswm nifer yr ymwelwyr tua 3.8 miliwn. Mae'r ddau ffigur hwn yn disgyn i'r naill ochr a'r llall i nifer y bobl sy'n ymweld â Bannau Brycheiniog ar hyn o bryd, sydd, fel yr ardal ymgeisiol, yn agos at ganolfannau poblogaeth mawr. Mae Eryri yn uwch, ond mae yno atyniadau unigryw, yn enwedig y mynydd uchaf yng Nghymru.

Byddai cymryd y ffigurau hyn fel ystod bosibl ddangosol yn rhoi ystod o gynnydd yn dilyn y dynodiad o 500,000 ac un miliwn o ymwelwyr ychwanegol y flwyddyn.

Mae yna sawl cafeat pwysig i'w nodi:

1. Bydd sawl ffactor y tu hwnt i ddynodi a fydd yn effeithio ar nifer yr ymwelwyr, ac mae'r dystiolaeth a adolygwyd wedi gwneud ymgais gyfyngedig neu ddim ymgais o gwbl i reoli'r rhain.
2. Nid yw nifer llinell sylfaen yr ymwelwyr â'r ardal ymgeisiol yn sicr, oherwydd ei fod yn dibynnu ar amcangyfrifon wedi'u modelu o'r offeryn ORVal yn hytrach na ffigurau gwirioneddol.
3. Mae'n debygol y bydd unrhyw gynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn digwydd dros sawl blwyddyn, a bydd wedi'i gyfyngu i ryw raddau gan gapasiti seilwaith a gwasanaethau lleol.
4. Dim ond y niferoedd cyffredinol y mae'r dadansoddiad hwn yn eu hystyried, heb wahaniaethu rhwng mathau o ymwelwyr (er enghraifft, tripiau undydd yn erbyn arosiadau dros nos).

Er mwyn cynhyrchu amcangyfrif mwy cadarn, byddai angen gwaith pellach i gasglu data a rheoli'r gwahanol newidynnau sydd ar waith.

Disgwylir i gynnydd yn nifer yr ymwelwyr arwain at gynnydd yn y swm o arian y mae ymwelwyr yn ei wario. Amcangyfrifodd adroddiad NEF Consulting fod y gwariant dyddiol ar gyfartaledd fesul ymwelydd ar draws y chwe atyniad allweddol yn £13.34 yn 2018, sy'n cyfateb i ryw £16.72 ym mhrisiau 2023. Mae cymhwyso'r ffigur hwn i amcangyfrifon ymwelwyr o fodel ORVal, gan dybio cynnydd o 15% i 29% yn nifer yr ymwelwyr, yn awgrymu gwariant blynyddol ychwanegol gros posibl gan ymwelwyr rhwng £8 miliwn a £15 miliwn. Pan gaiff ei ragamcanu dros gyfnod o 30 mlynedd, gan dybio nifer cyson o ymwelwyr a chymhwyso disgownt safonol, mae hyn yn cyfateb i ffigur rhwng £55 miliwn a £105 miliwn o wariant ychwanegol. Mae'r ffigurau hyn yn rhoi syniad o'r sefyllfa, a'r bwriad yw iddynt gyfleu pa mor fawr y gallai'r cynnydd economaidd fod.

Yn ogystal â gwariant cynyddol, mae perygl hefyd y bydd nifer uwch o ymwelwyr yn arwain at or-dwristiaeth. Gallai hyn roi pwysau ar leoliadau penodol, ac ar drafnidiaeth a gwasanaethau (fel y'i harchwilir yn ddiweddarach). Fodd bynnag, gallai cyflwyno APC hefyd helpu i liniaru'r effeithiau hyn drwy ddarparu rheolaeth wedi'i thargedu o'r ardal, ynghyd â pholisïau ehangach fel yr ardoll ymwelwyr arfaethedig yng Nghymru.[5]

1. Nodyn ymchwil: Labeli ardaloedd gwarchodedig megis brandiau mewn twristiaeth – ScienceDirect
2. learning.southdowns.gov.uk/wp-content/uploads/sites/2/2015/08/SDNP-Visitor-Survey-2011-12.pdf
3. Nifer y bobl sy'n ymweld â pharciau cenedlaethol yr Unol Daleithiau – NationalPark.World
4. Mwy o ymwelwyr wrth ddynodi'r parc cenedlaethol: Current Issues in Tourism: Cyfrol 10, Rhifyn 1
5. https://www.llyw.cymru/ArdollYmwelwyr

# Twristiaeth a'r economi ymwelwyr

## Crynodeb o'r effaith bosibl

### Cyd-destun llinell sylfaen / cyd-destun lleol

- Cryfder presennol mewn atyniadau ymwelwyr a thwristiaeth
- Cynnydd cyfyngedig yn nifer yr ymwelwyr â'r parciau cenedlaethol sy'n bodoli eisoes yng Nghymru
- Mae astudiaethau achos rhyngwladol yn dangos bod dynodi yn debygol o gynyddu nifer yr ymwelwyr
- Seilwaith ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus cyfyngedig
- Cryn berchnogaeth ail gartrefi

**Dynodi APC**

### Newidiadau ar unwaith

- Adnoddau ar gyfer rheoli'r dirwedd at ddibenion hamdden
- Amgylchedd cynllunio cefnogol ar gyfer datblygiadau hamdden
- Premiwm dylunio ar gyfer datblygiadau yn y parc cenedlaethol
- Mynediad i gyllid ychwanegol
- Proffil uwch i'r ardal (yn enwedig yn rhyngwladol)

### Effeithiau ehangach posibl

- Cynhyrchu mwy o refeniw
- Cynnydd posibl yn nifer yr ymwelwyr
- Cynnydd tebygol yn y galw am lety
- Mwy o reolaeth a chydlynu o ran gweithgareddau hamdden a thwristiaeth
- Gwell hyfywedd masnachol ar gyfer busnesau twristiaeth a'r economi ymwelwyr presennol
- Mwy o bwysau ar seilwaith a gwasanaethau lleol
- Mwy o alw am seilwaith sy'n cynnal yr economi ymwelwyr (toiledau, mannau parcio)

Ffigur 3.3. Effaith economaidd ehangach ar gyfer twristiaeth a'r economi ymwelwyr (Ffynhonnell: Arup)

# Cyflogaeth a busnesau

## Amodau llinell sylfaen

Mae tua 48% o drigolion yr ardal ymgeisiol yn economaidd weithgar, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 56.5%[1]. Mae'n debyg bod yr anghydraddoldeb hwn oherwydd natur wledig yr ardal, sy'n cydberthyn â llai o gyfleoedd swyddi a chyfran uwch o bobl wedi ymddeol, o'i gymharu ag ardaloedd mwy trefol. Mae hyn hefyd yn debygol o gael ei yrru gan bobl ifanc a aned mewn cymunedau gwledig yn symud i ddinasoedd er mwyn dod o hyd i waith neu i astudio. Mewn adroddiad a gynhyrchwyd gan Virgin Media $O_2$, dywedodd 66% o bobl 18 i 24 oed sy'n byw mewn ardaloedd gwledig eu bod yn ystyried ymadael yn y 12 mis nesaf[2].

Mae Tabl 3.4 yn cyflwyno nifer a chanran yr unigolion sy'n cael eu cyflogi yn y chwe diwydiant gorau o fewn ardal arfaethedig y parc cenedlaethol. Mae addysg yn dod i'r amlwg fel y sector cyflogaeth blaenllaw, sy'n cyd-fynd yn fras â'r sector addysg fel y pedwerydd diwydiant mwyaf yng Nghymru, gan gyfrif am 8.9% o holl swyddi gweithwyr[3]. Mae sawl ysgol gynradd ac ysgol gyfun yn yr ardaloedd adeiledig amlwg, gan gynnwys Ceiriog, Llangollen a Llanfyllin. Y sector adeiladu yw'r ail gyflogwr mwyaf, gyda nifer o gwmnïau contractwyr ac adeiladu yn yr ardal ymgeisiol, yn enwedig ar hyd afon Dyfrdwy. Cyflogaeth ym maes iechyd dynol yw'r ail sector mwyaf, wedi'i gynnal gan bresenoldeb cyfleusterau gofal iechyd yn yr ardal ymgeisiol, fel Ysbyty Dewi Sant a Chanolfan Iechyd Llangollen, yn ogystal â chyfleusterau cyfagos, gan gynnwys Ysbyty Cymunedol yr Wyddgrug ac Ysbyty Cymunedol Rhuthun.

Mae cyflogaeth o fewn y sector twristiaeth yn yr ardal ymgeisiol yn gymharol fach, ond yn bresennol ar draws sawl diwydiant cysylltiedig. Mae'r fasnach fanwerthu yn cynrychioli 3.7% o gyfanswm y cyflogaeth, gan adlewyrchu rôl siopau a gwasanaethau lleol sy'n darparu ar gyfer trigolion ac ymwelwyr. Mae gwasanaethau llety yn cynrychioli 0.8% o gyflogaeth, tra bod gwasanaethau bwyd a diod yn cynrychioli 1.5%. Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu, er bod twristiaeth yn cyfrannu at yr economi leol, nid dyma'r sector mwyaf amlwg ar hyn o bryd.

Mae gan yr ardal ymgeisiol gyfran uwch na'r cyfartaledd o breswylwyr arferol 16 oed neu'n hŷn sydd â chymwysterau Lefel 4 neu uwch, gan gynnwys graddau (BA, BSc), graddau uwch (MA, PhD, TAR), cymwysterau BTEC Uwch, a chymwysterau proffesiynol eraill. Yn ogystal, dim ond 17.2% o drigolion yr ardal sydd heb unrhyw gymwysterau o gwbl, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 19.9%[4]. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r boblogaeth hŷn, y mae'n bosibl bod llawer ohonynt wedi ennill cymwysterau uwch dros amser, o'i chymharu â phoblogaethau iau.

Tabl 3.4. Chwe chyflogwr mwyaf yn yr ardal ymgeisiol (Ffynhonnell: Arup a SYG)

| Diwydiant | Nifer y bobl | Canran |
|---|---|---|
| Addysg | 2,008 | 4.3 |
| Adeiladu | 1,969 | 4.2 |
| Iechyd dynol | 1,920 | 4.1 |
| Masnach fanwerthu | 1,727 | 3.7 |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn | 1,307 | 2.8 |
| Cynhyrchu cnydau ac anifeiliaid | 1,254 | 2.7 |

17,815
Economaidd weithgar[4]
(48% o drigolion, 56.5% yng Nghymru)

1,253
Wedi'u cyflogi yn y sector cynhyrchu cnydau ac anifeiliaid[5]
(2.7%, 0.8% yng Nghymru)

0.8%
Wedi'u cyflogi yn y sector llety[5]
(0.5% yng Nghymru)

34.8%
Cymwysterau Lefel 4 neu uwch
(31.5% yng Nghymru[4])

11.0%
Busnesau yn y sector amaethyddiaeth a choedwigaeth[6]
(10.8% yng Nghymru)

13.9%
Busnesau yn y sector adeiladu[6]
(11.7% yng Nghymru)

1. Y farchnad lafur a theithio i'r gwaith yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) [HTML] | LLYW.CYMRU
2. Yr economi wledig – Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi
3. Ystadegau'r farchnad lafur (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth): 2021 [HTML] | LLYW.CYMRU
4. Addysg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) [HTML] | LLYW.CYMRU
5. Diwydiannau'r rheini mewn cyflogaeth, yn ôl ardal leol, patrwm gweithio, statws cyflogaeth, Cymru a Lloegr, Cyfrifiad 2021 – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
6. Busnesau yn y DU; gweithgarwch, maint a lleoliad – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

# Cyflogaeth a busnesau

## Amodau llinell sylfaen – amaethyddiaeth

Mae amaethyddiaeth a ffermio yn chwarae rhan hanfodol yn economi a hunaniaeth ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol. Mae tua 11% o fusnesau yn y rhanbarth yn gweithredu o fewn y sectorau amaethyddiaeth neu goedwigaeth, sy'n adlewyrchu cymeriad gwledig cryf yr ardal a diwydiannau'r tir. Mae 2.7% yn cael eu cyflogi yn y sectorau cynhyrchu cnydau ac anifeiliaid, sy'n fwy na thair gwaith cyfartaledd cenedlaethol Cymru o 0.8%. Mae Ffigur 3.4 yn dangos cyfran uwch o gyflogaeth sy'n gysylltiedig â ffermio yn rhan ddeheuol yr ardal ymgeisiol. Fodd bynnag, oherwydd y dwysedd poblogaeth cymharol isel yn y rhanbarth hwn, efallai na fydd dynodi parc cenedlaethol yn cael llawer o effaith ar gyflogaeth yn y sector amaethyddol.

Mae Ffigur 3.4 yn dangos dosbarthiad ansawdd tir amaethyddol o fewn yr ardal ymgeisiol. Mae Map Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn categoreiddio tir ar sail ffactorau fel hinsawdd, topograffeg a phridd. Ystyrir mai tir sydd wedi'i ddosbarthu fel y tir gorau a mwyaf amlbwrpas (graddau 1 i 3a) yw'r tir o ansawdd uchaf ar gyfer ffermio, tra bod graddau 3b i 5 yn dynodi cyfyngiadau cynyddol ar gyfer defnydd amaethyddol[1]. Gall tir gradd 3b barhau i gynhyrchu cnwd cymedrol o ddetholiad cyfyngedig o gnydau, yn bennaf grawnfwydydd a glaswellt. Gall hefyd gynnal cnydau llai o amrywiaeth ehangach o gnydau, neu gnydau mawr o laswellt sy'n addas ar gyfer pori neu gynaeafu. Er bod tir sydd wedi'i raddio rhwng 3b a 5 yn llai cynhyrchiol ar gyfer amaethyddiaeth, mae'n chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau ecosystem gwerthfawr fel storio carbon, rheoleiddio dŵr, a chynnal bioamrywiaeth.

Dim ond 8% o'r tir yn yr ardal ymgeisiol sydd wedi'i ddynodi'n dir amaethyddol o ansawdd uchel, gyda'r mwyafrif wedi'i raddio'n gymedrol i wael iawn (76%). Mae hyn yn bennaf oherwydd y tir mynyddig, sy'n fwy addas ar gyfer pori a ffermio da byw nag ar gyfer tyfu cnydau âr. Mae'r ucheldiroedd yn arbennig o ddelfrydol ar gyfer ffermio defaid, yn enwedig ar gyfer y defaid mynydd Cymreig gwydn. Yn ogystal, mae nifer sylweddol o weithrediadau llaeth yn y rhanbarth, gydag 20% o ddaliadau llaeth Cymru yn y Gogledd-ddwyrain[2].

Tabl 3.5. Dosbarthiad tir amaethyddol (Ffynhonnell: Arup a Lloegr Naturiol

| Dosbarthiad tir amaethyddol[1] | Arwynebedd (hectar) | Canran o'r ardal ymgeisiol |
|---|---|---|
| Tir gorau a mwyaf amlbwrpas (graddau 1 i 3a) | 9,543.3 | 8.2% |
| Tir Cymedrol i wael iawn (graddau 3b i 5) | 88,656.2 | 76.0% |
| Tir anamaethyddol | 18,411.5 | 15.8% |




Ffigur 3.4. Tir gorau a mwyaf amlbwrpas a thir cymedrol i wael iawn (Ffynhonnell: SYG ac Arup)

1. Canllaw ar asesu cynigion datblygu ar dir amaethyddol – GOV.UK
2. Diwydiant llaeth Cymru

# Cyflogaeth a busnesau

## Effaith bosibl – amaethyddiaeth

### Goblygiadau cynllunio

Mae awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru yn cefnogi datblygiadau o ansawdd uchel, gan gynnwys adeiladau fferm, drwy arwain datblygwyr a chydweithio â hwy. Eu rôl nhw yw cydbwyso datblygiad â chadwraeth treftadaeth ddiwylliannol a naturiol, nid gosod rheolaethau llymach na chyrff cynllunio eraill. Er bod gwarchod y tir gorau a mwyaf amlbwrpas yn rhywbeth i'w ystyried, mae'n un o nifer o ffactorau sy'n cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Dim ond 8.2% o'r ardal ymgeisiol sy'n dir gorau a mwyaf amlbwrpas, ac mae tua 50% eisoes wedi'i warchod, gan gyfyngu ar effaith cyfyngiadau cynllunio. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn caniatáu adeiladau fferm a choedwigaeth newydd, pan fo'n hanfodol neu pan nad yw strwythurau presennol yn addas, gyda phwyslais cryf ar ailddefnyddio adeiladau i warchod y dirwedd, yn enwedig mewn parciau cenedlaethol.

### Cyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio

Mae amaethyddiaeth yn yr ardal ymgeisiol yn canolbwyntio'n bennaf ar ffermio defaid mynydd, gyda rhywfaint o gynhyrchu llaeth ar raddfa fach. Fodd bynnag, mae maint cyfyngedig y fferm yn aml yn cyfyngu ar botensial incwm. Gall arallgyfeirio i dwristiaeth fferm, cynhyrchu bwyd lleol, a mentrau gwledig eraill helpu i wella hyfywedd ffermydd. Mae'r economi ymwelwyr yn y parc cenedlaethol yn cynnig cyfleoedd sylweddol i gymunedau a busnesau lleol, gan gynnwys mentrau ffermio sy'n dymuno arallgyfeirio i'r farchnad hon. Gallai hyn gynnwys cynnig llety hunanddarpar neu wely a brecwast, llogi beiciau, neu werthu cynnyrch fferm yn uniongyrchol i ymwelwyr trwy siopau fferm a chaffis. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn caniatáu arallgyfeirio o'r fath pan fydd yn ategu gweithgareddau ffermio presennol, ac mae polisi cynllun datblygu lleol 20 APC Eryri yn ei gefnogi, ar yr amod ei fod yn rhan o gynllun busnes fferm ffurfiol.

### Goblygiadau cyllido

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig nifer o gynlluniau cymorth ffermio, gan gynnwys Cynllun y Taliad Sylfaenol ar gyfer arferion ffermio sy'n llesol i'r amgylchedd, y Cynllun Ffermio Cynaliadwy sydd ar ddod, ac a fydd yn cael ei lansio yn 2026, a chymorth ychwanegol drwy'r Cynllun Garddwriaeth ac Arallgyfeirio Amaethyddol, Cynllun Cynefin Cymru, ac amrywiol grantiau bychain[1]. Mae'r cronfeydd cyllid hyn yr un fath y tu mewn i'r parciau cenedlaethol ag y maent y tu allan iddynt. Yn hanesyddol, mae tirweddau dynodedig fel parciau cenedlaethol hefyd wedi elwa ar fesurau wedi'u targedu fel Tir Cymen, Tir Gofal, a Glastir, a ddarparodd gymorth wedi'i deilwra i hyrwyddo rheoli tir mewn modd cynaliadwy yn yr ardaloedd sensitif hyn[2]. Mae gwariant cyhoeddus ar gymorth i ffermwyr o fewn parciau cenedlaethol Lloegr yn werth dros £160 miliwn y flwyddyn, ac mae buddsoddiad cyhoeddus yn y sector ffermio yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd economaidd llawer o ffermydd y parciau cenedlaethol[3].

### Cynllun Ffermio Bro

Bydd cynllun newydd Llywodraeth Cymru, gwerth £1.8 miliwn, yn lansio ar 1 Ebrill 2025, gan gynnig cymorth wedi'i dargedu ar gyfer prosiectau ffermio ym mharciau cenedlaethol a thirweddau cenedlaethol Cymru tan fis Mawrth 2028[4]. Bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â chyrff tirwedd lleol ac yn ariannu gwelliannau amgylcheddol fel plannu coetiroedd, creu dolydd gwair, adfer mawndiroedd, a gwarchod afonydd. Disgwylir i'r prosiectau cyntaf ddechrau yr haf hwn, gyda'r mwyafrif yn cael eu cyflawni rhwng mis Medi 2025 a mis Ionawr 2026.

### Cyngor a chymorth

Mae cyngor a chymorth ychwanegol ar gael i reolwyr tir ym mhob parc cenedlaethol, gyda'r cymorth a ddarperir wedi'i deilwra i amgylchiadau penodol y parc cenedlaethol a'r mathau o arferion rheoli tir dan sylw. Mae'r APC hefyd yn eirioli dros ffermwyr a rheolwyr tir, ac yn eu cynrychioli wrth ymdrin â'r llywodraeth ac asiantaethau cenedlaethol[5].

### Effaith ar gyflogaeth a busnesau

Gall statws parc cenedlaethol godi cydnabyddiaeth ardal ar lefel ryngwladol, gan gynnig manteision o ran hyrwyddo cynhyrchion lleol fel cig eidion, cig oen a chig carw, gan helpu cynhyrchwyr i sicrhau prisiau premiwm. Er enghraifft, mae dros 200 o fusnesau yn y Cairngorms yn defnyddio brand y parc cenedlaethol, ac mae'r APC yn cefnogi mentrau fel marchnad ffermwyr y Cairngorms (Cairngorms Farmers Market) a chymdeithas artistiaid a chrefftwyr Creative Cairngorms[5]. Mae APC Eryri hefyd yn gweithio'n agos gyda ffermwyr a'r sector amaethyddol i hyrwyddo dulliau ffermio cynaliadwy sy'n gwella ansawdd cynnyrch, gan ei wneud yn fwy deniadol i farchnadoedd premiwm[6]. Gallai hyn arwain at fwy o gyflogaeth yn y sectorau ffermio hyn yn y parc cenedlaethol newydd.

1. https://www.llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig
2. Prosiectau Cadwraeth Blaenorol | Parc Cenedlaethol Eryri
3. https://www.peakdistrict.gov.uk/__data/assets/pdf_file/0028/87463/Farming-in-the-English-National-Parks.pdf
4. Cymorth i ffermio sy'n ystyriol o natur ar draws tirweddau mwyaf gwerthfawr Cymru | Newyddion Llywodraeth Cymruhttps://cairngorms.co.uk/working-together/cairngorms-2030/
5. https://aprs.scot/resources/farming-benefits-of-national-parks/
6. Cadwraeth, coed ac amaeth – awdurdod y parc

# Cyflogaeth a busnesau

## Amodau llinell sylfaen – mwyngloddio ac echdynnu

Mae gan yr ardal ymgeisiol gysylltiad hanesyddol cryf â mwyngloddio a gwaith chwarela. Yn y gorffennol, roedd yr ardal yn adnabyddus am gloddio plwm, glo a chalchfaen, yn enwedig ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, lle gellir gweld olion treftadaeth ddiwydiannol o hyd. Er enghraifft, mae gan y dirwedd ar ochr ogleddol Mynydd Rhiwabon olion helaeth o gloddio am fwynau plwm, arian a sinc, ac mae chwareli llechi segur o amgylch cyrion Moel Morfydd a Bwlch yr Oernant[1]. Fodd bynnag, nid oes llawer o weithgarwch mwyngloddio gweithredol ar hyn o bryd yn yr ardal ymgeisiol, gyda dim ond llond llaw o chwareli gweithredol ar ôl[2].


Mae mwynau pwysig yn parhau i fod yn bresennol yn y rhanbarth. Mae Ffigur 3.5 yn gosod map diogelu agregau dros yr ardal ymgeisiol a gyd-ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Ddaearegol Prydain (BGS). Maent yn dangos dosbarthiad mwynau categori 1 a chategori 2. Mae mwynau categori 1 o bwysigrwydd cenedlaethol, ac yn cynnwys agregau o ansawdd uchel (fel tywodfaen a chraig igneaidd), a ddefnyddir yn aml ar gyfer adeiladu ffyrdd. Mae mwynau categori 2 o bwysigrwydd rhanbarthol neu leol. Ceir calchfaen carbonifferaidd—mwyn categori 1 o bwysigrwydd cenedlaethol—yn y Gogledd-ddwyrain. Ceir tywodfaen a chraig igneaidd, a allai ddod o dan gategori 1 neu 2, yn dibynnu ar yr ansawdd, yn y Gogledd-orllewin. Mae tywodfaen yn y De-ddwyrain a chraig igneaidd yn y De wedi'u dosbarthu fel mwynau categori 2, sy'n cyfrannu at anghenion adeiladu ar y lefel ranbarthol. Yn y canol, mae llechi hefyd yn bresennol. Er nad yw'n fwyn categori 1 na 2, mae ganddo arwyddocâd lleol a hanesyddol.

Er mwyn gwarchod adnoddau mwynau gwerthfawr rhag cael eu sterileiddio—lle mae datblygiadau nad ydynt yn ymwneud â mwynau, fel tai neu adeiladau masnachol, yn cael eu hadeiladu dros dir sy'n cynnwys adnoddau pwysig—mae parthau diogelu agregau wedi'u dynodi. Mae'r parthau hyn yn sicrhau bod cronfeydd mwynau allweddol yn parhau i fod yn hygyrch ar gyfer cloddio posibl yn y dyfodol, gan gynnal gwaith datblygu cynaliadwy a rheoli adnoddau yn yr hirdymor. Gallai dynodi parc cenedlaethol osod cyfyngiadau cryf ar fwyngloddio, gan flaenoriaethu gwarchod yr amgylchedd a chadwraeth y dirwedd.

Mae'r sector mwynau yn gyfran gymharol fach o gyflogaeth, ac mae mwyngloddio yn y rhanbarth wedi gostwng dros yr hirdymor, gan symud i ffwrdd o ddiwydiannau echdynnu. Mae Tabl 3.6 yn dangos canrannau'r bobl sy'n cael eu cyflogi ar draws rolau sy'n gysylltiedig â mwyngloddio yn yr ardal ymgeisiol.

Tabl 3.6. Canran cyflogaeth ar draws y diwydiant mwyngloddio (Ffynhonnell: cy.ons.gov.uk)

| Diwydiant | Cyflogaeth |
|---|---|
| Cloddio am lo a lignit | 0.005% |
| Cloddio am betrolewm crai a nwy naturiol | 0.037% |
| Cloddio am fwynau metel | 0.000% |
| Mwyngloddio a gwaith chwarelu arall | 0.055% |
| Gweithgareddau gwasanaeth cymorth mwyngloddio | 0.001% |




Figur 3.5. Diogelu agregau Gogledd-ddwyrain Cymru (Ffynhonnell: Archif Ymchwil Agored yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig)

1. https://www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/projects/evidence-of-industry/?lang=cy.
2. GeoIndex – Arolwg Daearegol Prydain
3. https://www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/wp-content/uploads/2020/07/State_of_the_AONB_cymraeg.pdf

# Cyflogaeth a busnesau

## Effaith bosibl – mwyngloddio ac echdynnu

### Amgylchedd cynllunio mwy cyfyngol


Mae dynodi parc cenedlaethol yn cyflwyno cyfyngiadau cynllunio sylweddol ar ddatblygiadau mwynau, gan gynnwys chwareli newydd neu estyniadau i'r safleoedd sy'n bodoli eisoes. Mae hyn yn lleihau'r tebygolrwydd o gael datblygiad mwynau newydd mewn rhannau o'r ardal ymgeisiol nad ydynt eisoes yn destun gwarchodaeth gyfwerth. Yn ôl Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10, Rhagfyr 2018)[1], ni ddylid caniatáu datblygiadau mwynau mewn parciau cenedlaethol nac ardaloedd gwarchodedig eraill ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol iawn, ac mae'n rhaid iddynt basio profion trylwyr o ran budd y cyhoedd (paragraff 5.14.35). O ganlyniad, hyd yn oed mewn ardaloedd â mwynau categori 1 neu 2 sydd wedi'u diogelu, bydd gweithgarwch cloddio yn y dyfodol yn gyfyngedig iawn, gan greu gwrthdaro posibl rhwng buddiannau gwaith chwarela a blaenoriaethau gwarchod yr amgylchedd a chadwraeth y dirwedd.

Mae mwyngloddio eisoes wedi'i gyfyngu yn rhan ogleddol yr ardal ymgeisiol oherwydd y dynodiad tirwedd genedlaethol presennol. Yn ogystal, mae rhan sylweddol o'r ardal ymgeisiol y tu mewn i ardal cadwraeth arbennig sy'n destun cyfyngiadau ar gyfer gwarchod cyfanrwydd ecolegol y safleoedd hyn. Er enghraifft, rhaid i unrhyw ddatblygiad mwynau arfaethedig fod yn destun asesiad rheoliadau cynefinoedd i benderfynu ar yr effaith ar y safle dynodedig, ac mae cyfyngiadau ychwanegol i atal cynnydd yn y lefelau o faethynnau[2].

Mae tua hanner yr ardal ymgeisiol eisoes wedi'i chynnwys o dan ddynodiadau amgylcheddol, sy'n golygu bod llawer o'r dirwedd yn destun lefelau uchel o reoli cynllunio. Ni fyddai dynodi'r ardal gyfan yn barc cenedlaethol yn newid y fframwaith presennol ar gyfer ardaloedd sydd eisoes wedi'u dynodi, ond byddai'n cyflwyno cyfyngiadau cynllunio cryfach a mwy cyson ar draws rhannau o'r rhanbarth nad ydynt wedi'u gwarchod ar hyn o bryd, gan sicrhau dull unedig o reoli datblygu. Ardaloedd sydd y tu allan i'r dynodiadau sy'n bodoli ar hyn o bryd, fel y rhan de-ddwyreiniol—sy'n cynnwys dyddodion o fwynau categori 2, gan gynnwys llechi (porffor), craig igneaidd (coch), a thywodfaen (oren) (gweler Ffigur 3.5)—a fyddai'n gweld yr effaith fwyaf. Byddai'r ardaloedd hyn, a oedd wedi'u cyfyngu'n llai o'r blaen, yn dod yn rhan o amgylchedd cloddio mwy gwaharddol, gan gyfyngu'n sylweddol ar y potensial ar gyfer datblygu mwynau yn y dyfodol.

### Effaith ar gyflogaeth a busnesau

Mae Ffigur 3.6, a gynhyrchwyd gan Arolwg Daearegol Prydain, yn dangos dosbarthiad o fwyngloddiau a chwareli gweithredol, sydd wedi dod i ben, sy'n segur, ac nad ydynt yn weithredol ledled Cymru. O fewn yr ardal ymgeisiol, mae nifer fach o safleoedd gweithredol yn parhau i fod yn weithredol, gan gynnwys Chwarel Maes Mynan (tywod a gro) a Chwarel Hendre, Chwarel Fron Haul, a Chwarel Helygain (agregau a llechi), sydd wedi'u lleoli yn y gogledd ger ffin yr ardal arfaethedig. Yng nghanol yr ardal ymgeisiol, mae tomen chwareli Moel-y-Faen (agregau) a Chwarel Lechi'r Berwyn (llechi) hefyd yn weithredol. Fodd bynnag, mae mwyafrif y safleoedd mwynau yn yr ardal a'r cyffiniau wedi dod i ben neu'n anweithredol, sy'n adlewyrchu dirywiad hirdymor y diwydiannau cloddio. Gan fod nifer cymharol isel o weithrediadau gweithredol, mae cyflogaeth gyfredol yn y sector mwynau eisoes yn gyfyngedig. Felly, mae'n debyg y byddai dynodi parc cenedlaethol yn cael effaith uniongyrchol gyfyngedig ar swyddi, ond gallai gyflymu'r duedd o dwf mewn sectorau eraill fel twristiaeth.





Ffigur 3.6. Chwareli a mwyngloddiau gweithredol ac anweithredol (Ffynhonnell: BGS)

1. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-07/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-12.pdf
2. https://cyfoethnaturiol.cymru/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/advice-for-planning-authorities/advice-to-planning-authorities-for-planning-applications-affecting-phosphorus-sensitive-special-areas-of-conservation/?lang=cy

# Cyflogaeth a busnesau

## Crynodeb o’r effaith bosibl




Ffigur 3.7. Effaith economaidd ehangach o ran cyflogaeth a busnesau (Ffynhonnell: Arup)

# Eiddo

## Amodau llinell sylfaen

Mae tua 18,600 o anheddau yn yr ardal ymgeisiol, sy'n cynrychioli 1.3% o'r anheddau yng Nghymru. I gymharu, mae tua 13,000 o gartrefi ym Mharc Cenedlaethol Eryri[1]. Mae cyfran fwy o anheddau yn yr ardal ymgeisiol mewn perchnogaeth lawn neu â morgais (72.0%) o'i chymharu â chyfartaledd Cymru o 66.1%. Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod perchnogaeth tai hefyd yn uwch yn y parciau cenedlaethol sy'n bodoli eisoes yn y DU nag mewn mannau eraill yng Nghymru a Lloegr. Mae rhentu cymdeithasol yn llai cyffredin yn yr ardal ymgeisiol, oherwydd ei lleoliad gwledig, yn ôl pob tebyg. Mae ardaloedd gwledig yn aml yn wynebu prinder o dai cymdeithasol. Mae'r prinder hwn yn cyfrannu at restrau aros hir ac yn gorfodi rhai trigolion i ymadael â'u cymunedau[2].

Mae lefelau uchel o berchnogaeth cartrefi gwyliau yn her i rannau o'r Gogledd a'r Canolbarth. Mae Tabl 3.7 yn amlinellu cyfanswm y cartrefi gwyliau fesul awdurdod lleol. Mae gan Bowys, y prif awdurdod lleol o fewn ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol, 740 o gartrefi gwyliau, sef y pumed uchaf allan o 22 awdurdod lleol Cymru. Mae gan Sir Ddinbych, sy'n cwmpasu'r ardal fwyaf nesaf, 335 o gartrefi gwyliau, sy'n ei rhoi yn y nawfed safle uchaf. Er bod gan Wynedd y cyfraddau uchaf o berchnogaeth ail gartrefi, dim ond 1% o'r ardal ymgeisiol sydd ynddi.

Tabl 3.7. Nifer y cartrefi gwyliau (Ffynhonnell: SYG 2021)

| Awdurdod lleol | Nifer y cartrefi gwyliau (2021) |
|---|---|
| Powys | 740 |
| Wrecsam | 60 |
| Sir y Fflint | 160 |
| Sir Ddinbych | 335 |
| Gwynedd | 2,590 |
| **Cymru** | **10,070** |

Yn seiliedig ar gyfran pob awdurdod lleol sy'n dod o fewn yr ardal ymgeisiol, amcangyfrifir bod tua 280 o gartrefi gwyliau o fewn ffiniau arfaethedig y parc cenedlaethol.

Mae dadansoddiad o'r prisiau tai cyfartalog ar draws y pum awdurdod lleol o fewn ffiniau'r ardal ymgeisiol (Tabl 3.8) yn dangos darlun cymysg. Mae gan Bowys a Sir y Fflint brisiau tai cyfartalog sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o £207,382, tra bod y tri awdurdod lleol arall yn is na'r meincnod hwn. Wrth ystyried y ffigur cyfartalog ar draws y pum awdurdod, ceir ffigur o £208,211, sy'n cyd-fynd yn agos â'r cyfartaledd cenedlaethol. O ran fforddiadwyedd tai, mae gan Bowys—y prif awdurdod lleol o fewn yr ardal ymgeisiol—gymhareb o 7.03, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, ac yn dynodi bod tai yn gymharol llai fforddiadwy. Mewn cyferbyniad, mae gan Sir Ddinbych, yr awdurdod mwyaf nesaf, gymhareb fforddiadwyedd is, sy'n golygu bod tai yn gymharol mwy fforddiadwy. At ei gilydd, mae'r gymhareb fforddiadwyedd gyfartalog ar draws y pum awdurdod ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n awgrymu heriau cymedrol o ran fforddiadwyedd tai mewn rhannau o'r ardal ymgeisiol.

Tabl 3.8. Prisiau tai ar gyfartaledd (Ffynhonnell: Mynegai Prisiau Tai y DU)

| Awdurdod lleol | Prisiau tai ar gyfartaledd 2025 (£) | Cymhareb fforddiadwyedd tai (2024) |
|---|---|---|
| Powys | 235,878 | 7.03 |
| Wrecsam | 202,484 | 7.49 |
| Sir y Fflint | 215,481 | 5.04 |
| Sir Ddinbych | 191,221 | 5.75 |
| Gwynedd | 195,991 | 6.36 |
| **Cyfartaledd y pum awdurdod lleol** | **208,211** | **6.3** |
| **Cymru** | **207,382** | **6.0** |

280
Cartrefi gwyliau
(10,070 yng Nghymru)

18,592
Anheddau
(1.48 miliwn yng Nghymru[3])

72.0%
Anheddau â pherchen-feddiannydd
(66.1% yng Nghymru[4])

12.7%
Anheddau rhent cymdeithasol
(16.5% yng Nghymru[4])

£208,211
Pris tai ar gyfartaledd ar draws y pum awdurdod lleol
(207,382 yng Nghymru)

6.3
Cymhareb fforddiadwyedd aelwydydd ar gyfartaledd ar draws y pum awdurdod lleol
(6.0 yng Nghymru)

1. Adroddiad-ar-Gyflwr-Parc-Cenedlaethol-Eryri.pdf
2. Gwerthusiad o swyddogion galluogi tai gwledig yng Nghymru: Adolygiad llenyddiaeth
3. Amcangyfrifon stoc anheddau: ar 31 Mawrth 2023 [HTML] | LLYW.CYMRU
4. Nodweddion aelwydydd yn ôl deiliadaeth, Cymru a Lloegr – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

# Eiddo

## Effaith bosibl

### Premiymau prisiau tai

Ar gyfartaledd, mae prisiau tai o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol yn uwch nag yn yr ardaloedd cyfagos ar y cyfan. Canfu dadansoddiad gan Nationwide fod eiddo o fewn parc cenedlaethol, ar gyfartaledd, yn werth 25% yn fwy nag eiddo tebyg y tu allan i'r ardaloedd hyn, sy'n cyfateb i ryw £66,700 yn seiliedig ar brisiau tai cyfredol y DU ar gyfartaledd[1]. Fodd bynnag, dangosodd adolygiad banc Lloyds o barciau cenedlaethol (Tabl 3.9) fod amrywiad sylweddol rhwng y premiwm (a'r gymhareb pris i enillion gysylltiedig) ar draws parciau cenedlaethol.

Mae yna lawer o ffactorau a allai esbonio'r premiymau a welwyd. Mae parciau cenedlaethol, wrth reswm, wedi'u lleoli mewn ardaloedd o harddwch naturiol sy'n debygol o fod yn lleoliadau deniadol i fyw ynddynt. Maent yn cyflwyno gwarchodaethau cynllunio a all gyfyngu ar y cyflenwad o dai, gan godi prisiau. Mae'r stoc dai yn yr ardaloedd hyn hefyd yn tueddu i gynnwys eiddo hŷn, mwy, ac yn aml â thir ychwanegol. Adeiladwyd tua chwarter o gartrefi parciau cenedlaethol Cymru a Lloegr cyn 1900[2].

### Premiymau yng Nghymru

Yng Nghymru, mae'r premiwm, ar y cyfan, yn is ac yn fwy amrywiol. Arfordir Penfro sydd â'r premiwm uchaf, sef 55%. Nesaf y mae Bannau Brycheiniog, â phremiwm o 4%, sy'n dal i fod yn is na'r lefelau ym mharciau cenedlaethol Lloegr. Ymddengys nad yw eiddo o fewn Parc Cenedlaethol Eryri yn denu pris premiwm.

Mae'r berthynas â'r 'premiwm pris arfordirol' yn ystyriaeth arwyddocaol yng Nghymru. Arfordir Penfro yw'r unig barc cenedlaethol yng Nghymru sydd â phremiwm sylweddol ar brisiau tai, a'r unig barc cenedlaethol yn y DU sydd wedi'i ddynodi am ei dirwedd arfordirol yn bennaf. Mae'n arbennig o ddymunol i'r rheini sy'n prynu ail gartrefi. Mae eiddo arfordirol wedi perfformio'n well na marchnad dai gyffredinol y DU, ac mae premiwm pris clir ar gyfer eiddo o fewn 100 metr i'r arfordir[3]. Mae eiddo arfordirol yng Nghymru yn dangos premiwm pris o 13%, gyda gogledd Ynys Môn a de Penrhyn Gŵyr yn gyrchfannau arfordirol poblogaidd[3].

### Polisïau i gyfyngu ar bremiymau prisiau

Gall awdurdodau parciau cenedlaethol roi polisïau ar waith i gyfyngu ar bremiymau prisiau. Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn rhoi mesurau cynllunio a pholisi ar waith a allai gyfrannu at ei bremiwm prisiau tai cyfyngedig. Mae ei gynllun datblygu lleol yn blaenoriaethu tai ar gyfer cymunedau lleol, gyda datblygiadau newydd fel arfer wedi'i cyfyngu i dai ar raddfa fach, neu dai fforddiadwy ar gyfer trigolion lleol[4]. Trwy gytundebau adran 106, mae awdurdod y parc yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid fodloni meini prawf cymhwysedd lleol, a ddiffinnir fel wedi byw, neu weithio'n llawn-amser, yn yr ardal gymhwyso am o leiaf bum mlynedd yn olynol[5].

Ar y lefel genedlaethol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi newidiadau i'r Dreth Trafodiadau Tir sy'n targedu prynwyr eiddo preswyl ychwanegol yn bennaf, fel ail gartrefi a buddsoddiadau prynu i osod. Ar y lefel leol, gall awdurdodau lleol yng Nghymru godi premiymau'r dreth gyngor o hyd at 300% ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor, fel y'i galluogir gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Yn ogystal, gellir cymhwyso Cyfarwyddiadau Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ganiatâd cynllunio drosi prif breswylfa yn ail gartref neu'n lety gwyliau.

Mae rhywfaint o dystiolaeth bod y mesurau hyn eisoes yn cael effaith ar brisiau tai[5]. Gallai'r polisïau hyn esbonio i raddau pam y mae premiymau prisiau tai ym mharciau cenedlaethol Cymru yn is na'r rhai yn Lloegr.

### Asesiad cyffredinol

Mae dod i farn bendant am sut y gallai dynodi parc cenedlaethol effeithio ar brisiau tai yn heriol. Er bod y ffigurau allweddol yn awgrymu premiwm mewn parciau cenedlaethol, mae'r darlun gwirioneddol yn fwy cymhleth na hynny, a'r duedd yn llai amlwg yng Nghymru. Mae'n debygol y bydd sawl ffactor cymhleth yn gyfrifol am yrru premiymau, yn enwedig agosrwydd at yr arfordir, nad yw'n berthnasol i'r ardal ymgeisiol o ystyried nad ydyw ar yr arfordir. Ar ben hynny, mae sawl polisi ar gael i gyfyngu ar bwysau prisiau tai, a gellid rhoi'r rhain ar waith ar draws y parc cenedlaethol cyfan gan APC pe byddai angen.


Tabl 3.9. Premiymau prisiau tai parciau cenedlaethol (Ffynhonnell: Lloyds-2020)

| Parc cenedlaethol | Premiwm pris i'r sir (%) | Cymhareb pris i enillion (2020) |
|---|---|---|
| Ardal y Llynnoedd | 122 | 12.0 |
| Ardal y Copaon | 109 | 11.7 |
| Y Fforest Newydd | 107 | 16.7 |
| Y Twyni Deheuol | 83 | 14.9 |
| Exmoor | 31 | 10.4 |
| Dyffrynnoedd Swydd Efrog | 23 | 7.9 |
| Dartmoor | 15 | 9.4 |
| Gweunydd Gogledd Swydd Efrog | 14 | 8.1 |
| **Arfordir Penfro** | **55** | **9.0** |
| **Eryri** | **0** | **6.8** |
| **Bannau Brycheiniog** | **4** | **7.5** |
| **Cymru a Lloegr** | **Amherthnasol** | **7.9** |

1. Premiwm pris tai o 25% mewn parciau cenedlaethol
2. Faint y mae'n ei gostio i fyw mewn parc cenedlaethol yn y DU?
3. Savills UK | The UK Waterfront Market: Coastal Focus
4. Cynllun datblygu lleol Eryri wedi'i fabwysiadu
5. BBC News | House prices plunge as council acts on second homes

# Eiddo

## Crynodeb o’r effaith bosibl




Ffigur 3.8. Effaith economaidd ehangach ar gyfer y sector eiddo (Ffynhonnell: Arup)

# Trafnidiaeth

## Amodau llinell sylfaen


Mae Ffigur 3.9 yn dangos y rhwydwaith bysiau a rheilffyrdd lleol yn y Gogledd-ddwyrain a'r Canolbarth, ochr yn ochr â data ardaloedd adeiledig. Diffinnir yr ardaloedd adeiledig hyn fel rhai "na ellir gwrthdroi eu cymeriad trefol," sydd fel arfer yn aneddiadau maint pentref, tref neu ddinas, ac yn cynnwys parseli tir o leiaf 20 hectar[1]. O fewn yr ardal ymgeisiol, mae'r prif aneddiadau adeiledig yn cynnwys Cilcain, Gwernymynydd, Llanarmon-yn-Iâl, Llangollen, Llanfyllin, Pontrobert, a Meifod. Mae'r boblogaeth wedi'i gwasgaru ar draws y rhanbarth, gan gyflwyno heriau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus fel gofal iechyd, addysg, rheoli gwastraff, a swyddogaethau eraill awdurdodau lleol. Mae'r patrwm anheddu gwasgaredig hwn hefyd yn cyfrannu at lefelau uchel o ddibyniaeth ar geir. Serch hynny, mae'r ardal wedi'i hamgylchynu gan sawl canolfan boblogaeth fawr—gan gynnwys Lerpwl, Manceinion a Birmingham—sy'n cynnig potensial sylweddol ar gyfer datblygu twristiaeth gynaliadwy a buddsoddi mewn cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus gwell.

Mae rhwydweithiau bysiau lleol cyfyngedig yn teithio trwy dde'r ardal ymgeisiol. Mae Rheilffordd Llangollen yn rheilffordd dreftadaeth â golygfeydd godidog 16 cilometr o hyd, sy'n mynd trwy Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, er ei bod yn gwasanaethu'n bennaf fel atyniad treftadaeth a thwristaidd. Mae diffyg seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn cyfrannu ymhellach at gryn ddefnydd o geir yn yr ardal.

Mae cyfran uwch na'r cyfartaledd o bobl yn yr ardal ymgeisiol yn teithio i'r gwaith mewn car, yn bennaf gan nad oes llawer o opsiynau trafnidiaeth amgen, a'r ffaith bod yn rhaid teithio pellteroedd hirach ar gyfer mynd i'r gwaith. Mewn cymunedau gwledig, mae perchen ar gar yn aml yn hanfodol, nid yn unig i gymudo, ond hefyd i gyrraedd siopau, gwasanaethau ac ysgolion. O fewn yr ardal ymgeisiol, dim ond 0.7% o drigolion sy'n beicio i'r gwaith—sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 1.3%—yn ôl pob tebyg oherwydd y ffyrdd cyflym a chul â throadau sydyn a diffyg lonydd beicio pwrpasol. Mae canran y rheini sy'n berchen ar gar hefyd yn nodedig o uchel, gyda 51.2% o drigolion yn berchen ar ddau neu ragor o geir neu faniau (38.8% yng Nghymru).

Mae gan y parc cenedlaethol arfaethedig gysylltedd ffyrdd da oherwydd ei agosrwydd at y ffin â Lloegr a'r canolfannau trefol mawr yng ngogledd-orllewin Lloegr. Mae ffyrdd allweddol fel yr A55, yr A5, yr M56, yr M62, a'r M53 yn darparu mynediad rhanbarthol uniongyrchol, tra bod ffyrdd fel yr A5151, yr A541, yr A525, a'r A539 yn cysylltu trefi, gan gynnwys Wrecsam, yr Wyddgrug, Dinbych, Rhuthun a Llangollen. Mae'r ffyrdd hyn yn cynnal cymunedau lleol a chyrchfannau poblogaidd fel Dyffryn Ceiriog a Thraphont Ddŵr Pontcysyllte. Fel y dangosir yn Ffigur 3.9, mae'r de yn cael ei wasanaethu'n dda gan ffyrdd dosbarth B, a'r gogledd gan gymysgedd o ffyrdd dosbarth A a dosbarth B, gan sicrhau cysylltedd mewnol da i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Fodd bynnag, mae cyflwr ffyrdd lleol yng Nghymru wedi dirywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wrth i gynghorau ymdopi â llawer o atgyweiriadau a'r ffaith nad oes digon o gyllid i gynnal a chadw llwybrau allweddol. Mae cyfanswm cost yr atgyweiriadau angenrheidiol ledled y wlad bellach yn £953.7 miliwn, gyda'r awdurdodau lleol yn amcangyfrif y byddai'n cymryd 13 mlynedd i fynd i'r afael â hwy[7]. Gallai diffyg buddsoddiad mewn datblygu a chynnal a chadw seilwaith hanfodol fod yn her sylweddol i gysylltedd hirdymor, gwytnwch economaidd, a hyfywedd opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy o fewn y parc cenedlaethol arfaethedig.




Ffigur 3.9. Cyd-destun trafnidiaeth leol ac ardaloedd adeiledig (Ffynhonnell: SYG ac Arup)

1. Ardaloedd adeiledig agored OS | Cynhyrchion data | OS

# Trafnidiaeth

## Amodau llinell sylfaen

### Adolygiad lefel uchel o'r rhwydwaith ffyrdd

Cafwyd data traffig nodweddiadol gan Google (Google Maps API) i roi syniad o amodau traffig cerbydau posibl o amgylch y safle arfaethedig. Dewiswyd 6pm ar ddydd Gwener fel amser brig. Er nad yw hwn yn amser brig arferol ar gyfer dadansoddi traffig, mae'r diwrnod a'r amser a ddewiswyd yn adlewyrchu'r defnydd hamdden, gyda llawer o ddefnyddwyr hamdden yn debygol o deithio ar nos Wener ar gyfer teithiau penwythnos.


Mae Ffigur 3.10 yn dangos traffig sy'n symud yn gyflym i raddau helaeth o fewn ardal yr astudiaeth, sy'n dangos diffyg tagfeydd ar hyn o bryd. Mae'r ardal o amgylch Glannau Dyfrdwy i'r gogledd-ddwyrain o'r safle yn dangos rhywfaint o dagfeydd (wedi'i nodi mewn coch ar Ffigur 3.10). Mae tagfeydd arbennig ar ffordd yr A494 yng Nghymru tua'r de. Fodd bynnag, mae llwybr amgen tuag at y safle ar hyd gwibffordd yr A55 yn y Gogledd, sy'n gweld llai o dagfeydd. Mae gwibffordd y Gogledd yn mynd trwy ogledd y safle.

Mae'r ddwy ffordd yn gefnffyrdd deuol, ac felly'n addas ar gyfer cludo traffig strategol, a gallent ymdopi â mwy o draffig pe bai mwy o deithiau'n cael eu hychwanegu at y rhwydwaith. Mae ffyrdd eraill ger y safle yn ffyrdd unffrwd yn bennaf, ffyrdd â therfyn cyflymder o 50 mya lle mae'n bosibl y bydd cerbydau yn teithio'n arafach na hynny oherwydd y ffaith bod nifer o droeon ar hyd y ffordd. Mae canol yr ardal ymgeisiol yn cael ei wasanaethu gan ffordd yr A5, sef y prif gefnffordd o Lundain i Ogledd Cymru. Nid oes llawer o dagfeydd ar y ffordd hon ar yr amser a aseswyd. Mae'n ffordd unffrwd lydan mewn cyflwr da, ond mae ganddi rai troeon sydyn rhwng Llangollen a'r Berwyn.

Mae'r rhwydwaith ffyrdd i'r de o'r ardal ymgeisiol yn gyfyngedig iawn. Mae gan yr ardal hon seilwaith trafnidiaeth ffyrdd cyfyngedig iawn. Ceir ffyrdd dosbarth B cul un lôn yn yr ardal yn bennaf, neu 'lonydd cefn gwlad' nad ydynt yn addas ar gyfer lefelau uwch o draffig.

### Pwysau ar y rhwydwaith ffyrdd lleol

Mae pwysau eisoes ar y rhwydwaith ffyrdd lleol, yn enwedig o amgylch Pistyll Rhaeadr (i'r gogledd-orllewin o Lanrhaeadr-ym-Mochnant ar hyd Stryd y Rhaeadr), lle mae mynediad i geir yn broblem amlwg yn barod. Mae hyn wedi bod yn tarfu ar drigolion lleol ers blynyddoedd lawer gan beri pryder iddynt, yn enwedig yn ystod cyfnodau ymwelwyr brig. Mae'n bwysig cydnabod bod y broblem hon yn parhau i raddau helaeth oherwydd y diffyg rheolaeth effeithiol o dan y trefniadau presennol. Mae'r cyd-destun hwn yn awgrymu y byddai angen i unrhyw newidiadau yn nifer yr ymwelwyr yn y dyfodol fod yn strategaeth gydlynol ar gyfer rheoli mynediad a thraffig, a allai gael ei chefnogi trwy fecanweithiau cynllunio a llywodraethu gwell fel y rheini sy'n cael eu cyflwyno gan ddynodiad parc cenedlaethol.




Ffigur 3.10. Adolygiad lefel uchel o'r rhwydwaith ffyrdd (Ffynhonnell: Google)

# Trafnidiaeth

## Effaith bosibl

Mae dynodi parc cenedlaethol yn debygol o ddod â chynnydd yn nifer yr ymwelwyr, a mwy o ddiddordeb gan y cyhoedd yn y rhanbarth. Bydd hyn yn rhoi pwysau newydd ar y seilwaith trafnidiaeth presennol. Gall hyn arwain at fwy o dagfeydd traffig, pwysau ar ffyrdd gwledig a mwy o alw am fannau parcio, yn enwedig mewn mannau prydferth poblogaidd. Gall y nifer uwch o ymwelwyr roi pwysau ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus oni bai bod buddsoddiad yn cael ei wneud i wella cysylltedd ac amlder.

### Effaith defnydd mawr o geir

Mae ceir yn bwysig ar gyfer gweld golygfeydd mewn parciau cenedlaethol, ond, ar adegau prysur, mae ymwelwyr a'u ceir yn cael effaith ar yr amgylchedd ac ansawdd bywyd y trigolion lleol. Mae tystiolaeth gan Barc Cenedlaethol y Fforest Newydd yn dangos bod defnydd mawr o geir yn gysylltiedig â lefelau uchel o draffig, parcio ar ymylon ffyrdd, damweiniau yn ymwneud ag anifeiliaid, a methiant i lynu wrth derfynau cyflymder[1]. Yn yr un modd, ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae'r tagfeydd traffig yn yr ardaloedd mwyaf poblogaidd wedi creu rhwystredigaeth i drigolion lleol. Canfuwyd hefyd bod cryn ddefnydd o geir yn achosi difrod i lystyfiant. Canfu astudiaeth achos ar broblemau traffig ym Mharc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd hefyd fod sŵn, llygredd, llai o ddiogelwch ar y ffyrdd, a pheryglon i ddefnyddwyr ffyrdd bregus, trafferthion wrth fynd i'r gwaith a chyrraedd gweithgareddau hamdden a gwasanaethau, ynghyd ag ymwthiad gweledol, ymhlith yr effeithiau negyddol a achosir gan lefelau uwch o draffig[2]. Y prif ddull teithio i barciau cenedlaethol, ac o'u cwmpas, yw mewn car, gyda thua 90% o ymwelwyr â'r tri pharc cenedlaethol presennol yng Nghymru yn teithio mewn car preifat[3]. Gall lefelau uchel o ymwelwyr yn ystod tymhorau brig, ynghyd â ffyrdd llai a phrinder mannau parcio, arwain at dagfeydd, a chyfrannu at brofiad ymwelwyr o ansawdd gwael.

### Cyfleoedd teithio cynaliadwy

Mae'r cryn ddefnydd o geir mewn parciau cenedlaethol yn cyfrannu'n sylweddol at allyriadau carbon. Teithiau gan ymwelwyr yw 41% o gyfanswm yr allyriadau yn Ardal y Llynnoedd[4]. Er mwyn lleihau'r effaith hon, mae angen gwneud mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. Mae rhai parciau eisoes yn cymryd camau gweithredu: mae Ardal y Copaon yn cynnig llwybrau heb draffig ar gyfer aml-ddefnyddwyr, ac mae ganddi strategaeth feicio ar waith. Bellach, beicio yw'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd ymhlith y trigolion (27%), sy'n cynnal iechyd, yn lleihau carbon, ac yn arwain at fynediad lleol gwell[5]. Yn Ardal y Llynnoedd, gwnaeth rhaglen Go Lake Travel, gwerth £6.9 miliwn (2011–2015), leihau milltiroedd cerbydau 14.5% (4.8 miliwn o filltiroedd) a lleihau allyriadau carbon 7.8%, gan arbed 41,000 tunnell o garbon deuocsid[6].

Mae sawl parc cenedlaethol sy'n bodoli eisoes wedi cyflwyno gwasanaethau bysiau ar gyfer ymwelwyr, ac mae tystiolaeth gan Awdurdod Parc Cenedlaethol y Fforest Newydd a'r Adran Drafnidiaeth yn dangos bod amryfal fanteision. Mae'r gwasanaethau hyn yn helpu i leihau'r lefel o draffig a nifer y gwrthrychau sy'n amharu ar y golygfeydd, a thrwy hynny'n gwarchod llonyddwch a chymeriad naturiol yr ardal. Maent hefyd yn ysgogi'r economi leol. Mae arolygon gan y Gower Explorer a Dales Bus yn dangos bod pob £1 o gymhorthdal cyhoeddus yn cynhyrchu £3 mewn gwariant lleol[7]. Mae ymwelwyr sy'n teithio ar fws yn tueddu i dreulio mwy o amser mewn pentrefi ac atyniadau, gan wella eu profiad a'u heffaith ar yr economi. Yn ogystal, mae'r gwasanaethau hyn yn gwella mynediad i gefn gwlad, yn enwedig i'r henoed a theuluoedd ag incwm isel.

### Goblygiadau cynllunio

Mae cynlluniau datblygu lleol ar gyfer y parciau cenedlaethol presennol yng Nghymru yn cynnwys polisïau strategol sydd â'r nod o hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy ac arwain datblygiad yn unol â hynny[6]. Mae'r cynlluniau hyn yn blaenoriaethu datblygiadau sy'n hawdd eu cyrraedd trwy drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio, gan helpu i leihau dibyniaeth ar geir preifat. Nid yw'n debygol y rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer cynigion a fyddai'n gwaethygu tagfeydd traffig yn sylweddol neu'n creu traffig ar adegau amhriodol, megis yn hwyr gyda'r nos neu mewn ardaloedd preswyl tawel. Yn hytrach, anogir datblygiadau sy'n cynnal teithio carbon isel ac yn gwella cysylltedd trwy lwybrau troed, llwybrau beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.



Beicio yn Ardal y Llynnoedd (Ffynhonnell: skedaddle)

1. Cynllun-Datblygu-Lleol-Cymraeg.pdf
2. Effeithiau twristiaeth: Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd
3. Strategaeth Drafnidiaeth Bannau Brycheiniog – Cynllunio trafnidiaeth integredig
4. Parciau cenedlaethol: Pedair problem drafnidiaeth fawr, a sut i'w datrys – FIT
5. Strategaeth beicio: Parc Cenedlaethol Ardal y Copaon
6. Mentrau twristiaeth gynaliadwy: Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd
7. Visitor_Bus_Toolkit.pdf

# Trafnidiaeth

## Effaith bosibl

**Rôl strategol yr APC**

Byddai gan yr APC gyfrifoldeb clir i ddatblygu cynllun trafnidiaeth strategol sy'n cyd-fynd â dibenion y parc, sef gwarchod yr amgylchedd naturiol, hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad, a chynorthwyo cymunedau lleol. Byddai hyn yn galluogi'r APC i gydlynu seilwaith trafnidiaeth, mentrau teithio llesol, a strategaethau symud ymwelwyr ar raddfa'r dirwedd, gan sicrhau eu bod yn cefnogi amcanion y parc yn hytrach na'u tanseilio.

Er enghraifft, mae gan Fannau Brycheiniog strategaeth drafnidiaeth ar gyfer teithio gan ymwelwyr a phreswylwyr ar draws y parc cenedlaethol. Bu nifer eang o awdurdodau trafnidiaeth, gweithredwyr trafnidiaeth, sefydliadau hamdden a thwristiaeth yn cydweithio i lunio cynllun gweithredu tymor byr a mentrau hirdymor i gyd-fynd ag uchelgeisiau sero net Llywodraeth Cymru / Trafnidiaeth Cymru sy'n ymwneud â thrafnidiaeth[1].

**Dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus – Adran 245**

Mae adran 245 o Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 yn cyflwyno gofyniad cyfreithiol i gyrff cyhoeddus ac ymgymerwyr statudol gefnogi dibenion parciau cenedlaethol a thirweddau cenedlaethol (a elwir yn dorfol yn dirweddau gwarchodedig) yn weithredol wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardaloedd hyn[2]. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, priffyrdd cenedlaethol, a darparwyr cyfleustodau.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r sefydliadau hyn ystyried amcanion y parc cenedlaethol, yn enwedig wrth gynllunio prosiectau trafnidiaeth, seilwaith a datblygu. Gallai'r ddyletswydd newydd hon wella cydgysylltu rhwng asiantaethau trafnidiaeth, cynghorau lleol, ac awdurdod y parc cenedlaethol, gan annog cynllunio mwy integredig ar gyfer llwybrau bysiau gwledig, seilwaith beicio, a chanolfannau trafnidiaeth sy'n fuddiol i gymunedau lleol ac ymwelwyr.





Bws lleol Eryri (Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru)

1. Strategaeth Drafnidiaeth Bannau Brycheiniog – Cynllunio trafnidiaeth integredig
2. Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023

# Trafnidiaeth

## Crynodeb o’r effaith bosibl




Ffigur 3.11. Effaith economaidd ehangach ar gyfer y sector trafnidiaeth (Ffynhonnell: Arup)

# Cymdeithasol, diwylliannol ac iechyd

## Amodau llinell sylfaen

Mae tua 37,000 o bobl yn byw o fewn yr ardal ymgeisiol arfaethedig, sy'n cynrychioli tua 1.2% o gyfanswm poblogaeth Cymru. Fel y dangosir yn Nhabl 3.10, byddai hyn yn golygu mai'r parc newydd fyddai'r parc mwyaf poblog o'r holl barciau cenedlaethol sy'n bodoli eisoes yng Nghymru.

Tabl 3.10. Poblogaethau parciau cenedlaethol (Ffynhonnell: SYG)

| Poblogaeth parciau | cenedlaethol (2021)5 |
|---|---|
| Arfordir Penfro | 20,922 |
| Bannau Brycheiniog | 33,485 |
| Parc Cenedlaethol Eryri | 24,416 |
| **Y parc cenedlaethol newydd arfaethedig** | **Tua 37,000** |

Mae proffil oedran y trigolion o fewn y ffiniau arfaethedig yn dangos cyfran uwch na'r cyfartaledd o bobl 65 oed a throsodd, a chyfran is na'r cyfartaledd o unigolion o dan 18 oed. Mae'r patrwm demograffig hwn yn cyd-fynd â'r tueddiadau a geir yn y parciau cenedlaethol sy'n bodoli eisoes ledled Cymru a Lloegr, lle mae poblogaethau'n tueddu i fod yn hŷn na'r cyfartaledd cenedlaethol. I gymharu, mae 33.1% o'r boblogaeth ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 65 oed neu'n hŷn[1]. Mae'n debygol y bydd y duedd hon o boblogaeth sy'n heneiddio yn cynyddu'r galw am ofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yn ogystal â'r galw am dai sy'n addas ar gyfer trigolion hŷn. Gallai prinder llafur hefyd gyfrannu at y bygythiad i draddodiadau ac arferion ffermio lleol.

1. Preswylwyr parciau cenedlaethol, Cymru a Lloegr – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
2. Parc cenedlaethol yn wynebu allfudiad enfawr o bobl ifanc gan nad yw'n fforddiadwy | DU | Newyddion | Express.co.uk
3. An-independent-review-of-housing-in-Englands-AONBs-2012-17.pdf
4. Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi Cymru – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
5. Amddifadedd aelwydydd – mapiau Cyfrifiad, SYG
6. Y Gymraeg, Cymru – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
7. Anabledd, Cymru a Lloegr – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae llawer o barciau cenedlaethol y DU wedi gweld pobl ifanc yn symud i ffwrdd i ardaloedd mwy trefol oherwydd heriau fel tai anfforddiadwy, cyfleoedd swyddi cyfyngedig, a diffyg amwynderau hanfodol fel band eang dibynadwy, trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau cymdeithasol[3]. Pe bai'r duedd o bobl iau yn parhau, gallai hyn effeithio'n negyddol ar sectorau fel lletygarwch a thwristiaeth.

Mae aelwydydd yn yr ardal ymgeisiol yn wynebu llai o achosion o amddifadedd ar draws dau neu dri dimensiwn o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn gyffredinol, mae trigolion mewn neu ger parciau cenedlaethol yn tueddu i wynebu lefelau is o amddifadedd. Canfu astudiaeth gan Campaign to Protect Ru ˙ ˉ gland (CPRE) fod bron i hanner yr ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn Lloegr fwy na 15 milltir o bellter ar y ffordd o 10 parc cenedlaethol a 46 ardal o harddwch naturiol eithriadol[4].

Mae cyfran sylweddol o drigolion yn yr ardal ymgeisiol arfaethedig (24.6%) yn siarad Cymraeg, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.8%. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn rhugl yn tueddu i fod yn fwy cyffredin yn y Gogledd ac mewn ardaloedd gwledig. Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae'r crynodiadau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn byw yng Ngwynedd ac ar Ynys Môn. Mae cyfran yr unigolion yn yr ardal ymgeisiol a nodwyd fel unigolion anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb—sy'n golygu bod eu gweithgareddau dyddiol naill ai wedi'u cyfyngu llawer neu wedi cyfyngu rhywfaint—fymryn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn yr ardal ymgeisiol, mae 19.7% o'r boblogaeth yn dod o dan y categori hwn, o'i chymharu â 21.1% yn genedlaethol. Mewn cymhariaeth, roedd cyfran y boblogaeth a nodwyd fel pobl anabl yn 2021 yn 16.1% yn Eryri, 17.4% ym Mannau Brycheiniog, a 17.5% ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro[1].

37,000
Poblogaeth
(3,107,500 yng Nghymru[5])

17.6%
Unigolion <18 oed
(19.8% yng Nghymru[5])

27.0%
Unigolion >65 oed
(21.5% yng Nghymru[5])

15.7%
Cartrefi difreintiedig mewn dau neu dri dimensiwn
(20.5% yng Nghymru[6])

24.6%
Siaradwyr Cymraeg
(17.8% yng Nghymru[7])

19.7%
Unigolion anabl
(21.1% yng Nghymru[8])

# Cymdeithasol, diwylliannol ac iechyd

## Effaith bosibl

### Buddion iechyd

Mae tystiolaeth bod amgylcheddau naturiol ac adeiledig yn dylanwadu'n sylweddol ar iechyd a llesiant. Gall yr amgylcheddau naturiol toreithiog mewn parciau cenedlaethol annog mwy o weithgarwch yn yr awyr agored, gan arwain at ffyrdd o fyw iachach, costau gofal iechyd is i'r GIG, ac ysgogi twf economaidd hefyd. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, mae mentrau iechyd a llesiant ar sail natur, a elwir yn aml yn 'rhagnodi gwyrdd', yn arbed tua £635 miliwn i'r GIG a gwasanaethau cyhoeddus bob blwyddyn[1]. Dengys ymchwil hefyd fod ymweld â pharciau cenedlaethol yn hyrwyddo iechyd cyffredinol ac yn cynnig buddion penodol i bobl sy'n rheoli cyflyrau hirdymor megis clefyd y galon, dementia, diabetes a phroblemau iechyd meddwl[3].

Fel 'asedau iechyd', mae parciau cenedlaethol yn cynnig mynediad i adnoddau sy'n helpu unigolion a chymunedau i ofalu am eu hiechyd a'u llesiant. Mae parciau cenedlaethol yng Nghymru mewn sefyllfa dda i gefnogi amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n ceisio creu Cymru lewyrchus, gydnerth, iachach, fwy cyfartal, a chymunedau cydlynus â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

### Effaith economaidd y buddion iechyd


Mae Ffigur 3.12 yn dangos canran yr unigolion yng Nghymru sy'n nodi eu bod ag iechyd gwael. Dengys y data fod gan ardaloedd o fewn y parciau cenedlaethol presennol gyfran is o bobl ag iechyd gwael, sy'n awgrymu bod trigolion parciau cenedlaethol yn gyffredinol ag iechyd gwell o'u cymharu â'r rheini sy'n byw mewn mannau eraill yn y wlad.

Amcangyfrifwyd gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol Efrog bod Parc Cenedlaethol Gogledd Gweunydd Efrog yn cynhyrchu tua £7.21 o fuddion iechyd a llesiant i ymwelwyr a gwirfoddolwyr am bob £1 a fuddsoddir ganddynt. Roedd grwpiau eraill a allai hefyd weld buddion iechyd a llesiant, fel plant ysgol, y tu allan i gwmpas yr adroddiad; felly, mae'n debygol bod y gwerth yn danamcangyfrif o'r adenillion cymdeithasol o fuddsoddi[1].

Yn yr un modd, canfu adroddiad gan National Parks England fod pob £1 o gyllid gan y llywodraeth a fuddsoddir mewn awdurdodau parciau cenedlaethol yn darparu £5.70 mewn buddion iechyd cyhoeddus[2]. Byddai llawer o'r buddion hyn yn digwydd heb ddynodi parc cenedlaethol newydd, ond mae'n debygol bod APC mewn sefyllfa arbennig o dda i gydlynu gweithgareddau a allai hybu canlyniadau iechyd a llesiant.

### Buddion iechyd meddwl

Gwyddys fod natur yn gwella iechyd meddwl a llesiant, gan gynnig buddion sylweddol i'r economi. Mae iechyd meddwl gwael yn costio o leiaf £4.8 biliwn y flwyddyn i economi Cymru ar hyn o bryd, yn ôl adroddiad gan Brifysgol Abertawe[5]. Gallai sefydlu parc cenedlaethol newydd yng Nghymru wella mynediad i amgylcheddau naturiol, gan helpu i leihau'r costau hyn. I ategu hyn, canfu astudiaeth o Awstralia, heb ardaloedd naturiol gwarchodedig, y byddai treuliau llywodraeth sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl gwael 7.5% yn uwch[4]. Mae hyn yn awgrymu y gallai dynodi parc cenedlaethol newydd chwarae rôl wrth wella iechyd meddwl y cyhoedd a lleddfu'r pwysau economaidd sy'n gysylltiedig ag ef.




Ffigur 3.12. Canran yr unigolion sy'n adrodd eu bod ag iechyd gwael (Ffynhonnell: Arup)

1. Ymchwilwyr yn asesu gwerth parciau cenedlaethol i'n hiechyd a'n hapusrwydd – newyddion a digwyddiadau, Prifysgol Efrog
2. Our Value. Our Potential. — National Parks England
3. https://bannau.cymru/wp-content/uploads/NPW_Health_and_Well-being_paper_W.pdf
4. https://library.sprep.org/sites/default/files/science-environment-policy.pdf
5. https://www.mentalhealth.org.uk/sites/default/files/2024-06/Welsh%20MH%20Strategy%20Consultation%202024%20-%20MHF%20response.pdf

# Cymdeithasol, diwylliannol ac iechyd

## Effaith bosibl

### Gwasanaethau ecosystemau diwylliannol

Mae parciau cenedlaethol yn lleoliadau allweddol ar gyfer cael mynediad i ddiwylliant a threftadaeth sy'n cyfrannu at wasanaethau ecosystemau diwylliannol. Gellir disgrifio asedau diwylliannol fel *'ffactorau diwylliannol sy'n cyfrannu at fywiogrwydd a chadernid y bobl sy'n byw mewn cymuned'.* Mae gan bob un o'r tri pharc cenedlaethol presennol ei ddiwylliant a'i nodweddion unigryw ei hun. Er enghraifft, mae Bannau Brycheiniog yn cynnal digwyddiadau diwylliannol sy'n dathlu traddodiadau, cerddoriaeth a chelfyddydau lleol, ac mae gan yr ardal fyd celf a chrefft bywiog. Yn yr un modd, mae Eryri yn gartref i nifer o dirnodau hanesyddol, gan gynnwys safleoedd cynhanesyddol, caerau Rhufeinig a chestyll canoloesol. Mae'r parc hefyd yn gadarnle i ddiwylliant a thraddodiadau Cymraeg, ac mae'n frith o straeon a chwedlau.

Canfu Historic England mai cyfraniad uniongyrchol sector treftadaeth Lloegr at werth ychwanegol crynswth (GVA) y DU yn 2022 oedd £15.3 biliwn[1]. Mae hyn yn cyfateb i 0.8% o gyfanswm GVA Lloegr. Cyfrannodd sector treftadaeth Lloegr £44.9 biliwn yn 2022 wrth ystyried effeithiau cyfunol y cyfraniadau GVA uniongyrchol (£15.3 biliwn), GVA anuniongyrchol (£14.9 biliwn) a GVA yn deillio o hyn (£14.7 biliwn). At ei gilydd, am bob £1 o GVA y mae'r sector yn ei gynhyrchu'n uniongyrchol, mae £1.93 ychwanegol yn cael ei ychwanegu at yr economi ehangach. Mae hyn yn cael ei yrru gan effeithiau gwariant anuniongyrchol a gwariant sy'n deillio o hyn (o'r gadwyn gyflenwi), sy'n digwydd pan fydd gweithwyr y sector, ymwelwyr a busnesau'n gwario arian yn yr economi ehangach[1].

Yn yr un modd, mae ymchwil gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a gyflawnwyd mewn partneriaeth â Grŵp Ymchwil Bioymddygiad Cymdeithasol Coleg Prifysgol Llundain, yn cyfrifo bod y gwerth a gynhyrchir o wella iechyd cyffredinol oedolion y DU, trwy ymgysylltu â diwylliant a threftadaeth, ychydig dros £18 biliwn y flwyddyn, gyda buddion ariannol ychwanegol o ran agweddau mwy penodol eraill ar salwch meddwl a chorfforol. Mae Frontier yn amcangyfrif bod y buddion iechyd a llesiant sy'n gysylltiedig ag oedolyn yn ymgysylltu â diwylliant a threftadaeth bob ychydig fisoedd neu ragor (e.e. ymweld ag amgueddfa, oriel neu wylio cyngerdd) yn werth tua £1,000 y flwyddyn[2]. Ar lefel y boblogaeth, mae budd cymdeithasol, sy'n cynnwys cynhyrchiant uwch oherwydd iechyd gwell, yn werth ychydig dros £8 biliwn i'r economi y flwyddyn[3].

Mae'r ardal ymgeisiol yn cynnwys toreth o asedau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys Clawdd Offa, abatai Sistersaidd, tirweddau ffermio canoloesol, treftadaeth ddiwydiannol, a safleoedd eiconig fel Castell y Waun a Chraig Rhiwarth. Mae'r nodweddion hyn, ynghyd â chysylltiadau cryf â'r Gymraeg a llenyddiaeth a llên gwerin Cymru, yn cyfrannu at hunaniaeth unigryw'r ardal. Gallai dod â'r rhain at ei gilydd o fewn dynodiad parc cenedlaethol, gydag adnoddau a chydlynu gwell, helpu i gynyddu'r buddion sy'n deillio o'r asedau hyn.

### Gwerth lles

Mae offeryn hamdden ORVal yn darparu amcangyfrifon o'r gwerth lles sy'n gysylltiedig â'r parciau cenedlaethol presennol yng Nghymru. Yn ORVal, gwerth lles safle yw amcangyfrif ariannol o'r lles ychwanegol y mae oedolion yn ei fwynhau o allu cael mynediad i'r safle. Mae'r lles sy'n deillio o ymweld â man gwyrdd wedi'i fodelu fel pwyso a mesur buddion mwynhau amser ar y safle a'r costau a ysgwyddwyd i gyrraedd yno. Yn y model, mae buddion ar y safle yn dibynnu ar faint y man gwyrdd, y gorchudd tir, nodweddion dŵr, dynodiadau, mannau o ddiddordeb, a nodweddion economaidd-gymdeithasol ymwelwyr. Mae Tabl 3.11 yn cymharu gwerthoedd lles cyfredol ar draws y parciau cenedlaethol presennol a'r ardal ymgeisiol. Mae gwerth lles yr ardal ymgeisiol yn debyg i werth lles Eryri, ond yn is na rhai'r ddau barc arall. Mae gwerth lles cymharol uchel Bannau Brycheiniog yn debygol o adlewyrchu nifer uchel o ymwelwyr, wedi'u hybu gan ei agosrwydd at ganolfannau poblogaeth mawr fel Caerdydd, Abertawe, a Gorllewin Canolbarth Lloegr. Gan fod ORVal yn defnyddio dull cost teithio, mae safleoedd ger poblogaethau mawr yn gweld mwy o ymweliadau a gwerthoedd lles uwch. Yn ogystal, efallai y bydd ymwelwyr â Bannau Brycheiniog yn fwy parod i dalu, gan godi ei werth amcangyfrifedig yn uwch. Gallai dynodi parc cenedlaethol gynyddu nifer y bobl sy'n ymweld â'r ardal ymgeisiol, gan wella ei gwerth lles.


Tabl 3.11. Gwerth lles (Ffynhonnell: leep.exeter.ac.uk)

| Gwerth lles | parc cenedlaethol (£ y flwyddyn) |
|---|---|
| Eryri | 11,293,078 |
| Bannau Brycheiniog | 19,915,770 |
| Arfordir Penfro | 15,467,118 |
| Yr ardal ymgeisiol | 11,578,606 |

1. Gwerth economaidd y sector treftadaeth | Mae treftadaeth o bwys | Historic England
2. Mae ymgysylltu â diwylliant a threftadaeth yn creu gwerth £8 biliwn y flwyddyn i'r DU | Frontier Economics
3. Ymchwil newydd yn meintioli buddion buddsoddi mewn diwylliant – SBRG

# Cymdeithasol, diwylliannol ac iechyd

## Crynodeb o'r effaith bosibl




Figur 3.13. Effaith economaidd cymdeithasol, diwylliant ac iechyd ehangach (Ffynhonnell: Arup)

# Yr amgylchedd

## Amodau llinell sylfaen

Mae Ffigur 3.14 yn dangos ecoleg yr ardal ymgeisiol, gan uwcholeuo mawndiroedd a choetiroedd, sy'n hanfodol ar gyfer storio carbon a bioamrywiaeth. Mae'r cynefinoedd hyn yn cynnal dulliau rheoleiddio'r hinsawdd ac amrywiaeth eang o rywogaethau. Fodd bynnag, mae bywyd gwyllt Cymru wedi dirywio 20% ers 1994, gyda 18% o rywogaethau mewn perygl o ddiflannu, a 42% o rywogaethau planhigion i'w cael mewn llai o leoedd[1]. Mae gwarchod ac adfer y tirweddau hyn yn hanfodol ar gyfer gwrthdroi colli bioamrywiaeth a chryfhau gwytnwch ecosystemau.

Dengys y data ar fawndiroedd ddosbarthiad mawn ledled Cymru, a diffinnir mawn fel pridd sydd â thrwch o fwy na 40 centimetr o ddeunydd organig o fewn 80 centimetr uchaf proffil y pridd. Mae mawndiroedd sylweddol yn ne-orllewin yr ardal ymgeisiol. Mae'r data coetiroedd yn cynnwys arolwg blaenorol y Comisiwn Coedwigaeth, sef y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed. Mae'r set ddata hon yn dangos pob ardal o goetir dros 2 hectar ym Mhrydain Fawr, a'r math o goedwig wedi'i ddehongli o'r coetiroedd hynny. Mae hyn yn cynnwys coed llydanddail, coed wedi'u torri, coed cymysg, coed conifferaidd a choed ifanc[2]. Mae mwy o goetiroedd yn ne-orllewin y safle lle mae Coedwig Dyfnant wedi'i lleoli, ar ymyl Mynyddoedd Cambria ychydig i'r de o Lyn Efyrnwy. Mae'n rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru sy'n ffurfio rhwydwaith ecolegol cysylltiedig sy'n ymestyn ar hyd a lled Cymru.

Mae'r data ar goetiroedd hynafol yn cynnwys coetir hynafol a lled-naturiol, safle coetir hynafol a adferwyd, planhigfa ar safle coetir hynafol, neu safle coetir hynafol o gategori anhysbys. Yn gyffredinol, y coedwigoedd hyn yw'r rheini sydd wedi bod yn goediog yn barhaus ers o leiaf 1600 OC, sy'n golygu bod llawer o'r coed hyn dros 400 mlwydd oed. Mae mwy o goed hynafol yn bresennol yn ne'r ardal ymgeisiol, gan gynnwys yng Nghoedwig Dyfnant, yn ogystal ag ar hyd rhannau o afon Efyrnwy.


Mae'r data perygl o lifogydd yn darparu asesiad cenedlaethol o'r perygl o lifogydd o afonydd a dŵr wyneb. Mae'r perygl o lifogydd wedi'i gategoreiddio fel a ganlyn:

- Mae risg isel yn golygu, bob blwyddyn, fod siawns rhwng 1 mewn 1,000 (0.1%) ac 1 mewn 100 (1%) y bydd llifogydd yn yr ardal hon.
- Mae risg ganolig yn golygu, bob blwyddyn, fod siawns rhwng 1 mewn 100 (1%) ac 1 mewn 30 (3.3%) y bydd llifogydd yn yr ardal hon.
- Mae risg uchel yn golygu, bob blwyddyn, fod siawns o fwy nag 1 mewn 30 (3.3%) y bydd llifogydd yn yr ardal hon.

Mae risg uchel o lifogydd mewn ardaloedd o amgylch Llyn Efyrnwy, afon Tanat, afon Dyfrdwy ac afon Alun.

Mae afon Dyfrdwy a'i haber o werth cadwraeth uchel, ac wedi'u dynodi'n ddwy ACA a thri SoDdGA. Mae nodweddion nodedig yn cynnwys llyriad nofiadwy, eog Iwerydd, y llysywen a'r dwrgi. Mae cynefinoedd rhynglanwol aber afon Dyfrdwy yn cynnal poblogaethau mawr o adar hirgoes ac maent hefyd wedi'u dynodi'n AGA a safle Ramsar. Mae cynlluniau rheoli perygl llifogydd yn amlinellu sut y bydd awdurdodau'n gweithio gyda chymunedau i reoli'r perygl o lifogydd dros y chwe blynedd nesaf, ochr yn ochr â chynllun rheoli llifogydd dalgylch hirdymor ar gyfer y 50 i 100 mlynedd nesaf[4].

1. Cymru – Sefyllfa Natur
2. Deall gwasanaethau ecosystemau: Definition and Types – Decoding Biosphere
3. Cynllun rheoli perygl llifogydd
4. Afon Dyfrdwy: Cynllun dalgylch ar gyfer rheoli llifogydd – GOV.UK




Ffigur 3.14. Ecoleg a'r perygl o lifogydd (Ffynhonnell: Arup)

# Yr amgylchedd

## Effaith bosibl

**Trosolwg**

Mae adnoddau naturiol yn chwarae rôl hanfodol wrth wella ffyniant economaidd a llesiant. Cyfeirir at hyn weithiau fel darparu gwasanaethau ecosystemau[1]. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys rheoleiddio gweithgareddau fel puro dŵr gan wlyptiroedd, rheoleiddio hinsawdd trwy storio carbon, a rheoli llifogydd. Maent hefyd yn cynnwys gwasanaethau cynnal fel ffurfio pridd, ffotosynthesis, ac ailgylchu maethynnau. Gall parciau cenedlaethol wella swyddogaeth y gwasanaethau hyn drwy eu rôl rheoli amgylcheddol.

**Buddion o ran storio a dal carbon**

Y ddau fath o gynefin sydd ag arwyddocâd arbennig ar gyfer storio carbon yw mawndiroedd a choetiroedd. Mae'r cynefin hwn yn bresennol yn yr ardal ymgeisiol. Rydym wedi amcangyfrif bod tua 16,090 hectar o goetir, 4,930 hectar o goetir hynafol, ac 8,860 hectar o fawndir.

Mae mawndiroedd yn storfeydd carbon hynod effeithiol, gan ddal mwy o garbon yn eu pridd nag ardal gyfatebol o goedwig. Er mai dim ond 4% o Gymru y maent yn ei chwmpasu, mae mawndiroedd yn storio hyd at 30% o garbon pridd y wlad[2]. Mae ymchwil yn dangos bod mawndiroedd yn chwarae rôl hanfodol o ran mesurau lliniaru newid yn yr hinsawdd trwy ddulliau naturiol, gan storio rhwng 500 a 1,000 tunnell o garbon fesul hectar, a'u gwneud yn un o'r dalfeydd carbon naturiol mwyaf effeithlon[3]. Gallai adfer mawndiroedd sydd wedi diraddio hefyd atal hyd at 1.91 gigatunnell o allyriadau cyfwerth o garbon deuocsid bob blwyddyn[3].

Yn fyd-eang, mae mawndiroedd yn storio mwy o garbon na holl goedwigoedd y byd gyda'i gilydd, ond pan fyddant yn sychu, maent yn rhyddhau carbon a nwyon tŷ gwydr eraill. Mae o leiaf 75% o fawndiroedd y DU wedi'u difrodi ac yn rhyddhau allyriadau, felly mae angen mawr i adfer yr ecosystemau hyn. Gallai sefydlu parciau cenedlaethol newydd yng Nghymru warchod ac adfer y dalfeydd carbon hanfodol hyn. Er enghraifft, mae Partneriaeth Mawndiroedd De-orllewin Lloegr yn brosiect gwerth £13 miliwn sydd â'r nod o adfer 2,600 hectar o fawndiroedd, gan gynnwys ardaloedd ym Mharc Cenedlaethol Dartmoor[5]. Yn yr un modd, mae Parc Cenedlaethol Dyffrynnoedd Swydd Efrog wedi ymrwymo, erbyn 2030, i adfer yr holl gynefinoedd gorgors / mawn dwfn sydd wedi dirywio i gors sy'n gweithredu'n ecolegol ac yn hydrolegol, sy'n amsugno ac yn storio carbon yn weithredol ac yn cael ei rheoli'n gynaliadwy[6].

Mae coetiroedd yn ddalfeydd carbon pwysig, gydag amsugnad yn amrywio yn ôl y math o goetiroedd. Planhigfeydd conwydd sy'n tyfu'n gyflym sy'n amsugno'r lefelau mwyaf o garbon deuocsid dros gyfnod o 30 mlynedd, tra bod coetiroedd llydanddail a naturiol brodorol yn cyrraedd lefelau tebyg dros amser. Yn ôl adroddiad gan Scottish Forestry, mae coetiroedd llydanddail sy'n cael eu rheoli'n ysgafn yn amsugno tua 1.3 tunnell o garbon deuocsid yr hectar bob blwyddyn, o'i gymharu â 4.9 tunnell o garbon deuocsid ar gyfer planhigfeydd conwydd, sy'n tyfu ar gyflymder cymedrol. Canfu tystiolaeth o Barc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd fod y 28,000 hectar o goetir sydd yn y parc ar hyn o bryd yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o ryw 165,750 tunnell bob blwyddyn. Gallai sefydlu parc cenedlaethol newydd yma warchod ac ehangu'r coetiroedd hyn ymhellach, gan hybu'r rôl hanfodol y maent yn ei chwarae wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd[5].

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cyfrifo gwerth economaidd coed a choedwigoedd y DU, sef £382 biliwn[8]. Mae hyn yn cynnwys amcangyfrifon o fuddion coed i iechyd y cyhoedd, ansawdd aer, rheoleiddio llifogydd a rheoleiddio gwres trefol. Yn yr un modd, mewn adroddiad sy'n cyfrifo gwerth parciau cenedlaethol Cymru, amcangyfrifwyd bod y gwerth a gafwyd o storio carbon mewn mawndiroedd a choetiroedd rhwng £24.2 miliwn a £97.2 miliwn[7]. Mae gwarchod coetiroedd yn cynnig buddion sylweddol i'r economi, a gall parciau cenedlaethol chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau eu bod yn cael eu cadw. Er enghraifft, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi rhoi strategaeth coed a choetiroedd 100 mlynedd ar waith yn seiliedig ar dair egwyddor graidd: diogelu coed presennol, gwella'r ffordd y caiff coetiroedd eu rheoli, ac ehangu a chysylltu coetiroedd[9].



Mawndiroedd (Ffynhonnell: lakedistrict.gov.uk)

1. Deall gwasanaethau ecosystemau: Definition and Types – Decoding Biosphere
2. Sut mae adfer corsydd Cymru yn gwella diogelwch o ran dŵr a thanau gwyllt yn ystod tywydd sych | Newyddion Llywodraeth Cymru
3. https://www.nature.com/articles/s41598-021-82004-x
4. https://www.dartmoor.gov.uk/wildlife-and-heritage/our-conservation-work/the-south-west-peatland-project
5. Ffermio a charbon: Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd
6. D3 – Adfer mawndiroedd – Parc Cenedlaethol Dyffrynnoedd Swydd Efrog: Parc Cenedlaethol Dyffrynnoedd Swydd Efrog
7. Valuing-Wales-National-Parks-.pdf
8. Coed y DU yn ased gwerth £383 biliwn – Coed Cadw
9. Erthygl – awdurdod y parc

# Yr amgylchedd

## Effaith bosibl

**Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd**

Gall newidiadau i arferion datblygu a rheoli tir o fewn dalgylchoedd afonydd mewn parciau cenedlaethol helpu i leihau difrod llifogydd a'r costau cysylltiedig. Mae cost ariannol llifogydd yn sylweddol, a chanfu astudiaeth gan Asiantaeth yr Amgylchedd bod cyfanswm y difrod economaidd ar gyfer yr holl lifogydd yng Nghymru a Lloegr rhwng mis Ionawr 2016 a mis Tachwedd 2019 rhwng £504 miliwn a £924 miliwn, ac mai'r amcangyfrif gorau yw £708 miliwn (prisiau 2024)[1]. Bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar Gymru dros y ganrif nesaf drwy effeithio ar y tymheredd cyfartalog, glawiad, digwyddiadau tywydd eithafol a llifogydd. Mae'r Ganolfan Amgylchedd wedi amcangyfrif y rhagwelir y bydd glawiad yn cynyddu 14% yn y gaeaf ar gyfartaledd erbyn 2050, ac yn gostwng 16% yn yr haf. Erbyn 2080 gallai godi 19% yn y gaeaf, a gostwng 20% yn yr haf. Yn yr un modd, rhagwelir y bydd lefelau'r môr o amgylch Cymru yn codi tua 22 centimetr erbyn 2050, a 36 centimetr erbyn 2080. Disgwylir i amlder digwyddiadau tywydd eithafol gynyddu'n sylweddol hefyd, ac arweiniodd stormydd Ciara, Dennis a Jorge ddechrau 2020, er enghraifft, at lawiad a llifoedd afonydd ar y lefel uchaf a gofnodwyd erioed ledled Cymru, a'r llifogydd mwyaf eang ers 1979.


*Rheoli llifogydd yn naturiol*

Mae rheoli llifogydd yn naturiol yn cael ei hyrwyddo fel ffordd o leihau'r perygl o lifogydd Daeth ymchwil Asiantaeth yr Amgylchedd ar reoli llifogydd yn naturiol i'r casgliad y gall adfer afonydd, creu gwlyptiroedd, plannu coetiroedd a rheoli pridd arafu dŵr ffo, gwella ymdreiddiad, a lleihau llifoedd uchaf llifogydd, gan gynnig ateb ar sail natur i'r perygl o lifogydd. Gall adfer afonydd, sy'n aml yn cynnwys ailddolennu, cael gwared ar adeiledd artiffisial ac ailgyflwyno sianeli plethog, ostwng uchafbwynt llifogydd i lawr yr afon. Mae astudiaethau achos yn awgrymu y gall adfer afonydd liniaru'r perygl o lifogydd yn lleol yn sylweddol. Er enghraifft, gwelodd dalgylch 25 cilometr sgwâr yn y Fforest Newydd ostyngiad o 21% yn uchafbwynt llifogydd yn dilyn ymdrechion adfer[3].

Un o brif amcanion Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Dyffrynnoedd Swydd Efrog 2019–2024 oedd cyflawni prosiectau rheoli llifogydd yn naturiol ar raddfa'r dirwedd. I ategu hyn, daeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Dyffrynnoedd Swydd Efrog yn bartneriaid â ffermwyr, tirfeddianwyr a sefydliadau lleol[4]. Gan weithio gydag Ymddiriedolaeth Afonydd Dyffrynnoedd Swydd Efrog, Cyngor Sir Gogledd Swydd Efrog, Asiantaeth yr Amgylchedd, a Lloegr Naturiol, maent wedi cynhyrchu canllawiau ymarferol sy'n cynnig cyngor hanfodol i'r rheini sy'n ystyried mesurau rheoli llifogydd yn naturiol ar eu tir. Yn yr un modd, ym Mharc Cenedlaethol Dartmoor, cynhaliwyd ymyriadau rheoli llifogydd yn naturiol mewn sawl safle, gan gynnwys Mardle, Dean Burn, Hanger Down, Colley Brook a Black Brook[5]. Gosododd y prosiect tua 350 o argaeau sy'n gollwng dŵr gan ddefnyddio pren, carreg a helyg; plannodd 6,000 o goed i wella ymdreiddiad; ac ariannodd 75 hectar o waith adfer mawndiroedd, ynghyd â gwaith adfer afonydd ac ailgysylltu gorlifdiroedd.

*Rheoli Tir*

Mae newidiadau i arferion datblygu a rheoli tir o fewn dalgylchoedd afonydd mewn parciau cenedlaethol yn hanfodol ar gyfer lleihau difrod llifogydd a'r costau cysylltiedig. Ymhlith y prif ddulliau yw ailgoedwigo ac adfer gwlyptiroedd, sy'n helpu i gynyddu gallu'r dirwedd i amsugno a rheoli dŵr llifogydd. Mae parciau cenedlaethol yn cynorthwyo'r ymdrechion hyn drwy gyfrannu at dargedau ar gyfer creu coetiroedd, adfer cynefinoedd a rheoli llifogydd yn naturiol. Er enghraifft, mae Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd wedi mabwysiadu dull ar sail dalgylchoedd i wella amgylchedd y dŵr drwy adfer prosesau naturiol[6]. Mae hyn yn cynnwys ymdrechion i adfer afonydd, gwella ansawdd dŵr, a gwella cynefinoedd[6]. Erbyn 2030, mae ei nodau'n cynnwys sicrhau bod o leiaf 75% o gyrff dŵr yn meddu ar statws ecolegol 'da' o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr erbyn 2027, gan greu 209 hectar o goetiroedd newydd bob blwyddyn[6].




Rheoli llifogydd yn naturiol (Ffynhonnell: research.reading.ac.uk)

1. Tystiolaeth am gostau llifogydd yng Nghymru a Lloegr – GOV.UK
2. Sut y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar Gymru? – Canolfan yr Amgylchedd Abertawe
3. Rheoli llifogydd yn naturiol: Ymchwil dwfn a dadansoddiad Asiantaeth yr Amgylchedd | Unda
4. Rheoli llifogydd yn naturiol – Parc Cenedlaethol Dyffrynnoedd Swydd Efrog: Parc Cenedlaethol Dyffrynnoedd Swydd Efrog
5. Prosiect rheoli llifogydd yn naturiol Blaenddyfroedd Dartmoor | Dartmoor
6. Cynllun cyflawni adfer natur: Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd

# Yr amgylchedd

## Effaith bosibl

### Bioamrywiaeth

Mae parciau cenedlaethol yn helpu i warchod harddwch naturiol a gwarchod ecosystemau. Mae tirweddau Cymru yn cynnal rhywogaethau unigryw fel lili Maesyfed (*Gagea bohemica*) a'r cor-rosyn rhuddfannog (*Tuberaria guttata*), nad ydynt i'w canfod yn unman arall ar dir mawr Prydain. Yn Eryri, mae planhigion arctig-alpaidd fel lili'r Wyddfa (*Lloydia serotina*) yn tyfu ar lethrau oer, sy'n wynebu'r gogledd. Mae daeareg amrywiol a hinsawdd fwyn Cymru hefyd yn cynnal toreth eithriadol o fwsoglau, llysiau'r afu, cennau a ffyngau, gan ragori ar lawer o ranbarthau Ewropeaidd eraill o ran nifer y rhywogaethau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cadwraeth bywyd gwyllt yn flaenoriaeth strategol, gan gyd-fynd â'r Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang drwy ei tharged '30 erbyn 30'. Mae'r fenter hon yn ymrwymo i warchod a rheoli yn effeithiol o leiaf 30% o amgylcheddau tir, dŵr croyw a morol Cymru er budd bioamrywiaeth erbyn 2030[2]. Mae amrywiaeth o ffrydiau cyllido ar gael i wella ac adfer natur o fewn ardaloedd dynodedig. Un fenter o'r fath yw Cronfa Rhwydweithiau Natur, sydd wedi darparu cymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau fel creu coetiroedd, gwella ansawdd dŵr ac adfer cynefinoedd. Ers ei lansio yn 2021, mae'r gronfa wedi cynorthwyo dros 90 o brosiectau, gan ddosbarthu mwy na £26 miliwn yn gyfan gwbl[3]. Gallai dynodi parc cenedlaethol gynyddu mynediad i gyllid o'r fath, gan gryfhau ymdrechion i warchod bioamrywiaeth a gwella cadernid ecolegol ar draws tirweddau gwarchodedig.

*Budd net i fioamrywiaeth*

Yng Nghymru, mae polisi cynllunio cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad ddarparu budd net i fioamrywiaeth, sef yr egwyddor y dylai datblygiad adael bioamrywiaeth ac ecosystemau mewn cyflwr gwell nag o'r blaen, trwy welliannau hirdymor, mesuradwy, ac yn bennaf ar y safle. Gallai dynodi parc cenedlaethol atgyfnerthu bioamrywiaeth fel blaenoriaeth rheoli statudol. Er enghraifft, mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi datblygu cynllun bioamrywiaeth lleol sy'n amlinellu strategaethau i warchod a gwella bioamrywiaeth ar draws y parc[4].

Mae parciau cenedlaethol yn cynhyrchu canllawiau cynllunio atodol ar fioamrywiaeth, gan sicrhau bod cynigion datblygu yn ystyried bioamrywiaeth, gan wella cynefinoedd presennol a chreu rhai newydd i gynnal fflora a ffawna lleol, yn unol â nodau datblygu cynaliadwy. Yn ogystal, gallent gydlynu polisïau i gynorthwyo'r gwaith o weithredu mesurau budd net i fioamrywiaeth. Yn Lloegr, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol wedi cyflwyno credydau bioamrywiaeth gwirfoddol, sef cynllun sy'n galluogi busnesau i fuddsoddi'n uniongyrchol mewn gwaith adfer natur[5]. Mae'r fenter yn ariannu prosiectau adfer a gwarchod bioamrywiaeth ar lawr gwlad, gan alinio cyfraniadau amgylcheddol corfforaethol â deilliannau cadwraeth mesuradwy.

*Asesiad / datganiad seilwaith gwyrdd*

Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio baratoi asesiad seilwaith gwyrdd, gan gynnwys mapiau a rhestrau cyfredol o asedau a rhwydweithiau ecolegol[6]. Mae hyn yn ategu ymdrechion i wella bioamrywiaeth a chadernid ecolegol, ac i nodi cyfleoedd i adfer cynefinoedd. Yn unol â Rhifyn 12 o Bolisi Cynllunio Cymru ac adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i bob cynnig datblygu hefyd gynnwys datganiad seilwaith gwyrdd, yn amlinellu sut mae nodweddion fel coed, gwrychoedd a systemau draenio cynaliadwy wedi'u hymgorffori yn y dyluniad[7].

O ystyried eu dyletswyddau statudol i warchod a gwella amgylcheddau naturiol, byddai dynodi parc cenedlaethol yn sicrhau bod asesiadau seilwaith gwyrdd yn fwy cynhwysfawr, yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, ac yn cael eu ymgorffori'n llawn i gynllunio lleol. Er enghraifft, mae Parc Cenedlaethol Eryri yn ymgorffori polisïau strategol penodol sy'n mynd i'r afael â gofynion seilwaith gwyrdd yn ei gynllun datblygu lleol[8].


*Effaith economaidd colli bioamrywiaeth*

Mae'r Fenter Cyllid Gwyrdd wedi arwain dadansoddiad sy'n datgelu y gallai dirywiad amgylchedd naturiol y DU arwain at gwymp yn y cynnyrch domestig gros o hyd at 12%[9]. Mae'r astudiaeth yn archwilio'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â dirywiad natur a bioamrywiaeth, megis dirywiad yn iechyd y pridd, prinder dŵr, bygythiadau i ddiogelwch bwyd byd-eang, a lledaeniad milheintiau fel ffliw adar a ffliw moch. Mae hefyd yn nodi bod rhai sectorau—yn enwedig amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu a chyfleustodau—yn arbennig o agored i niwed i'r risgiau ariannol hyn sy'n gysylltiedig â natur.

1. Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – Bioamrywiaeth yng Nghymru
2. Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – Monitro a thystiolaeth – 30 erbyn 30 yng Nghymru
3. Anogir prosiectau amgylcheddol Cymru i wneud cais am gyllid grant
4. Cadwraeth, coed ac amaeth – awdurdod y parc
5. Prynu – Awdurdod Parc Cenedlaethol y Twyni Deheuol
6. 16_23-PPW-Changes-re-Biodiversity-and-Major-Development.pdf
7. APCE-Datganiad-Seilwaith-Gwyrdd-Nodyn-Cyfarwyddyd-2024-Cymraeg.pdf
8. Asesu perthnasedd risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â natur ar gyfer y DU
9. Cynllun-Datblygu-Lleol-Eryri-Adroddiad-Adolygu.pdf

# Yr amgylchedd

## Crynodeb o'r effaith bosibl




Ffigur 3.15. Effaith economaidd cymdeithasol, diwylliant ac iechyd ehangach (Ffynhonnell: Arup)

# Trefniadau cyllido a sefydliadol

## Amodau llinell sylfaen

### Cyllid APC

*Cyllid craidd*

Fel awdurdodau lleol at ddibenion arbennig, mae awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn cael cyllid o gyfuniad o ffynonellau, yn bennaf trwy ddyraniadau craidd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a'u hawdurdodau lleol cysylltiedig, fel y'u sefydlwyd o dan adran 72 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Fel arfer, mae'r model cyllido hwn yn cynnwys cyfraniad o 75% gan Lywodraeth Cymru, a chyfran o 25% gan yr awdurdodau lleol perthnasol. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024–2025, cafodd y tri APC presennol yng Nghymru ddyraniadau Grant y Parciau Cenedlaethol yn amrywio rhwng £3.3 miliwn a £4.3 miliwn, sef cyfanswm o £11.0 miliwn. Roedd hyn, yn ei dro, yn gofyn am gyfraniadau lleol (ardollau) gan awdurdodau lleol, a oedd yn amrywio o £1.1 miliwn i £1.4 miliwn, sef cyfanswm o £3.7 miliwn (Tabl 3.13).

Ar gyfer parciau cenedlaethol sy'n bodoli eisoes, telir grant Llywodraeth Cymru o gyllideb Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad (cangen o'r Gyfarwyddiaeth Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol), tra bod yr ardoll yn rhan o'r dyraniad cyffredinol i gyllid llywodraeth leol.

*Cyllid Llywodraeth Cymru arall*

Yn ogystal â chyllid craidd, mae awdurdodau parciau cenedlaethol yn cael cymorth atodol gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyllid refeniw ar gyfer costau gweithredu parciau cenedlaethol. Yn 2024–2025, roedd hyn yn cynnwys £0.9 miliwn i fynd i'r afael â phwysau cyflog a gweithredu, £3.3 miliwn i gynnal eu dyletswyddau statudol, a thua £2.35 miliwn drwy Gronfa Rhwydweithiau Natur ar gyfer pum prosiect ychwanegol[1]. Maent hefyd yn cael cyllid cyfalaf ar gyfer buddsoddiadau hirdymor a phrosiectau seilwaith. Mae hyn yn cynnwys y Gronfa Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy, a ddyrannodd £850,000 i bob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yn 2024–2025[2]. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, darparwyd cyllid diwedd blwyddyn hefyd i helpu awdurdodau parciau cenedlaethol i reoli chwyddiant a phwysau eraill, gan ganiatáu iddynt gydbwyso eu cyllidebau.

*Cyllid APC arall*

Gall awdurdodau parciau cenedlaethol hefyd gynhyrchu incwm sylweddol o ffynonellau nad ydynt yn dod o'r Trysorlys, gan gynnwys meysydd parcio ceir, ffioedd cynllunio, gweithgareddau masnachol a grantiau. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2024, cynhyrchodd APC Arfordir Penfro 23% o'i incwm yn lleol drwy ffioedd meysydd parcio a ffioedd cynllunio, a 17% pellach o wasanaethau fel gwerthiannau caffis, ffioedd mynediad, digwyddiadau a gweithgareddau, nwyddau, hysbysebu, gwerthiannau pren, a grantiau penodol i brosiectau fel y rhai ar gyfer cynnal a chadw Llwybr yr Arfordir (Llwybr Cenedlaethol)[3].

Mae Tabl 3.12 yn cyflwyno incwm ffioedd ceisiadau cynllunio blynyddol awdurdodau lleol yn yr ardal ymgeisiol. Mae Sir Ddinbych yn cael llawer mwy o incwm cynllunio na'r awdurdodau eraill. Adroddodd APC Arfordir Penfro ostyngiad yn incwm cynllunio rhwng 2023 a 2024, a phriodolir hyn i heriau economaidd ehangach a chostau byw cynyddol, sydd wedi arwain at ostyngiad cyffredinol mewn ceisiadau gan berchnogion tai[3].

### Cyllido Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Mae'r data cyllido sydd ar gael ar gyfer Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn gyfyngedig, ond yn 2017, cafodd £272,037 o dair ffynhonnell: Grant Cyflog Cyfoeth Naturiol Cymru (£117,046), y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (£54,545), a chyfraniadau awdurdodau lleol (£100,446)[4]. Yn 2024–2025, dyrannwyd £70,000 iddo ar gyfer safleoedd treftadaeth ac ymwelwyr, a £130,000 ar gyfer y prosiect Rhostiroedd Mawreddog a Choetiroedd Gwyllt, i gynnal bioamrywiaeth, adfer natur, ac ymdrechion datgarboneiddio[5].

Tabl 3.12. Incwm ceisiadau cynllunio'r awdurdod lleol (Ffynhonnell: Adroddiad Cynllunio Arup)

| Awdurdod lleol | Incwm o geisiadau cynllunio (£) |
|---|---|
| Sir Ddinbych | 334,340 |
| Sir y Fflint | 44,880 |
| Gwynedd | Amherthnasol |
| Powys | 99,815 |
| Wrecsam | 7,625 |

Tabl 3.13. Cyllid Parciau Cenedlaethol 2025–2026 (Ffynhonnell: Swyddogion Llywodraeth Cymru)

| | Arfordir Penfro (£) | Bannau Brycheiniog (£) | Eryri (£) |
|---|---|---|---|
| Cyllid grant craidd gan Lywodraeth Cymru | 3,412,000 | 3,265,000 | 4,326,000 |
| Cyllid Llywodraeth Cymru arall (refeniw) | 426,000 | 55,000 | 72,000 |
| Cyllid Llywodraeth Cymru arall (cyfalaf) | 1,028,000 | 1,106,000 | 1,191,000 |
| Ardoll awdurdod lleol | 1,137,000 | 1,088,000 | 1,442,000 |
| Cyllid arall nad yw'n gyllid gan Lywodraeth Cymru (dangosiadol) | 2,565,000 | 1,398,000 | 3,468,000 |
| **Cyfanswm** | **8,568,000** | **6,912,000** | **10,499,000** |

1. Adroddiadau ar benderfyniadau: 2025 | LLYW.CYMRU
2. Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy – Cronfa Tirwedd: grantiau wedi'u dyrannu [HTML] | LLYW.CYMRU
3. Signed-Audited-Accounts-PCNPA-23-24-1.pdf
4. Business Plan 2016-19 (1).pdf
5. Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy – Cronfa Tirwedd: grantiau wedi'u dyrannu [HTML] | LLYW.CYMRU

# Trefniadau cyllido a sefydliadol

## Amodau llinell sylfaen

### Strwythur a chyfansoddiad

Awdurdodau lleol at ddiben arbennig sy'n meddu ar bwerau gweithredol yw awdurdodau parciau cenedlaethol. Mae pob APC yn cynnwys:

- Dwy ran o dair o gynghorwyr awdurdod lleol
- Traean o'r aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru.

Dewisir cynghorwyr ar sail cydbwysedd gwleidyddol, lleoliad y ward, ac ymrwymiad i ddibenion y parc. Gwneir penodiadau Llywodraeth Cymru drwy broses recriwtio gyhoeddus, ac maent yn cyfrannu arbenigedd mewn meysydd fel yr amgylchedd, twristiaeth neu ffermio. Mae aelodau awdurdodau lleol fel arfer yn gwasanaethu tymhorau pedair blynedd sy'n cyd-fynd ag etholiadau lleol, tra bod penodiadau Llywodraeth Cymru yn gwasanaethu tymor cychwynnol o bedair blynedd, y gellir ei adnewyddu hyd at uchafswm o wyth mlynedd trwy adolygiad gweinidogol[1]. Mae Tabl 3.14 yn dangos y cyfansoddiad o ran aelodau parciau cenedlaethol presennol Cymru.

Tabl 3.14. Y cyfansoddiad o ran aelodau'r awdurdodau parciau cenedlaethol presennol (Ffynhonnell: Arup)

| Y cyfansoddiad o ran aelodau | Bannau Brycheiniog | Arfordir Penfro | Eryri |
|---|---|---|---|
| Nifer a benodwyd o **awdurdodau lleol cyfansoddol** | 12 | 12 | 12 |
| Nifer a benodwyd gan **Lywodraeth Cymru** | 6 | 6 | 6 |
| **Cyfanswm yr aelodau** | **18** | **18** | **18** |

### Rolau, cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau

Mae aelodau awdurdodau parciau cenedlaethol yn cynrychioli buddiannau'r parc cyfan, nid cynghorau na phleidiau unigol. Maent yn penderfynu ar strategaeth, yn cymeradwyo cyllidebau, yn datblygu polisïau, ac yn sicrhau llywodraethu moesegol. Fel eiriolwyr dros ddibenion yr awdurdod, maent yn cefnogi cadwraeth, treftadaeth ddiwylliannol, a mwynhad y cyhoedd. Gwneir penderfyniadau allweddol mewn cyfarfodydd llawn yr awdurdod, gyda phwyllgorau neu weithgorau'n cael eu ffurfio fel y bo angen. Mae'r cadeirydd a chadeiryddion y pwyllgorau yn chwarae rôl hanfodol wrth gynnal llywodraethiant effeithiol.

### Cyflogau

Gall APC dalu cyflog uwch i'w gadeirydd, ei ddirprwy gadeirydd a hyd at ddau gadeirydd pwyllgor. Cyflog sylfaenol aelod o'r parc cenedlaethol yw £4,964, cyflog cadeirydd yw £13,764, a chyflog dirprwy gadeirydd neu gadeirydd pwyllgor yw £8,704[2].

*Astudiaeth achos: Strwythur pwyllgor Bannau Brycheiniog*[3]

Mae'r awdurdod parc cenedlaethol yn cynnwys pob un o'r 18 aelod, a'r corff hwn sy'n gwneud pob un o'r penderfyniadau allweddol ar gyllidebau a pholisi. Mae'n dirprwyo rhai o'i benderfyniadau i bwyllgorau eraill, sydd wedi'u rhestru isod.

- *Pwyllgor Archwilio a Risg:* Yn cynghori ar lywodraethu, risg, archwiliadau, gwrth-dwyll, cwynion, ac adolygiadau llywodraethu blynyddol.
- *Pwyllgor y Cadeiryddion:* Yn goruchwylio llywodraethiant, yn adolygu perfformiad, yn rheoli materion y prif swyddogion gweithredol, ac yn datrys cwynion y prif swyddogion gweithredol.
- *Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad:* Yn rheoli cyllidebau, yn adolygu perfformiad, ac yn goruchwylio cronfeydd arian wrth gefn.
- *APC:* Yn penderfynu ar bolisi, strategaeth, cyllid a phenodiadau; yn cyfarfod bob deufis, yn agored i'r cyhoedd ar y cyfan.
- *Pwyllgor Cynllunio:* Yn cyfarfod bob wyth wythnos i benderfynu ar geisiadau cynllunio, gorfodi rheolaethau, ac ymdrin â pholisïau mwynau a gwastraff.
- *Pwyllgor Safonau:* Yn cyfarfod fel y bo angen (o leiaf unwaith bob blwyddyn) ar gyfer dyletswyddau cyfreithiol, cyngor gweithdrefnol, a chwynion.

### Gweithwyr y parc cenedlaethol

Mae gan bob APC dîm ymroddedig: mae APC Eryri yn cyflogi 100 o staff ar draws 12 adran, gan gynnwys cyllid, adnoddau dynol, cynllunio a threftadaeth; mae gan APC Arfordir Penfro oddeutu 150 o aelodau staff mewn rolau fel swyddogion cynllunio, parcmyn, swyddogion cadwraeth ymhlith rolau eraill; mae Bannau Brycheiniog hefyd yn cyflogi dros 100 o staff.



Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen, Cadeirydd yr Awdurdod (Ffynhonnell: eryri.llyw.cymru)

1. Aelodau yr awdurdod parc cenedlaethol – Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
2. Taliadau i aelodau etholedig: Awdurdodau parciau cenedlaethol | LLYW.CYMRU
3. Llywodraethu APCBB

# Trefniadau cyllido a sefydliadol

## Effaith bosibl

### Ardoll awdurdod lleol

Yn seiliedig ar y ffigurau a gyflwynir yn Nhabl 3.13, gallem ddisgwyl, pe bai parc cenedlaethol newydd yn cael ei sefydlu, y byddai angen cyfanswm ardoll awdurdod lleol o ryw £1.1 miliwn i £1.4 miliwn i gyd-fynd â fframwaith grantiau ac ardoll presennol y llywodraeth. Fel arfer, caiff y cyfraniadau hyn eu dyrannu yn ôl ffactorau fel cyfran arwynebedd y parc o fewn pob awdurdod lleol, er mai Llywodraeth Cymru sy'n gwneud y penderfyniad terfynol.

### Canran yr ardal a gwmpesir

Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn ymestyn dros 213,969 hectar, ar draws dau awdurdod lleol: Gwynedd (169,409 hectar) a Chonwy (42,781 hectar), sy'n cyfateb i ryw 80% ac 20% o arwynebedd y parc yn y drefn honno. Mae cyfraniadau ardoll gan yr awdurdodau hyn yn adlewyrchu'r rhaniad hwn, gyda Gwynedd yn cyfrannu £1,059,000, a Chonwy yn cyfrannu £314,000 ym mlwyddyn ariannol 2024.


Byddai'r pum awdurdod lleol yn cyfrannu'n gymesur at ardoll yn y dyfodol yn seiliedig ar gyfran yr ardal ymgeisiol o fewn eu ffiniau. Mae ardollau'r awdurdodau lleol ar gyfer y parciau cenedlaethol sy'n bodoli eisoes yng Nghymru yn amrywio o gyfraniadau o £1.1 miliwm i £1.4 miliwm. Gan dybio y byddai cyfanswm ardoll awdurdodau lleol tebyg ar gyfer y parc cenedlaethol newydd, ac yn seiliedig ar ganran yr ardal ymgeisiol o fewn pob un o'r pum awdurdod lleol, amcangyfrifwyd ystod o ddyraniadau ardoll posibl dangosol yn Nhabl 3.15. Byddai angen arbed y symiau dangosol hyn, eu dyrannu gan Lywodraeth Cymru, neu eu hennill mewn refeniw ychwanegol i sicrhau niwtraliaeth o ran cost. Ar ôl ei ddynodi, byddai'r APC yn ymgynghori â'r awdurdodau lleol perthnasol er mwyn sicrhau bod eu cyfran yn adlewyrchu costau rheoli a chynnal a chadw'r parc.

### Pwysau cyllidebol yr awdurdodau lleol

Mae ardoll yr awdurdod lleol wedi'i chynllunio i fod yn niwtral o ran cost, ond mae pryderon y gallai fod angen ei thalu o ddyraniadau presennol Llywodraeth Cymru. Yn ehangach, mae awdurdodau lleol yn ofni y gallai'r ardoll gael ei brigdorri o gronfa gyllido gyffredinol llywodraeth leol, gan leihau cyllidebau pob cyngor fymryn. Mae awdurdodau yn yr ardal ymgeisiol eisoes yn wynebu pwysau ariannol mawr ar gyfer 2025–26. Mae Sir y Fflint yn bwriadu codi'r dreth gyngor 9.5% i gau bwlch o £18 miliwn[1], mae Sir Ddinbych yn wynebu diffyg o £23.9 miliwn[2], ac mae Powys yn rhagweld diffyg o £9.6 miliwn yn codi i £50.9 miliwn dros bedair blynedd[3]. Er bod yr ardoll yn gymedrol—e.e. cyfraniad Conwy o £314,000 yn erbyn £44.5 miliwn mewn gwariant cyfalaf—gallai ychwanegu pwysau at gyllidebau sydd eisoes dan bwysau. Mae potensial i hyn gael ei wrthbwyso gan incwm ardoll ymwelwyr (gweler dros y dudalen) ar gyfer awdurdodau lleol sy'n cyflwyno hyn.

### Colli incwm cynllunio

Mae rhai awdurdodau lleol, yn enwedig Sir Ddinbych—a enillodd £334,340 mewn ffioedd cynllunio—wedi mynegi pryder ynghylch y golled incwm bosibl o geisiadau cynllunio o fewn y parc cenedlaethol arfaethedig. Er y byddent yn parhau i gael ffioedd o ardaloedd y tu allan i'r parc, gellid cydbwyso unrhyw ostyngiad mewn refeniw yn rhannol gan gostau gwasanaeth cynllunio is. Mae CNC wedi comisiynu astudiaeth ar wahân i archwilio'r mater hwn ymhellach.




Ffigur 3.16. Ardal awdurdod lleol o fewn ardal ymgeisiol (Ffynhonnell: Arup)

Tabl 3.15. Ardal awdurdod lleol o fewn ardal ymgeisiol (Ffynhonnell: Arup)

| Awdurdod lleol | Arwynebedd (hectar) | Canran o'r ardal ymgeisiol ym mhob awdurdod lleol | Ardoll awdurdod lleol dangosol posibl (£) |
|---|---|---|---|
| Powys | 56,215.7 | 48.2% | 525,000–700,000 |
| Sir Ddinbych | 38,465.8 | 33.0% | 350,000–480,000 |
| Wrecsam | 15,571.2 | 13.4% | 150,000–190,000 |
| Sir y Fflint | 5,249.4 | 4.5% | 50,000–65,000 |
| Gwynedd | 1,109.0 | 1.0% | 10,000–15,000 |

1. Ffeithlun Gwybodaeth Cyllideb 2025–2026
2. Sir Ddinbych yn wynebu methdaliad, yn ôl llythyr preifat | Denbighshire Free Press
3. Powys gynaliadwy – Cyngor Sir Powys
4. Cyllid yn hwb i adfer natur ym Mannau Brycheiniog | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
5. __AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
6. Incwm o barcio ceir: Parc Cenedlaethol Ardal y Copaon

# Trefniadau cyllido a sefydliadol

## Effaith bosibl

### Cyllid ychwanegol

Mae awdurdodau parciau cenedlaethol yn aml mewn lle da i sicrhau cyllid grant. Er enghraifft, cafodd APC Bannau Brycheiniog £70,000 gan Gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn 2021[4]. Y flwyddyn honno, llwyddodd APC Eryri i sicrhau cyllid o sawl ffynhonnell, gan gynnwys £409,000 gan CNC a symiau llai gan bartneriaid fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r RSPB[5]. Gall awdurdodau parciau cenedlaethol hefyd gael mynediad i gynlluniau Llywodraeth Cymru fel cronfeydd Y Pethau Pwysig a Ffermio Bro.

Yn ogystal â grantiau, gall awdurdodau parciau cenedlaethol gynhyrchu incwm drwy ffioedd meysydd parcio, canolfannau ymwelwyr a rhenti. Meysydd parcio Eryri yw ei ffynhonnell incwm fwyaf, gan gefnogi mentrau fel bws Sherpa'r Wyddfa. Enillodd Ardal y Copaon £467,733 o ffioedd parcio, a £57,637 o drwyddedau yn 2024[6]. Nid yw wedi'i benderfynu eto a fyddai parc cenedlaethol newydd yn perchen ar asedau fel meysydd parcio, gyda'u refeniw cysylltiedig.

### Ardoll ymwelwyr

Mae Cymru yn bwriadu cyflwyno ardoll ymwelwyr ar arosiadau dros nos[1]. Disgwylir i'r ardoll gael ei rhoi ar waith o 2027 ymlaen. Bydd gan awdurdodau lleol yr opsiwn o godi'r ardoll, ac os caiff ei rhoi ar waith, codir tâl fesul unigolyn, fesul noson. Mae cyfraddau'r ardoll arfaethedig fel a ganlyn:

- Y mwyafrif o eiddo llety: £1.25 y pen fesul noson ar gyfer gwestai, lleoliadau gwely a brecwast, a llety hunanddarpar.
- Hostelau a safleoedd gwersylla: £0.75 y pen fesul noson.

Pe bai pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cyflwyno ardoll dwristiaeth, gallai godi hyd at £33 miliwn bob blwyddyn.

Byddai'r cyllid hwn yn cael ei wario gan awdurdodau lleol, gyda dyletswydd i ymgynghori ag awdurdodau parciau cenedlaethol lle maent yn bresennol yn eu hardal. Gallai'r cyllid hwn helpu cymunedau i reoli costau twristiaeth, cefnogi'r Gymraeg, a hybu twf twristiaeth gynaliadwy. Gallai refeniw wella seilwaith lleol—megis toiledau, llwybrau troed, traethau a chanolfannau ymwelwyr—gan fod o fudd i drigolion ac ymwelwyr.

Gallai ardoll ymwelwyr hefyd ddarparu cyllid uniongyrchol i awdurdodau lleol yn yr ardal ymgeisiol, yn enwedig mewn lleoliadau â chryn draffig. Er enghraifft, cyflwynodd Manceinion dâl ar gyfer ymwelwyr â'r ddinas o £1 yr ystafell fesul noson ym mis Ebrill 2023, sef y ddinas gyntaf yn y DU i weithredu treth o'r fath. Ers hynny mae wedi codi £2.8 miliwn bob blwyddyn, ac mae'r arian sy'n cael ei gasglu yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau strydoedd a hyrwyddo twristiaeth. Gallai ardoll debyg yng Nghymru ddarparu buddsoddiad wedi'i dargedu i gynnal a gwella profiad yr ymwelwyr.

Mae adroddiadau STEAM 2023 o barciau cenedlaethol Cymru yn rhannu ymwelwyr dros nos yn ddau gategori: llety â gwasanaeth (gwestai, tai gwesteion, lleoliadau gwely a brecwast) a llety heb wasanaeth (gwersylla, carafannau, hostelau, ysgolion, colegau, bythynnod).

Mae'r adroddiadau hefyd yn darparu ffigurau ynghylch hyd arhosiad ar gyfartaledd. Er mwyn amcangyfrif yr ardoll ymwelwyr ar gyfer pob parc cenedlaethol presennol yng Nghymru, codir tâl o £1.25 y noson i ymwelwyr â llety â gwasanaeth, a thâl o £0.75 y noson i ymwelwyr â llety heb wasanaeth. Dangosir yr amcangyfrifon hyn yn Nhabl 3.16, gan ddefnyddio ffigurau twristiaeth 2023 a phrisiau 2025, heb ystyried chwyddiant.

Yn seiliedig ar y cyfrifiadau hyn, mae'r refeniw dangosol posibl y gellid ei godi drwy'r ardoll dwristiaeth ym mharciau cenedlaethol presennol Cymru yn amrywio o £1.1 miliwn i £6.4 miliwn.

Mae'r amrediad mawr mewn refeniw posibl o ganlyniad i'r amrywiad yng nghyfran yr ymwelwyr dros nos. Yn 2023, bu 88% o'r ymwelwyr â Bannau Brycheiniog yn ymwelwyr dydd, felly dim ond i'r 12% o ymwelwyr dros nos y byddai'r ardoll yn berthnasol. Mae hyn yn arwain at refeniw amcangyfrifedig is yn Nhabl 3.16 o'i gymharu â pharciau cenedlaethol eraill. O ystyried agosrwydd y parc cenedlaethol newydd at ganolfannau trefol, gellid disgwyl cyfran uchel o ymwelwyr undydd, na fyddai'r ardoll yn berthnasol iddynt. Byddai'r refeniw o'r ardoll yn mynd i awdurdodau lleol, a fyddai'n gorfod ymgynghori ag unrhyw APC yn y dyfodol, ond ni fyddai unrhyw rwymedigaeth arnynt i ddynodi unrhyw ran o'r incwm i'r APC, na'i wario yn ardal y parc cenedlaethol.


Tabl 3.16. Ardoll dwristiaeth flynyddol ddangosol bosibl (Ffynhonnell: Dadansoddiad Arup yn seiliedig ar STEAM 2023)

| | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Parc Cenedlaethol Eryri | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| Llety â gwasanaeth – ardoll dwristiaeth amcangyfrifedig (£) | 495,000 | 312,250 | 201,250 |
| Llety heb wasanaeth – ardoll dwristiaeth amcangyfrifedig (£) | 5,882,250 | 5,256,000 | 896,250 |
| **Cyfanswm yr ardoll dwristiaeth flynyddol amcangyfrifedig** | **6,377,250** | **5,568,250** | **1,070,500** |

1. https://www.llyw.cymru/ArdollYmwelwyr
2. https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-manchester-68739832

# Trefniadau cyllido a sefydliadol

## Crynodeb o’r effaith bosibl




Ffigur 3.17. Effaith economaidd ehangach ar gyfer trefniadau cyllido a threfniadau sefydliadol (Ffynhonnell: Arup)

04

# Casgliad

# Casgliad

## Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn wedi asesu'r effeithiau economaidd posibl o ddynodi parc cenedlaethol newydd yng Nghymru. Mae wedi asesu'r effeithiau hyn yn erbyn wyth maes thematig; twristiaeth a'r economi ymwelwyr, cyflogaeth a busnesau (amaethyddiaeth a mwynau), eiddo, trafnidiaeth, cymdeithasol, diwylliant ac iechyd, amgylcheddol, a threfniadau cyllido a threfniadol. Ar draws pob maes thematig, nodwyd yr effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl yn yr adolygiad.

Mae llunio asesiad cyffredinol ynghylch a ydyw dynodi parc cenedlaethol yn debygol o fod o fudd economaidd yn heriol. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad a gynhaliwyd yn awgrymu bod dwy elfen allweddol i'w hystyried.

Yn gyntaf, bydd dynodi yn arwain at gyfres o newidiadau sefydliadol. Mae gan y rhain botensial i ddod â rheolaeth well wedi'i chydgysylltu o ardal y parc cenedlaethol arfaethedig a chyllid mwy cynaliadwy, a gallai'r ddau hynny yn eu tro arwain at fuddion economaidd eang. Mae angen pwyso a mesur hyn yn erbyn buddion sefydlu corff newydd a fyddai'n gweithredu'n aneffeithlon yn ystod y cyfnod pontio, costau rhedeg cynyddol posibl i'r sector cyhoeddus, a rhyngwynebau newydd â strwythurau awdurdodau lleol presennol.


Yn ail, er nad oes llawer o dystiolaeth benodol ynghylch nifer yr ymwelwyr, ymddengys yn debygol y gallai dynodi arwain at gynnydd sylweddol. Byddai hyn yn arwain at fuddion economaidd sy'n gysylltiedig â gwariant ymwelwyr a phroffil uwch yr ardal. Mae angen pwyso a mesur y rhain yn erbyn straen ychwanegol ar seilwaith lleol, gwasanaethau a'r amgylchedd.

Wrth ddod i farn yn erbyn y pwyntiau hyn, mae rhai meysydd ansicr nodedig. Yn gyntaf, mae'r ffaith nad yw parciau cenedlaethol yn cael eu dynodi'n aml yn golygu bod y sylfaen dystiolaeth uniongyrchol yn gyfyngedig. Yn ail, nid yw rhai manylion pwysig am y dynodi wedi'u pennu eto, ac nid yw'r polisïau gwirioneddol y gallai APC posibl eu gweithredu yn hysbys eto. Bydd yr olaf yn ffactor allweddol wrth wneud y mwyaf o'r manteision, a lliniaru unrhyw anfanteision.

## Y camau nesaf a argymhellir

Mae Arup yn argymell bod CNC a/neu Lywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid rhanbarthol, yn ymgymryd â gwaith pellach i wneud fel a ganlyn:

1. Mesur a chymharu effeithiau lle bo modd. Nid yw hyn wedi bod yn bosibl o fewn cwmpas yr adolygiad hwn, ond mae'n bwysig i asesu'r gwerth am arian cyffredinol sy'n gysylltiedig â dynodi parc cenedlaethol newydd.
2. Diweddaru a mireinio'r adolygiad o'r effaith economaidd hwn wrth i fanylion y dynodiad gael eu datblygu, ac mewn ymateb i ymgyngoriadau yn y dyfodol. Gellid cynhyrchu hyn fel rhan o unrhyw achos busnes yn y dyfodol ar gyfer y dynodiad arfaethedig.
3. Os gwneir penderfyniad i ddynodi parc cenedlaethol, defnyddio canfyddiadau'r adolygiad hwn i helpu i lywio blaenoriaethau APC newydd posibl.



Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (Ffynhonnell: visit-north-east-wales)

# Atodiad

# Atodiad: Ymgysylltu â rhanddeiliaid

## Crynodeb o'r cyfweliadau ymgysylltu â rhanddeiliaid

Fel rhan o'r ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn, cynhaliodd Arup gyfweliadau â phob un o'r awdurdodau lleol sydd wedi'u cynnwys o fewn ffiniau'r ardal ymgeisiol, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill a ddewiswyd.

Darperir crynodeb o'u hadborth isod.

*Sir Ddinbych*

- **Twristiaeth a'r economi ymwelwyr:** Mae nifer yr ymwelwyr yn uchel, ond mae'r sector yn dymhorol â chyflogau isel, gan roi straen ar seilwaith lleol a rhoi pwysau ar yr ardal leol heb ddarparu buddion cyfrannol bob amser. Diddordeb mewn canolfan ymwelwyr i wasgaru'r ymwelwyr a'r effaith economaidd yn well.
- **Materion cymdeithasol a thai:** Mae cynnydd mewn prisiau tai yn bryder, ac mae prynu eiddo i'w defnyddio fel ail gartrefi yn gwaethygu'r broblem hon. Ceir amddifadedd gwledig, er gwaethaf pa mor agos yw'r ardal hyn at ardaloedd lle ceir mwy o gyfoeth. Yn aml, mae pobl leol yn teithio'n bell i'r gwaith, sy'n dangos diffyg cyfatebiaeth rhwng swyddi lleol ac anghenion trigolion.
- **Pryderon ynghylch dynodi:** Mae costau dynodi yn destun pryder, ac mae ansicrwydd ynghylch lefel y cymorth a'r cyllid a fyddai'n cael eu darparu yn sgil dynodi.

*Sir y Fflint*

- **Premiymau a phrisiau tai:** Ym mharciau Lloegr, fel Ardal y Llynnoedd ac Ardal y Copaon, ceir premiwm prisiau uchel. Yng Nghymru mae'r effaith yn gymysg. Yn Sir Benfro, ceir premiwm i raddau, ond mae'n llai amlwg nag yn Eryri ac ym Mannau Brycheiniog.
- **Newid cyfyngedig i Sir y Fflint:** Mae Sir y Fflint yn disgwyl newidiadau ymylol. Mae'n annhebygol y bydd y ffiniau'n newid yn sylweddol, mae goblygiadau cynllunio a chyllido yn parhau i fod yn aneglur, ac y mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i gynrychiolwyr lleol ddod i farn.

*Gwynedd*

- **Barn ar ddynodi:** Dim ond rhan fach iawn o'r ardal ymgeisiol sydd yng Ngwynedd. Prin y mae'n rhan o ymdrechion marchnata Gwynedd.
- **Heriau a phryderon:** Mae'r rhanbarth eisoes yn wynebu heriau cynllunio a llywodraethu cymhleth, gyda nifer o gynlluniau lleol sy'n gorgyffwrdd yn creu rhwystrau o ran sefydlu busnesau a sicrhau buddsoddiad. Mae pryder y gallai busnesau ffafrio ardaloedd y tu allan i'r dynodiad er mwyn osgoi beichiau cynllunio ychwanegol.
- **Hunaniaeth a dynameg parciau cenedlaethol:** Mae gan Eryri hunaniaeth parc cenedlaethol cryf a sefydledig. Cafwyd rhywfaint o gwestiynu ynghylch a fyddai ymwelwyr yn gwahaniaethu rhwng dau barc cenedlaethol sy'n agos at ei gilydd. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yr ardaloedd lleol yn falch o gael statws parc cenedlaethol.

*Powys*

- **Yr economi a seilwaith:** Ychydig o gyflogwyr mawr, a cheir microfusnesau, yn enwedig microffermio, ar y cyfan. Mae'r rhwydwaith ffyrdd bach yn destun pryder mawr, yn enwedig y cysylltedd gwael rhwng y gogledd a'r de. Mae'r gwaith cynnal a chadw llwybrau a ffyrdd sy'n bodoli eisoes yn cael ei dan-ariannu.
- **Pwysau twristiaeth:** Arweiniodd yr ymchwydd mewn twristiaeth ar ôl y cyfnod clo at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr a chynnydd yn nifer yr ail gartrefi a brynwyd. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn llywio mewnlifiadau i fannau poblogaidd ac mae dadleuon ynghylch o ble y byddai cyllid yn dod ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith twristiaeth.
- **Prisiau tai a demograffeg:** Prisiau tai yn codi oherwydd ail gartrefi; fforddiadwyedd tai ymhlith y gwaethaf yn y DU. Poblogaeth hŷn, lefelau cyflog isel, ac oriau gwaith hir yn gyffredin.
- **Heriau cyllido:** Bylchau cyllido sylweddol ar draws trafnidiaeth, tai, iechyd a thwristiaeth.

*Wrecsam*

- **Barn ar ddynodi:** Yn gadarnhaol ar y cyfan am y dynodi, ac yn cael ei weld fel cyfle i greu delwedd mwy amrywiol ar gyfer Wrecsam, gan fynd y tu hwnt i naratifau sy'n canolbwyntio ar bêl-droed.
- **Seilwaith a chyllid:** Mae mynediad i'r briffordd yn weddol, ond gallai nifer y cerbydau sy'n parcio a phwysau ar y ffyrdd gynyddu. Mae cyfleoedd cyllid grantiau sy'n gysylltiedig â statws parc cenedlaethol yn ddeniadol. Mae Wrecsam eisoes yn gweld twf o ran seilwaith solar a batris. Mae diddordeb mewn ynni cynaliadwy yn cyd-fynd â nodau'r parc cenedlaethol.
- **Ystyriaethau economaidd:** Mae Wrecsam yn ganolfan ddiwydiannol bwysig ac ag un o ystadau mwyaf Ewrop, gwasanaethau cyhoeddus cryf, a statws parth buddsoddi diweddar. Fodd bynnag, mae pryderon yn parhau ynghylch ardrethi busnes ac a fydd y buddion yn gorbwyso'r costau i fusnesau lleol.
- **Cynllunio a llywodraethu:** Ofn y gallai'r dynodi ychwanegu haen arall o fiwrocratiaeth ac arafu datblygiad.

# Atodiad: Parhad ymgysylltu â rhanddeiliaid

## Crynodeb o'r cyfweliadau ymgysylltu â rhanddeiliaid

*Uchelgais Gogledd Cymru*

- **Apêl ymwelwyr:** Anawsterau cyffredin wrth ddenu ymwelwyr oddi ar ffordd yr A55 i ardaloedd gwledig Sir y Fflint, er gwaethaf eu harddwch naturiol. Nodwyd hefyd ddiffyg seilwaith twristiaeth wledig (e.e. llety) i gynnal twf o ran ymwelwyr. Nodwyd bod gwariant y pen yn isel yng Nghymru ar hyn o bryd, ac mae pryder y byddai twristiaid yn dod heb gyfrannu at yr economi leol.
- **Potensial a chystadleuaeth twristiaeth:** Byddai'r Gogledd-ddwyrain yn cynnig profiad twristiaeth 'cynnil', yn wahanol i hunaniaeth sefydledig Eryri, sy'n canolbwyntio ar dwristiaeth antur. Gall agosrwydd dau barc cenedlaethol greu deinameg cystadleuol. Nid yw'n glir a fyddai hyn yn gadarnhaol (cyflenwol) neu'n negyddol (dadleoliad).
- **Her o ran llywodraethu:** Byddai'r parc cenedlaethol arfaethedig yn pontio dwy awdurdodaeth cyd-bwyllgor corfforedig, sef y Canolbarth a'r Gogledd. Cyrff rhanbarthol statudol yw'r cyd-bwyllgorau hyn, sy'n gyfrifol am swyddogaethau allweddol fel llesiant economaidd, trafnidiaeth a chynllunio strategol. Pe bai'r parc newydd yn cwmpasu'r ddau gyd-bwyllgor corfforedig: pwy fyddai'n penodi aelodau i'r APC, a sut fyddai goruchwyliaeth strategol a chydweithredu rhwng y cyd-bwyllgorau corfforedig hyn yn cael eu strwythuro?

*Llywodraeth Cymru*

- **Risgiau peidio â dynodi:** Mwy o ddatgoedwigo a llygredd, buddsoddiad a gollwyd i ffermwyr trwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol.
- **Strwythur cyllido:** 75% o refeniw'r APC gan Lywodraeth Cymru; 25% o ardoll yr awdurdod lleol, gan effeithio ar gyllidebau lleol. Mae'r fformiwla cyllido o 1996 yn parhau i gael ei defnyddio. Gallai ardoll dwristiaeth (pe bai'n cael ei gweithredu) ddarparu ffrwd gyllido ychwanegol wedi'i rheoli'n lleol.
- **Staffio:** Mae lefelau staffio yn dibynnu ar sylfaen asedau. Nid yw o reidrwydd yn cyfateb i Eryri (tua 100 aelod o staff). Enghraifft: Mae gan APC Bannau Brycheiniog lai o staff oherwydd bod ganddo lai o asedau.

*Y Twyni Deheuol*

- **Ymwelwyr:** Dynodwyd yr ardal yn barc cenedlaethol yn 2010, ac ers dod yn barc cenedlaethol mae nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu. Mae'r cynnydd hwn yn rhannol oherwydd tueddiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a diddordeb rhyngwladol. Newid amlwg o ran demograffeg ymwelwyr, gyda mwy o ymwelwyr rhyngwladol, yn enwedig o Asia. Mae hyn wedi arwain at heriau fel yr angen am arwyddion amlieithog a mwy o fesurau diogelwch.
- **Cyllido:** Mae'r Twyni Deheuol wedi profi toriad o 12% mewn termau real, gan gynnwys toriad o 9% mewn cyllid gwirioneddol a thoriad o 3% oherwydd newidiadau treth. Mae'r Twyni Deheuol wedi cofleidio cynhyrchu incwm trwy farchnadoedd natur, credydau carbon, a phartneriaethau â pherchnogion tir.
- **Cynllunio:** Mae cyfyngiadau ar ddatblygiadau, yn enwedig y rheini sy'n effeithio ar y dirwedd. Fodd bynnag, mae rhai prosiectau mawr, fel datblygiadau tai, wedi cael eu cymeradwyo. Er enghraifft, cymeradwywyd datblygiad mawr o dai y tu allan i Lewes y llynedd ar gyfer 685 o gartrefi.
- **Cadwraeth:** Gwneir ymdrechion i gefnogi gwaith adfer natur ac arferion cynaliadwy ymhlith busnesau lleol a pherchnogion tir. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda ffermwyr i arallgyfeirio eu hincwm drwy brosiectau adfer natur.
- **Prosiectau ynni adnewyddadwy:** Mae potensial i'r parc gymryd mwy o ran mewn prosiectau ynni adnewyddadwy.